# Adroddiad blynyddol

2020/21




TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES





# Cynnwys

04 Cipolwg ar y flwyddyn

## Adroddiad strategol

06 Datganiad y Cadeirydd

08 Datganiad y Prif Weithredwr

10 Ein gweledigaeth, gwerthoedd, cylch gwaith a phwrpas

12 Ein hymateb i Covid-19

14 Cyflwyno Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru

16 Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

18 Adroddiad gan ein Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu

22 Creu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol

28 Datblygu profiad cwsmeriaid sy'n gwella'n barhaus

34 Darparu cyngor, arweiniad ac arloesedd arbenigol y gellir ymddiried ynddo

38 Adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein pwrpas

44 Risg

## Llywodraethu

50 Ein Bwrdd

56 Pwyllgorau bwrdd ac adroddiadau gan eu cadeiryddion

66 Datganiad llywodraethu corfforaethol

72 Datganiad cydnerthedd

74 Datganiad adran 172

78 Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth

82 Adroddiad taliadau

86 Adroddiad y cyfarwyddwyr

88 Datganiad cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

## Datganiadau ariannol

92 Adroddiad yr archwilydd annibynnol

96 Datganiad incwm cyfunol

97 Datganiad cyfunol am y sefyllfa ariannol

98 Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti

99 Datganiad llif arian cyfunol

100 Datganiad am sefyllfa ariannol y cwmni

101 Datganiad y cwmni am newidiadau mewn ecwiti

102 Nodiadau

# Cipolwg ar y flwyddyn

Rydyn ni'n darparu gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud.

## Uchafbwyntiau 2020/21

**2,600** o gydweithwyr a drosglwyddodd o Keolis Amey Cymru Wales i TrC

**91** aelod o dîm glanhau a drosglwyddodd o Axis i TrC

**112** o weithwyr newydd wedi ymuno â TrC ac fe wnaethom hwyluso 24 o newidiadau i rolau mewnol

Fe wnaethon ni sefydlu'r **Cynllun Brys ar gyfer Bysiau (BES)**

**4.85%** Rydyn ni wedi lleihau 4.85% ar ein hallyriadau carbon

Mae canolrif ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng **8.3%**

**£638m** Cyfanswm y gwariant wedi'i ariannu gan grantiau ac wedi'i anfonebu i Lywodraeth Cymru (ac eithrio prosiectau a ariennir gan drydydd parti) sy'n cynnwys:

**£356m** Cyllid refeniw ar gyfer darparu gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, sy'n cynnwys £176m o gymorth refeniw Covid-19 a chyllid mesurau brys arall

**£88m** Cyllid Cyfalaf ar gyfer darparu gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, gan gynnwys prynu cerbydau, datblygu depos a gwella gorsafoedd


**£147m** Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar seilwaith rheilffyrdd a phrosiectau cyfalaf eraill

**£47m** Wedi'i wario ar brosiectau eraill ac ar weithredu'r gwasanaeth


## Prif gyflawniadau

- Lansio ein Cynllun Datblygu Graddedigion newydd a'r Academi Brentisiaeth.
- Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn barhaus gan gynnwys y gwaith ar linell Aberdâr a'r gwaith peirianyddol i'r gogledd o Radur fel rhan o waith adeiladu cam nesaf Metro De Cymru.
- Cyflwyno trenau Class 769 ar reilffordd Rhymni a phrofi trenau hybrid Class 230 yn barod i gael eu cyflwyno ar linell Wrecsam – Bidston.
- Cyflwyno fflecsi, ein gwasanaeth trafnidiaeth integredig newydd sy'n seiliedig ar alw.
- Ymgymryd â gwaith gwella sylweddol yng ngorsafoedd trên Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam yn ogystal â mân welliannau mewn gorsafoedd trenau ar draws ein rhwydwaith.
- Cefnogi Cyngor Gwynedd â'i ddepo bysiau trydan pwrpasol cyntaf ym Mlaenau Ffestiniog.
- Lansio cynllun rhannu beiciau trydan cyntaf Cymru yng Ngorsaf Drenau Penarth.
- Mae peirianwyr TrC wedi cyrraedd targedau argaeledd y fflyd bob dydd am dros flwyddyn, sy'n golygu ein bod wedi gallu darparu'r nifer uchaf bosibl o drenau i gwsmeriaid drwy gydol pandemig Covid-19.
- Agor yr orsaf newydd gyntaf ar rwydwaith Cymru a'r Gororau ers 2015 yn Bow Street.
- Cwblhau ein pencadlys newydd yng nghanol datblygiad Llys Cadwyn Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd.
- Lansio ein 'gwiriwr capasiti' arloesol sy'n helpu cwsmeriaid i deithio'n fwy diogel drwy gynllunio eu teithiau fel bod modd cadw pellter cymdeithasol cymaint â phosibl ar ein trenau.
- Sicrhau £100,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein prosiect 'Llwybrau Gwyrdd Bioamrywiaeth'.





# Datganiad y cadeirydd

Scott Waddington



Roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol. Cyfnod o heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen a newidiadau trawsnewidiol gyda'n cydweithwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gadw Cymru i symud yn ddiogel, gan barhau i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth mwy integredig sy'n hygyrch i bawb.

Wrth gwrs, fe wnaethom ddechrau'r flwyddyn heb wybod sut byddai Covid-19 yn effeithio ar ein pobl, ein strwythur na'n gwasanaethau. Mae'n brawf o sgiliau ac ymrwymiad ein pobl a natur gadarnhaol ein diwylliant ein bod, er gwaethaf Covid-19, wedi cyflawni cymaint. Mae hwn yn sefydliad sydd wedi newid y tu hwnt i bob cydnabyddiaeth yn y 12 mis diwethaf ond rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ac wedi alinio'n llwyr â'n pwrpas, ein gwerthoedd a'n strategaeth.

Diolch i bawb am eu gwaith caled a'u cefnogaeth barhaus. Mae partneriaid cyflenwi, rhanddeiliaid, cydweithwyr a chwsmeriaid i gyd wedi chwarae eu rhan i sicrhau nad ydym yn colli golwg ar y darlun ehangach; darparu rhwydwaith trafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon y gall pobl Cymru ymfalchïo ynddi.

Yn wir, roedd trosglwyddo'r gweithrediadau rheilffyrdd i Drafnidiaeth Cymru ym mis Chwefror 2021 yn garreg filltir bwysig i bobl Cymru. Daeth y symudiad, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020, yn wyneb gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr oherwydd Covid-19.

Yr oedd yn benderfyniad anodd i'w wneud ac yn dasg enfawr i bawb dan sylw, ond dyna'r peth iawn i'w wneud gan fod perchnogaeth gyhoeddus o'r rheilffordd yn ein galluogi i ddiogelu gwasanaethau, diogelu swyddi a sicrhau gwelliannau i'r seilwaith. Rwy'n arbennig o ddiolchgar am ymgysylltiad cadarnhaol cydweithwyr Keolis Amey drwy gydol y broses symud a phontio.

Wrth gwrs, mae pandemig Covid-19 yn golygu bod angen i ni barhau i adolygu ein gweithgareddau ar sail anghenion ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr yn ogystal â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth. Rydyn ni'n disgwyl y bydd Covid-19 yn parhau i effeithio ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ac ar agwedd ein cwsmeriaid at drafnidiaeth gynaliadwy.

Ar ôl cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, rydym yn gwbl ymwybodol o'r camau sydd angen eu cymryd i ail-siapio trafnidiaeth yng Nghymru. Mae lleihau ein hôl troed carbon yn flaenoriaeth allweddol, felly rwy'n falch bod yr adroddiad blynyddol hwn yn rhannu'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran datblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n annog ac yn hwyluso cerdded, beicio a defnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ar ôl trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru ym mis Mawrth 2020, rydym eisoes yn bwrw ymlaen â'n rhaglen drawsnewid. Rydyn ni'n buddsoddi ar gyfer y dyfodol drwy adeiladu sylfeini Metro De Cymru; rhwydwaith bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol modern a chynaliadwy a fydd yn trawsnewid bywydau pobl ac yn lleihau effaith amgylcheddol ein rhwydwaith trafnidiaeth.

Rydyn ni'n cysylltu pobl a chymunedau, gan weithio'n galed i wneud yn siŵr bod rhwydwaith trafnidiaeth Cymru yn cefnogi adferiad tecach, gwyrdd a mwy cyfartal ar ôl Covid-19 oherwydd mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gwell a mwy integredig yn sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd a symudedd cymdeithasol.

Mae gennym lawer iawn i'w wneud, ond gyda chefnogaeth barhaus ein Bwrdd ac arweinyddiaeth ragorol James Price fel Prif Weithredwr ynghyd â'i uwch dîm, rwy'n hyderus y byddwn yn cyflawni beth bynnag fydd yr heriau a ddaw i'n rhan; i'n pobl, i'n cwsmeriaid ac i Gymru.

> "Cryfder ein bwrdd, ymrwymiad ein partneriaid cyflenwi a medrusrwydd ein pobl sydd wedi galluogi TrC i fod yn y sefyllfa mae ynddi heddiw."

# Datganiad y prif weithredwr

James Price



Fel partner cyflenwi dibynadwy i Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n frwd dros ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig o'r radd flaenaf a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Mae Covid-19 wedi gwneud 2020/21 yn flwyddyn anodd i bawb ond rwy'n falch o'r tosturi, y gwytnwch a'r ystwythder mae ein timau wedi'u dangos; gan weithio gyda'n gilydd i gadw cwsmeriaid yn ddiogel, diogelu ein gwasanaethau a gofalu am ein gilydd. Diolch i bawb am eu hymroddiad, eu dyfalbarhad a'u ffocws parhaus ar gyflawni.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono.
Mae cefnogaeth ein rhanddeiliaid, ein cymdogion a'n partneriaid cyflenwi yn hanfodol i'n gwaith, felly rwy'n falch o fod wedi cyflwyno ein Panel Cynghori eleni ac rwy'n gwerthfawrogi'r ymgysylltu rydym yn parhau i'w wneud â'n cyllidwyr, ein rheoleiddwyr a'n cynghorwyr yn y diwydiant.

Mae ein Bwrdd hefyd yn parhau i chwarae rhan bwysig; gan ein herio, ein harwain a'n cefnogi i sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r ateb cywir i gwsmeriaid a chydweithwyr fel ei gilydd. Rwy'n gwerthfawrogi eu harweiniad a'u cyngor, yn enwedig o gofio bod ein cylch gwaith wedi gorfod esblygu mor gyflym eleni.

Yn wir, mae eleni wedi gweld sawl carreg filltir arwyddocaol yn esblygiad TrC. Rydym wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros Linellau Craidd y Cymoedd ar ôl trosglwyddo o Network Rail ym mis Mawrth 2020 cyn dod yn weithredwr gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau gyda'r gwaith o greu Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ym mis Chwefror 2021. Ar ddechrau'r flwyddyn, trosglwyddodd y tîm glanhau Axis hefyd wrth i ni barhau i adeiladu profiad gwell yn y gwasanaeth i'n cwsmeriaid.

Mae ein timau wedi gweithio'n ddiflino ochr yn ochr â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i gyflawni'r prosiectau symud cymhleth hyn, gan olygu bod gennym gyfrifoldeb gweithredol llawn dros ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Mae trosglwyddo ein 2,600 o gydweithwyr o Keolis Amey Wales Cymru Limited yn golygu ein bod bellach yn un tîm, gan weithio fel un i wneud y peth iawn i bobl Cymru.

O baratoi cerbydau newydd i lansio fflecsi, ein gwasanaeth bws ar-alw, rydyn ni'n gweithio'n galed i drawsnewid profiad cwsmeriaid ac i annog newid moddol hirdymor a chynaliadwy. Rydyn ni hefyd wedi dechrau gweithio i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd fel rhan o adeiladu Metro De Cymru; rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl deithio o amgylch De Ddwyrain Cymru.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o waith yn digwydd y tu ôl i'r llenni wrth i ni barhau i adeiladu sefydliad sy'n gallu cyflawni ein pwrpas. Rydyn ni'n buddsoddi yn ein pobl ac yn manteisio i'r eithaf ar dechnoleg; wrth i ni baratoi i ddefnyddio ein cartref newydd yn llawn yn Llys Cadwyn Pontypridd.

Mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol, ond rydyn ni'n parhau i symud ymlaen ac yn parhau i ganolbwyntio ar wneud y peth iawn i Gymru; cyflawni ar gyfer ein cwsmeriaid, buddsoddi ar gyfer y dyfodol a thrawsnewid ein rhwydwaith trafnidiaeth gyda gwir ymdeimlad o bwrpas a balchder.

"Drwy gydweithio fel un tîm, rydym yn gyrru gweledigaeth Llywodraeth Cymru am rwydwaith trafnidiaeth o ansawdd uchel, diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch y gall Cymru ymfalchio ynddo."

# Cludiant ar gyfer eich diwrnod

Mae Trafnidiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y gall Cymru ymfalchio ynddo.

## Ein gweledigaeth

**"Creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy rwydwaith trafnidiaeth diogel y gall Cymru ymfalchio ynddo."**

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wneud i'r cysylltiadau hyn ddigwydd – drwy gynllunio, comisiynu a rheoli rhwydweithiau trafnidiaeth effeithlon, a drwy fanteisio ar y sgiliau gorau posibl o bob rhan o ddiwydiant, llywodraeth a chymdeithas. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n creu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor Cymru a'r cymunedau hynny sy'n gysylltiedig â ni, gan gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ein pwrpas

**"Darparu gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud"**

Mae system trafnidiaeth gyhoeddus fwy integredig yn un o elfennau allweddol strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb. Mae trafnidiaeth yn cysylltu pobl â chymunedau, yn sail i ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi twf economaidd. Bydd gwell gwasanaethau trafnidiaeth yn arwain at fuddion gwirioneddol i bobl, yn cynnwys gwell mynediad at gyfleoedd gwaith ac integreiddio gwasanaethau - fel addysg ac iechyd - yn well.

## Ein gwerthoedd

Yn hanfodol i bopeth a wnawn yw ein gwerthoedd, sy'n rhan annatod o'n diwylliant a'n ffyrdd o weithio.

Byddwn yn creu ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid, yn seiliedig ar y canlynol:

- **bod yn ddiogel** Iechyd, diogelwch a lles
- **bod y gorau** Perfformiad uchel, cyflymder
- **bod yn bositif** Os gallwn ni, gwnawn ni
- **bod yn gysylltiedig** Mentrus a rhwydweithiol
- **bod yn deg** Gonestrwydd a chydraddoldeb
- **creu llwyddiant ar y cyd** Brwdfrydedd dros gael y fargen orau

## Ein cylch gwaith

Cawsom ein sefydlu yn 2015 yn gwmni nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydweithio â darparwyr trafnidiaeth eraill, partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru a'r gororau i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, hygyrch, dibynadwy, fforddiadwy ac integredig sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Nid ydym yn pennu polisi, ac nid ydym yn arfer unrhyw swyddogaethau statudol ychwaith. Ni yw cynghorydd arbenigol y Llywodraeth hefyd, ac rydym n'n eiriolwr dros faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.



Ein swyddfeydd newydd yn Llys Cadwyn


# Ein hymateb i Covid-19

O'r enfys ar ein trenau i lansio'r gwiriwr capasiti a thaliadau digyswllt ar fysiau, rydyn ni wedi gweithio'n galed drwy gydol y pandemig i gyflawni ar ran ein cwsmeriaid, i ddiogelu ein cydweithwyr ac i gefnogi blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ehangach.

Mae ein cydweithwyr wedi ymdopi â heriau logistaidd a phersonol i gadw Cymru i symud; gan ddarparu gwasanaeth y mae mawr ei angen i weithwyr allweddol a theithio am ddim i weithwyr y GIG ar ddechrau'r pandemig. Rydyn ni hefyd wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru; gan ddefnyddio ymyriadau peirianyddol i gasglu gwybodaeth am ymddygiad a dylanwadu'n gadarnhaol ar gwsmeriaid i'w cadw nhw a'u cydweithwyr yn ddiogel.

## Cadw cwsmeriaid a chydweithwyr yn ddiogel

- ✓ Dod o hyd i 2,000 o orchuddion wyneb newydd arloesol ar gyfer ein gweithwyr rheng flaen - mae ffenestr dryloyw yn caniatáu i gwsmeriaid weld beth mae gweithwyr yn ei ddweud, gan helpu i leihau'r rhwystr rhag cyfathrebu sy'n gysylltiedig â gorchuddion wyneb.
- ✓ Lansio'r Gwiriwr Capasiti, sy'n helpu cwsmeriaid i weld pa drenau yw'r rhai lleiaf prysur er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol yn ddiogel oherwydd COVID-19. Mae'r porth ar-lein newydd yn dangos i gwsmeriaid pa drenau sydd fel rheol â digon o le, sy'n weddol brysur neu sy'n gallu bod yn llawn, er mwyn i bobl allu cynllunio ymlaen llaw a dewis y gwasanaeth sy'n iawn iddyn nhw.
- ✓ Prynu miloedd o litrau o hylif diheintio dwylo o ddistyllfa Gymreig newydd. Wedi'i leoli ym Mro Morgannwg, roedd gan Gastell Hensol gynlluniau i agor ysgol jin yn seleri ei chastell o'r 17eg ganrif. Fodd bynnag, fe wnaethon nhw addasu eu distyllfa yn gyflym a dechrau cynhyrchu hylif diheintio dwylo diwydiannol hynod effeithiol. Rydyn ni nawr yn un o'u prif gwsmeriaid.
- ✓ Adleoli ein tîm arlwyo ar y trên i helpu gyda glanhau pwyntiau cyffwrdd a stiwardio mewn gorsafoedd allweddol, gan helpu i gadw pellter cymdeithasol a chydymffurfio â gofynion gorchuddion wyneb.
- ✓ Cynyddu'r timau glanhau, gwneud gwaith glanhau ychwanegol mewn gorsafoedd, depos a threnau a chyflwyno cynnyrch glanhau gwrthfirysol newydd.
- ✓ Cyflwyno systemau unffordd ac arwyddion drwy ein gorsafoedd rheilffyrdd i helpu ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid i gadw pellter cymdeithasol.
- ✓ Gweithio gyda'n panel cynghori i gysylltu â sefydliadau busnes fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, CBI ac IoD i gynnig arweiniad i fusnesau a gweithwyr.
- ✓ Rhoi cynllun ar waith i gefnogi myfyrwyr sy'n dychwelyd i fyd addysg ym mis Medi 2020, gyda bysiau'n gweithredu ar lwybrau allweddol i ddarparu capasiti ychwanegol i fyfyrwyr sy'n galluogi cadw pellter cymdeithasol.






## Diogelu ein gwasanaeth rheilffyrdd

Fel rhan o'n dull amserlen integredig ar gyfer Covid-19, rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd, Network Rail a phartneriaid eraill yn y diwydiant i gysoni ein gwasanaethau ag egwyddorion y diwydiant yn ogystal â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rydyn ni wedi cyflwyno mesurau cadw pellter cymdeithasol, wedi gweithio ar y cyd â'r Undebau Llafur, wedi sicrhau bod modd cynnal gofynion o ran darparu adnoddau, a bod mwy o amser yn cael ei dreulio ar drenau er mwyn sicrhau gwasanaeth dibynadwy a phrydlon drwy gydol y pandemig.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n rhedeg tua 85% o wasanaethau yn erbyn amserlen y llynedd, sy'n debyg yn fras i weithredwyr eraill yn y DU. Mae'r galw gan gwsmeriaid wedi amrywio o 15% i 35% o'i gymharu â chyn Covid-19, felly mae ein tîm wedi canolbwyntio ar gynnig amserlen gyson drwy gydol y dydd gyda mwy o gerbydau nag arfer er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol yn well drwy wneud y gorau o'r holl drenau sydd ar gael. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno amser ychwanegol yn ein hamserlen i gyflawni ein trefniadau glanhau gwell ar gyfer teithwyr a chydweithwyr rheng flaen.

## Diogelu gwasanaethau bysiau

Roeddem wedi cydweithio â gweithredwyr, cyflenwyr ac awdurdodau lleol ar ddechrau'r pandemig i gyflymu'r broses o gyflwyno taliadau digyswllt ar draws cwmnïau bysiau bach yng Nghymru er mwyn helpu i ddiogelu teithwyr a gyrwyr bysiau fel ei gilydd.

Buom yn gweithio gyda gweithredwyr, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sefydlu'r Cynllun Brys Bysiau (BES). Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a darpariaethau cytundebol BES wedi helpu awdurdodau lleol i weithio gyda gweithredwyr i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu; gan sicrhau bod teithwyr yn parhau i gael mynediad at wasanaethau bysiau ar adegau pan oedd gweithredwyr bysiau wedi gweld gostyngiad o dros 80% mewn refeniw.

Mae 92 o weithredwyr bysiau yng Nghymru nawr wedi ymrwymo i gytundebau BES 2 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y tymor hwy rhwng y diwydiant bysiau a Llywodraeth Cymru i gefnogi adferiad ar ôl effaith y pandemig. Mae'r cytundeb yn cynnwys darpariaethau i wella dyluniad rhwydwaith bysiau Cymru, gwerth am arian i deithwyr a'r holl weithredwyr bysiau i ymrwymo i Gontract Economaidd. Yn bwysig iawn, rydyn ni wedi rhoi'r sylfeini ar waith i ddefnyddio data i gynllunio a rheoli gwasanaethau'n well, gan helpu i lywio strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau yn y dyfodol fel rhan o wasanaeth trafnidiaeth integredig.

Fe wnaethom hefyd gydweithio â gweithredwyr bysiau fel rhan o'n hymgyrch 'Teithio'n Saffach' i helpu i rannu cyngor ar deithio gyda'r nod o helpu i gadw teithwyr yn ddiogel drwy gydol y pandemig.

## Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Cafodd rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd ei drosglwyddo o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru ar 28 Mawrth 2020 fel cam allweddol i adeiladu cam nesaf Metro De Cymru.

Mae Covid-19 wedi arwain at oedi o 10 mis ar draws yr holl becynnau gwaith, ac mae'r costau wedi cynyddu'n sylweddol ers y cyfrifiad cyntaf ym mis Mawrth 2020. Drwy gydol y chwe mis diwethaf, mae'r sector adeiladu wedi bod drwy sawl cyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu i ddeall y newidiadau sydd eu hangen i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig byd-eang hwn.

Rydyn ni wedi cydweithio â'n partneriaid cyflawni i ddod o hyd i ddulliau newydd o weithio, dysgu gan eraill neu, yn wir, creu arferion gorau i geisio dod o hyd i fesurau lliniaru i leihau'r gost ac effeithiau'r rhaglen ar ein rhaglen drawsnewid.

### Cynllun rhannu e-feiciau ar gyfer Penarth

Rydyn ni'n hyrwyddo teithio llesol ac yn creu cannoedd o fannau storio beiciau yn ein gorsafoedd rheilffyrdd dros y blynyddoedd nesaf. Mae effaith yr argyfwng Covid-19 wedi pwysleisio'r angen am fwy o gyfleusterau teithio llesol er mwyn annog gweithwyr allweddol i gerdded a seiclo ar ein llwybrau craidd. Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom lansio cynllun rhannu beiciau trydan cyntaf Cymru yng Ngorsaf Drenau Penarth. Cyflwynwyd y cynllun Nextbike ar y cyd â Network Rail a chafodd ei ariannu gan Gyngor Bro Morgannwg drwy gyfraniadau trafnidiaeth cynaliadwy Adran 106. Mae'n dilyn cyflwyno cynlluniau rhannu beiciau pedalau yn llwyddiannus yng Nghaerdydd ac yn Abertawe.



# Cyflwyno Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru

Mae niferoedd y teithwyr ar drenau wedi gostwng yn sylweddol yn sgil Covid-19, ond mae ein gwasanaethau'n parhau i fod yn hanfodol bwysig i bobl ar draws Cymru a'r gororau.

Cafodd 'Cytundeb Mesurau Brys' ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020 i helpu Keolis Amey Wales Cymru Cyf. fel gweithredwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i ymdopi ag effeithiau ariannol parhaus Covid-19. Roedd yn dilyn cytundeb tymor byr cychwynnol gwerth £140 miliwn a gadarnhawyd ym mis Mawrth 2020, a oedd yn golygu bod cyfanswm y cymorth yn £176 miliwn (gan gynnwys cymorth refeniw a chostau eraill sy'n ymwneud â Covid-19).

Yn dilyn cyllid brys parhaus o ganlyniad i'r gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr, cymrodd Llywodraeth Cymru'r fasnachfraint yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus ar 7 Chwefror 2021.

Mae gan Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf nawr gyfrifoldeb gweithredol dros ddarparu gwasanaethau trên mewn ffordd ddiogel a dibynadwy ar gyfer pobl a chymunedau Cymru a'r gororau. Mae'n gweithredu o dan ei drwydded a'i gymeradwyaethau ei hun, ac yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd annibynnol yn ei rôl fel rheoleiddiwr y diwydiant rheilffyrdd yn y DU.

Fel ein rheolwr seilwaith, roedd Amey Keolis Infrastructure wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli a thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ar 28 Mawrth 2020 fel rhan o waith datblygu cam nesaf Metro De Cymru. Ers hynny, mae ein rheolwr seilwaith wedi cael ei ailgorffori fel Amey Infrastructure Wales Limited.

Mae'r rhan fwyaf o seilwaith Cymru a'r Gororau yn dal yn eiddo i Network Rail ac yn cael ei reoli ganddo, ac nid yw'r cyfrifoldebau wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 yn golygu y bu'n rhaid i ni sefydlu Rheolwr Seilwaith Dewis Olaf (IMLR). Diben hyn yw sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu parhau os bydd Amey Infrastructure Wales Limited, fel y Rheolwr Seilwaith, yn methu yn y dyfodol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1600+** o dasgau symud wedi'u cynllunio | Trosglwyddo oddeutu **2600** o gydweithwyr | Trosglwyddo hawliau mynediad ar gyfer **248** o orsafoedd; **3** depo trenau a **6** adeilad ar brydles | **300+** o gontractau | Cael **4** trwydded gan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd |
| **60+** o dimau symudiadau | Trosglwyddo **18** o brydlesi fflyd sy'n cyfateb i **317** o drenau | Trosglwyddo **113** o systemau technoleg a gwasanaethau | **150+** o gytundebau cyfreithiol | **Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol** gan gynnwys Network Rail, RSSB, Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd, Yr Adran Drafnidiaeth, Undebau Llafur, Llywodraeth Cymru a Keolis Amey |

### Grŵp Trafnidiaeth Cymru

Mae ein cylch gwaith a'n cyfrifoldebau cynyddol yn golygu bod Grŵp Trafnidiaeth Cymru wedi esblygu i gynnwys dau gwmni newydd; Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig.

### Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o dan adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 i sicrhau parhad y ddarpariaeth o wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr mewn amgylchiadau pan fydd cytundeb masnachfraint yn dod i ben ac nad oes cytundeb masnachfraint arall yn cael ei wneud (y 'Ddyletswydd Adran 30').

Fe wnaethom sefydlu Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig (a elwid yn wreiddiol yn Wales Operator of Last Resort) fel is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Trafnidiaeth Cymru at ddibenion gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr er mwyn i Weinidogion Cymru allu cyflawni eu Dyletswydd Adran 30. Mae'r gweithredwr trenau hwn sy'n eiddo cyhoeddus yn parhau i weithredu o dan frand Trafnidiaeth Cymru ar sail ddielw.

### Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Mae Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. Fel is-gwmni i Trafnidiaeth Cymru, ei gylch gwaith yw bod yn gatalydd ar gyfer newid a gyrru arloesedd, gan alluogi darparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae'r fenter ar y cyd yn caniatáu i ni barhau i fanteisio ar brofiad ac arbenigedd rhyngwladol Keolis ac Amey; gan ein helpu i gyflawni ymrwymiadau pwysig gan gynnwys integreiddio rheilffyrdd ysgafn a thrwm yn barhaus fel rhan o'r gwaith o adeiladu cam nesaf Metro De Cymru.



# Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Lee Waters AS



"Drwy gydweithio â TrC fel partner cyflenwi dibynadwy, rydyn ni'n frwd iawn dros ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth o'r radd flaenaf a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

"Fel Llywodraeth, rydyn ni wedi amlinellu ein cenhadaeth am Gymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal gydag economi fwy gwyrdd. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn sylfaen i hyn i gyd; yn cynnig manteision gwirioneddol i bobl, yn gwella mynediad at gyflogaeth, yn esgor ar gyfleoedd newydd ac yn galluogi addysg, iechyd a gwasanaethau eraill i integreiddio'n dda. Mae rhwydwaith well a mwy integredig o drafnidiaeth gyhoeddus yn ffactor allweddol ar gyfer ailadeiladu economi Cymru ar ôl Covid-19, fel y gallwn helpu pob unigolyn yng Nghymru i wireddu eu potensial."



# Trosolwg gan ein cyfarwyddwr gweithredol ar gyfer cyllid a llywodraethiant

## Heather Clash



"Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol i bawb ond mae ein tîm galluog ac angerddol wedi parhau mor ymroddedig ag erioed."

Mae effeithiau pandemig Covid-19 yn ddigynsail, gan achosi niwed sylweddol i iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas.

Fel sefydliad, mae Covid-19 wedi profi ein gwytnwch a'n hyblygrwydd wrth i ni ymateb i'r tarfu sydd wedi effeithio ar ein pobl, ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'n gwasanaethau. Y canlyniad yw ein bod wedi newid y tu hwnt i bob cydnabyddiaeth yn y 12 mis a bellach rydym wedi ffurfio Grŵp TrC yn dilyn trosglwyddo masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r gororau (a'r asedau a'r rhwyedigaethau cysylltiedig) i'n his-gwmni Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ym mis Chwefror 2021. Felly dyma ein set gyntaf o ddatganiadau ariannol cyfun.

Rydym yn parhau i gydweithio â'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid i ddarparu cyngor dibynadwy a gwybodus ac rydym wedi ymrwymo o hyd i adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein diben. Yn wir, rydym wedi croesawu dros 100 o weithwyr newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi dathlu lansio ein Hacademi Prentisiaeth newydd a'n Cynllun Datblygu Graddedigion.

Gallaf adrodd bod ein ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos gostyngiad o 8.3% i 41.5% dros y flwyddyn ddiwethaf (ar 31 Mawrth 2021). Mae llawer mwy i'w wneud yn y maes hwn o hyd, ond rwy'n falch ein bod yn gwneud cynnydd. Mae hyn oherwydd bod rhai rolau'n cael eu hailraddio ar ôl cyflwyno ein proses cyflogau a pherfformiad newydd yn ogystal â throsglwyddo glanhawyr o'r sector preifat ym mis Ionawr 2021.

Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol i bawb, ond mae ein tîm medrus ac angerddol yn dal wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.



### Perfformiad am y Flwyddyn

Mae'r tabl isod yn nodi ein sefyllfa alldro terfynol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwariant wedi'i rannu yn ôl cyllid grant. Roedd ein gwariant yn unol â'r cylch gwaith terfynol yn ogystal ag unrhyw wariant awdurdodedig arall, a oedd wedi'i ddiwygio yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r ymateb i Covid-19.

Mae'r nodyn isod yn eithrio refeniw gan deithwyr ac incwm arall y Cwmni Gweithredu Trenau oherwydd dim ond ar ôl 7 Chwefror 2021 y daeth y cwmni hwn yn rhan o Grŵp TrC. Felly, rydyn ni dim ond wedi dangos y cyllid grant net a dalwyd i'r Cwmni Gweithredu Trenau.

Roedd y cylch gwaith terfynol wedi'i alinio â gwariant TrC o ganlyniad i'r ymateb i Covid-19.

| | | Alldro | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cylch gwaith | Cyfanswm y gwariant ar gynnwys | Llai cyllid trydydd parti | Cyfanswm grant Llywodraeth Cymru* | Amrywiaeth yn erbyn cylch gwaith/cyllideb |
| Gwariant refeniw | £403m | £408m | (£5m) | £403m | - |
| Gwariant cyfalaf | £235m | £235m | - | £235m | - |
| **Cyfanswm** | **£638m** | **£643m** | **(£5m)** | **£638m** | **-** |


* Mae cyfanswm alldro grant Llywodraeth Cymru'n cynnwys yr elfennau canlynol:

| | Alldro | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllid grant Gwasanaethau Rheilffyrdd | Cyllid grant cylch gwaith arall Llywodraeth Cymru | Gweithgarwch Llywodraeth Cymru nad yw'n cael ei ariannu gan grant | Cyfanswm cyllid Llywodraeth Cymru |
| Gwariant refeniw gweithredol sydd wedi'i ariannu gan grant | £356m | £42m | £5m | £403m |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan grant | £88m | £144m | - | £232m |
| Gwariant Blynyddol a Reolir | - | £3m | - | £3m |
| **Cyfanswm** | **£444m** | **£189m** | **£5m** | **£638m** |

Mae'r arian grant gwasanaethau rheilffyrdd a dderbyniwyd yn gysylltiedig â thaliadau a wnaed o dan y cytundeb grant i redeg masnachfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau, a weinyddir gan Drafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Cytundeb oedd hwn rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru tan 7 Chwefror 2021, a rhwng Gweinidogion Cymru a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig oddi ar hynny.

Mae gweithgarwch nas ariannir drwy grant yn cynrychioli gweithgarwch arall yr anfonebir Llywodraeth Cymru amdano fel gwasanaeth neu weithgarwch a gyflenwyd.

## Sut y gwnaethom wario ein harian gan Lywodraeth Cymru




## Ein datganiadau ariannol

Mae'r datganiad incwm cyfun hefyd yn dangos gwarged ar gyfer y flwyddyn o £348,000 (2020: £28,000) a chyfanswm costau ar gyfer y flwyddyn o £121.6 miliwn. Hwn yw ein datganiad incwm cyntaf fel grŵp, yn cynnwys is-gwmnïau, felly nid oes modd cymharu tebyg at ei debyg â chostau 2020 o £33.5m. Gan fwyaf, mae'r gwahaniaeth yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd o fewn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o 7 Chwefror 2021 ymlaen, yn ogystal ag effaith ein hymateb i Covid-19 i gefnogi gwasanaethau rheilffyrdd a'r costau blwyddyn gyfan yn dilyn caffael Llinellau Craidd y Cymoedd ym mis Mawrth 2020.

Roeddem hefyd wedi hwyluso taliadau o £305.8 miliwn o daliadau grant refeniw a £323.0 miliwn o daliadau grant cyfalaf. Roedd hyn o dan y cytundeb grant rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited, gweithredwyr Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (heb gynnwys y gwariant uchod) tan ddiwedd y cytundeb grant ar 7 Chwefror 2021. Ar ôl hynny cafodd y taliad hwn ei wneud i'n his-gwmni, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf., sy'n cael ei gyfuno yn y cyfrifon hyn, felly mae'r derbyniadau grant yn rhai gros.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr asedau sydd gennym yn werth £3.1 biliwn. Cawsom £171.3 miliwn o ychwanegiadau cyfalaf wedi'u hariannu â grant yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â £2.1m o wariant cyfalaf wedi'i ariannu gan grant mewn perthynas â gwelliannau i asedau sy'n eiddo i drydydd parti nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ar ein mantolen. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y datganiad incwm.

Rydym yn asesu gwerth rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd drwy broses brisio, sydd wedi'i nodi yn nodyn 8 ar dudalen 118. Eleni oedd blwyddyn gyntaf y prisiad ar ôl prynu'r asedau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, er mwyn alinio ein polisi cyfrifyddu â Llywodraeth Cymru. Mae'r prisiad yn seiliedig ar gost amnewid wedi'i dibrisio am gyfatebiaeth fodern, felly mae'r gwerth wedi cynyddu £2.1 biliwn o'i gymharu â'r ffigur cost blaenorol ynghyd ag ychwanegiadau cyfalaf a dibrisio yn ystod y flwyddyn.

"Dyma ein datganiad incwm grŵp cyntaf, yn cynnwys is-gwmnïau, felly nid oes modd cymharu costau 2020 tebyg at ei debyg."

| Prisio rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd | |
|---|---|
| Tir a gwrthgloddiau | £1,298m |
| Adeiladau a strwythurau | £959m |
| Y cledrau a'r signalau | £341m |
| **Cyfanswm** | **£2,598m** |

Mae'r rhan fwyaf o'n hasedau eiddo, offer a chyfarpar yn gysylltiedig â'r seilwaith rheilffyrdd, ond rydym hefyd yn dal £169.4 miliwn o asedau cyfalaf mewn-defnydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo, cerbydau newydd, cyfarpar a pheiriannau, lesau, TG a meddalwedd, a thrwyddedau data. Mae gennym £271.4m o asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ym mis Mawrth 2021, sy'n cynnwys y rhaglenni gwaith sydd ar waith i gefnogi datblygu Metro De Cymru, yn ogystal â chostau cyfalaf yn ymwneud â chyflwyno'r fflyd newydd.

Ar 7 Chwefror 2021, caffaelwyd £145.1 miliwn o asedau anghyfredol gan y grŵp o'r Cwmni Gweithredu Trenau blaenorol – yn cynnwys £111.6m o lesau asedau hawl i ddefnyddio cerbydau newydd a gafodd ei gydnabod o dan IFRS 16 ar y dyddiad caffael yn ogystal ag atebolrwydd les cyfatebol.

Ceir hefyd £123.7 miliwn arall o asedau cyfredol, sef derbyniadau drwy fasnach yn bennaf.

## Ein rhwymedigaethau

Ar 31 Mawrth, roeddem wedi dal £181.3 miliwn o rwymedigaethau cyfredol tymor byr, symiau taladwy wedi'u cronni yn bennaf. Mae symiau taladwy drwy fasnach a anfonebir yn gymharol isel (£24.7 miliwn) gan ein bod yn ceisio talu'r holl gyflenwyr yn brydlon.

Mae gennym rwymedigaethau anghyfredol tymor hir o £914.6 miliwn y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â balansau grant cyfalaf gohiriedig i'w rhyddhau yn erbyn yr asedau. Mae'r gweddill yn cynnwys rhwymedigaethau pensiwn budd diffiniedig, prydlesi a darpariaethau dadfeiliadau cysylltiedig.

# Sut ydym yn creu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol

Rydyn ni'n gwneud teithio'n haws, gan drawsnewid ein rhwydwaith trafnidiaeth yn un sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn un y gellir dibynnu arno. Os ydych chi'n teithio ar drên, bws, beic neu'n cerdded, gall ein cwsmeriaid ddisgwyl gwasanaethau diogel, mwy effeithlon gyda chysylltiadau gwell. Rydyn ni'n cyflawni hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg a chynaliadwyedd.

## Llinellau Craidd y Cymoedd

Fel rhan o'r gwaith o adeiladu Metro De Cymru, trosglwyddodd Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i TrC ar 28 Mawrth 2020. Mae'r rheilffyrdd hyn yn cysylltu cymunedau Treherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Coryton, Rhymni a Chwmbargoed â chanol dinas Caerdydd.

Daeth Amey Infrastructure Wales (Amey Keolis Infrastructure gynt) yn Rheolwr Seilwaith a reoleiddir. Fel Perchennog y Seil waith, mae TrC nawr yn gyfrifol am weinyddu'r contract rheoli seilwaith a rheoli'r holl waith adnewyddu asedau, gan gynnwys traciau, strwythurau, signalau, gorsafoedd, gwaith cloddio a chyfrifoldebau oddi ar y cledrau fel ffensio a draenio.

Roedd trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd yn cyd-daro â dyfodiad Covid-19, y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf a Storm Dennis, a oedd yn cynnwys llifogydd a thirlithriadau sylweddol. Rydyn ni hefyd wedi delio ag amrywiol faterion sy'n ymwneud â'r gorffennol ac ail-drafod telerau'r contract sy'n ymwneud â darparu cynlluniau adnewyddu. Mae effaith gyfunol y materion hyn yn golygu bod hyn wedi effeithio ar y rhaglen gyflawni.

## Ein rhaglen waith

- ✓ Gosod offer llinellau uwchben i bweru ein trenau tram trydanol newydd
- ✓ Trydaneiddio dros 170km o gledrau
- ✓ Gosod signalau o'r radd flaenaf
- ✓ Adeiladu o leiaf pum gorsaf newydd yng Nghaerdydd a'r cyffiniau
- ✓ Addasu pontydd, croesfannau rheilffordd ac offer signalau
- ✓ Rheoli llystyfiant

**180km**
o gledrau

**56**
gorsaf

**50,000**
o gartrefi a busnesau o fewn 200m i Linellau Craidd y Cymoedd

**56%**
o holl deithwyr TrC bob dydd yn teithio ar Linellau Craidd y Cymoedd (cyn Covid)

## Cynnydd yn 2020/21

- ✓ Ymateb i ganllawiau'r Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu i ddeall y newidiadau sy'n ofynnol i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig byd-eang. Rydyn ni wedi gweithio gyda Amey Infrastructure Wales a'n partneriaid cyflenwi i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, dysgu gan eraill a chreu arferion gorau i nodi mesurau lliniaru i gyfyngu ar y gost ac effeithiau'r rhaglen ar raglen Llinellau Craidd y Cymoedd.
- ✓ Rheoli oedi cyn comisiynu signalau o ganlyniad i Covid-19. Mae'r gwaith ail-ddarlledu wedi dechrau ond mae angen integreiddio'n sylweddol â'r Rhaglen Waith Genedlaethol ar draws y Diwydiant Rheilffyrdd oherwydd y llwybrau dargyfeirio sy'n gysylltiedig â'i gilydd ar gyfer Gwasanaethau Teithwyr a Chludiant Nwyddau yn ogystal â'r gronfa gyfyngedig o adnoddau peirianneg arbenigol.
- ✓ Parhau i adeiladu ein depo newydd gwerth £100 miliwn a Chanolfan Reoli'r Metro yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf. Gan ddefnyddio'r System Rheoli Traffig ddiweddaraf, sy'n cyfuno gweithrediadau a rheoli seilwaith â gwybodaeth am yrwyr a theithwyr, bydd yn gartref i'n trenau tram Metro newydd yn ogystal â 400 o griw trenau, 35 o staff cynnal a chadw a 52 o staff Canolfan Reoli'r Metro.
- ✓ Gweithio gyda Balfour Beatty i gwblhau gwaith ar linell Aberdâr ym mis Hydref 2020; gan ostwng bron i 200 metr o gledrau rheilffordd yn yr Hen Lofa rhwng gorsafoedd Cwmbach a Fernhill i gynyddu'r uchder rhwng y cledrau a'r trosbont.
- ✓ Cwblhau blocâd tair wythnos llwyddiannus i'r gogledd o Radur ym mis Ionawr 2021 i wneud gwaith peirianneg hanfodol, gan gynnwys ail-osod a gosod dros bedair milltir o drac, cloddio dros 700 o dyllau prawf, newid 46 o drawstiau'r cledrau, gosod 42 metr o gledrau a thros 2,600 metr o system dal ceblau. Fe wnaethom hefyd glirio bron i 60,000 metr sgwâr o lystyfiant lefel isel.
- ✓ Cynnal digwyddiadau llwyfan rhithiol y gadwyn gyflenwi sy'n rhoi gwybodaeth i'r gadwyn gyflenwi bosibl am y cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid cyflawni TrC a sut gall busnesau dendro am waith.

Mae'r holl gyfleoedd ar gael ar GwerthwchiGymru ac mae cymorth ar gael drwy Busnes Cymru.

"Mae ein rhaglen waith yn cynnwys gosod cyfarpar llinell uwchben a signalau o'r radd flaenaf, trydaneiddio'r rheilffyrdd, ac adeiladu o leiaf pum gorsaf drenau newydd."

## Dechrau ar y Metro

Bydd y Metro yn rhwydwaith bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol sy'n trawsnewid bywydau pobl ac yn lleihau effaith amgylcheddol ein rhwydwaith trafnidiaeth gyda gwasanaeth cyrraedd a chrwydro modern a chynaliadwy. Rydyn ni'n cydweithio â chymunedau a'u cynrychiolwyr er mwyn i bob rhwydwaith lleol ddiwallu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol y bydd yn eu gwasanaethu, gan gyflawni'r amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Fe wnaethom gyhoeddi diweddariad ar ein rhaglen waith ym mis Mawrth 2021 sy'n canolbwyntio ar y tri chynllun Metro rydyn ni'n gweithio arnynt ar hyn o bryd yng Nghymru a'r Gororau:

## Metro Gogledd Cymru

Rydyn ni wrthi'n gweithio ar gamau cychwynnol Metro Gogledd Cymru, sy'n werth miliynau o bunnau, i osod y sylfeini ar gyfer trawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau a theithio llesol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio ar draws Gogledd Cymru gyda gwell cysylltiadau bws, rheilffordd, beicio a cherdded.

Bydd y Metro yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu economi ehangach y rhanbarth yn ogystal â dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer twristiaeth yng Ngogledd Cymru. Mae ein gwaith yn cynnwys:

- ✓ cyflwyno trenau Metro sydd wedi'u hailadeiladu'n llwyr o ddiwedd 2021 ymlaen ar reilffordd y Gororau, gan ddarparu gwasanaeth cyflymach a mwy o gapasiti
- ✓ cynllunio ar gyfer cyflwyno trenau newydd sbon gyda gwell proffiad ar y trên o ddiwedd 2022 ymlaen
- ✓ datblygu cynlluniau i wella ein gorsafoedd, gan ei gwneud hi'n haws i newid rhwng y rheilffordd a'r gwasanaeth bws yn Wrecsam Cyffredinol, a rhwng gwasanaethau Arfordir Gogledd Cymru a gwasanaethau'r Gororau yn Shotton.
- ✓ cefnogi cynlluniau i wella trafnidiaeth gyhoeddus i, o ac o fewn Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn ehangach.

## Metro De Cymru

Rydyn ni'n buddsoddi tri chwarter biliwn o bunnoedd i uwchraddio'r rheilffyrdd i Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert i alluogi mwy o wasanaethau a gwasanaethau cyflymach. Mae nifer o brosiectau Metro De Cymru wedi cael eu hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae adeiladu Metro De Cymru yn brosiect uchelgeisiol wrth i ni greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r cynnydd yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ parhau i adeiladu ein depo newydd gwerth £100 miliwn a Chanolfan Reoli'r Metro yn Ffynnon Taf
- ✓ dechrau ar y gwaith o drydaneiddio tua 170km o gledrau ac uwchraddio'r holl signalau
- ✓ gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Network Rail a Chyngor Caerdydd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i wella Gorsaf Drenau Canol Caerdydd
- ✓ paratoi ar gyfer cyflwyno trenau newydd sbon ar draws y rhwydwaith erbyn 2023
- ✓ gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i awdurdodau lleol ar gynlluniau i ehangu'r Metro ymhellach ar ôl trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

"Bydd y Metro yn gyfuniad o rwydwaith bysiau, trenau a theithio llesol a fydd yn trawsnewid bywydau pobl gyda gwasanaeth "cyrraedd a chrwydro" modern a chynaliadwy."

## Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

Mae Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru ar gamau cynnar y datblygiad. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal astudiaethau gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol y rhanbarth i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y cynllun uchelgeisiol hwn.

Bydd ein prosiectau'n integreiddio trafnidiaeth yn well; gan ganolbwyntio ar ddefnyddio rheilffyrdd, bysiau, beicio a cherdded i greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn y rhanbarth yn ogystal ag ymwelwyr. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi hwb i'r economi leol drwy ddarparu gwell mynediad at gyfleoedd gwaith, busnes a hamdden. Rydyn ni'n gweithio ar y canlynol:

- ✓ o 2022 ymlaen, byddwn ni'n cyflwyno trenau newydd ar wasanaethau ledled ardal Bae Abertawe, gan gynyddu'r capasiti ar wasanaethau i Orllewin Cymru a rhwng De-orllewin Cymru a Manceinion.
- ✓ gwella ein gwasanaeth pellter hir rhwng Abertawe a Manceinion o 2024 ymlaen gyda threnau newydd sy'n cynnwys gwasanaeth dosbarth cyntaf
- ✓ datblygu cynlluniau mwy sylweddol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd lleol penodol i gymudwyr ar draws Llanelli, Abertawe a Chastell-nedd gan wneud gwell defnydd o Reilffordd Ardal Abertawe, yn ogystal â gwasanaethau cyflymach i Gaerfyrddin a Gorllewin Cymru o Gaerdydd.

"Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi hwb i'r economi leol drwy ddarparu gwell mynediad at swyddi a chyfleoedd busnes a hamdden."

## Lleihau allyriadau bysiau

- ✓ Darparu help a chymorth technegol manwl i Gyngor Gwynedd i'w galluogi i gaffael a dylunio dau wasanaeth bws trydan newydd sy'n cysylltu Caernarfon i Borthmadog i Flaenau Ffestiniog i Lanwrst i Landudno. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn hydref 2021 fel rhan o rwydwaith TrawsCymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- ✓ Cefnogi Cyngor Gwynedd i ddylunio a chynllunio eu depo bysiau trydan pwrpasol cyntaf ym Mlaenau Ffestiniog.
- ✓ Gwneud gwaith technegol i baratoi ar gyfer trawsnewid gwasanaeth allweddol T1 TrawsCymru sy'n cysylltu Aberystwyth i Lanbedr Pont Steffan i Gaerfyrddin o redeg ar ddisel i weithrediad trydan llawn yn 2022. Roedd hyn yn cynnwys asesiad manwl o ofynion cerbydau o ystyried topograffeg a gofynion y gwasanaeth ar gyfer y llwybr ac asesiad o'r lleoliadau gorau ar gyfer y depo.
- ✓ Cwblhau asesiad lefel uchel o fanteision a gofynion gweithredol newid pob gwasanaeth ar rwydwaith TrawsCymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i danwydd allyriadau isel ac isel iawn dros y pum mlynedd nesaf.

## Ail-lenwi poteli dŵr am ddim

Mae ein Rhaglen Gwella Gorsafoedd yn cynnwys gosod mannau ail-lenwi dŵr mewn gorsafoedd rheilffordd gyda chyflenwad dŵr i gwsmeriaid a chydweithwyr ochr yn ochr â'n hymrwymiad i gasglu dŵr glaw a goleuadau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae Covid-19 yn golygu bod y rhaglen wedi cael ei gohirio ond mae'r pwynt ail-lenwi dŵr cyntaf i fod i gael ei gwblhau yng ngorsaf drenau Tref Llandudno ym mis Ebrill 2021.

### Beth mae Metro yn ei olygu i chi

- ✓ Teithiau cyflymach
- ✓ Dewisiadau teithio integredig (trên, bws, cerdded a beicio)
- ✓ Mwy o gapasiti
- ✓ Gwasanaethau amlach
- ✓ Gwasanaethau mwy dibynadwy
- ✓ Gwasanaethau mwy hygyrch
- ✓ Mwy o deithio fforddiadwy
- ✓ Gwasanaethau amgylcheddol gyfeillgar

## Cyfnewidfeydd trafnidiaeth

### Cyfnewidfa Caerdydd

Mae Cyfnewidfa Caerdydd yn rhan o'r uwchgynllun ehangach yng Nghanol Caerdydd; mae'n creu Metro Canolog, canolfan drafnidiaeth aml-ddull sy'n caniatáu defnydd hawdd a chysylltiadau gwell â phob math o drafnidiaeth gyhoeddus gyda gwasanaeth 'cyrraedd a chrwydro' yng nghanol Dinas Caerdydd. Mae'r datblygwyr Rightacres yn adeiladu adeilad y gyfnewidfa wrth ymyl Gorsaf Drenau Canol Caerdydd. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn trosglwyddo'r les ar gyfer Cyfnewidfa newydd Caerdydd i TrC i'w dodrefnu a'i rheoli'n weithredol ar y llawr gwaelod. Disgwylir hyn yng nghanol 2023.

### Cyfnewidfa Porth

Rydyn ni'n cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i bartneriaid Capita i gyflwyno Cyfnewidfa newydd Porth; gan hwyluso ymgysylltiad â phrosesau a gweithdrefnau rheilffyrdd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i roi ar waith yn ddidrafferth. Mae'r cynllun yn cynnwys datgomisiynu'r orsaf bresennol ac adeiladu cyfnewidfa fawr yn cynnwys bysiau a threnau. Bydd TrC yn gweithredu'r gyfnewidfa ar ôl iddi gael ei chomisiynu yn 2022.

### Cyfnewidfa Caerffili

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chomisiwn Dylunio Cymru i gyflawni astudiaeth dichonoldeb Cam 1 RIBA am chwe mis ar gyfer adeilad cyfnewidfa newydd yng Nghaerffili. Bydd y cysyniad newydd yn trawsnewid profiad cwsmeriaid gyda chanolfan integredig unigryw a bywiog sy'n ddiogel, yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn hygyrch. Byddwn yn cwmpasu ac yn cyflawni camau nesaf dyluniad cysyniad Cam 2 RIBA yn 2021.

### Cyfnewidfa Wrecsam

Rydyn ni'n gweithio gyda Phartneriaeth Porth Wrecsam i gydlynu amrywiol brosiectau trafnidiaeth sy'n rhan o brosiect Porth Wrecsam. Bydd hyn yn cynnwys helpu i hwyluso strategaeth symudiadau fel rhan o'r uwchgynllun ar gyfer gorsaf reilffordd Wrecsam Cyffredinol.

### Datblygu cynaliadwy

- ✓ Penodi 20 o hyrwyddwyr datblygu cynaliadwy i helpu i gyflawni ein dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sicrhau ein bod yn ymgorffori cynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn.
- ✓ Sefydlu Panel Cynghori ar Ddatblygu Cynaliadwy sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc o sefydliadau gan gynnwys y Ganolfan Cynaliadwyedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Strydoedd Byw, Sustrans, Canolfan Cydweithredol Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Platfform, Dotiau, CELSA UK, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy a Tymor Hir.
- ✓ Grant o £100,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Tachwedd 2020 ar gyfer ein prosiect 'Llwybrau Gwyrdd Bioamrywiaeth'. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i wella bioamrywiaeth leol yn ein gorsafoedd rheilffyrdd ac wrth eu hymyl drwy gydol 2021. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â phartneriaid cymunedol i osod waliau gwyrdd, toeau gwyrdd, potiau planhigion, basgedi crog, coed, caerau dŵr, cychod gwenyn, tai adar, blychau ystlumod, gwestai chwilod, tai draenogod, a thai buwch goch gota.

"Mae ein hyrwyddwyr datblygu cynaliadwy yn helpu i gyflawni ein dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."

## Ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol

Mae Llys Cadwyn wedi cyflawni BREEAM 'Rhagorol' ac mae'n elwa ar res o baneli solar mawr a system cynaeafu dŵr. Mae mannau gwefru cerbydau trydan a digon o le i gadw beiciau i gydweithwyr. Drwy weithio gyda WRAP a Rype Office i ddod o hyd i ddodrefn wedi'u hailgylchu a rhai lleol yn ogystal ag ailddefnyddio ein dodrefn ein hunain, mae'r prosiect wedi arbed 92,784 kg o garbon a 32,141kg o ddodrefn. Rydyn ni hefyd wedi arbed 2,500kg o garbon drwy ddefnyddio paent wedi'i ailgylchu i baentio tu mewn i'r swyddfa. Rydyn ni'n falch bod Sefydliad Merthyr i'r Deillion wedi gwneud rhywfaint o'n dodrefn â llaw a bod gweithwyr i gyd yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol i wneud hynny.



# Datblygu profiad sy'n gwella'n barhaus – sut rydyn ni'n rhoi'r cwsmer wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud

Mae ein cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn, ac rydyn ni'n parhau i wella ein dealltwriaeth o'u hanghenion er mwyn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Bydd ein pobl a'n gwasanaethau yn gwneud i'n cwsmeriaid deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, y gofelir amdanynt a'u gwerthfawrogi, a byddwn yn grymuso ein pobl i wneud y penderfyniadau iawn i'n cwsmeriaid.

## Llais y cwsmer

Mae ein tîm yn gweithio'n galed i feithrin ymgysylltiad, sicrhau cynrychiolaeth a hyrwyddo cynhwysiant. Rydym wedi dal i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol drwy gydol 2020/21 a dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- ✓ sefydlu a chynnal Panel Cynghori TrC yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Plant a Phobl Ifanc, Sustrans, Stonewall Cymru, Cytûn, y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a Chydffederasiwn Cludiant Teithwyr.
- ✓ arwain 15 o Fforymau Rhanddeiliaid Rhanbarthol (yn cynrychioli Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, De Ddwyrain Cymru a'r gororau) a chynnal y Grŵp Cynghori cyntaf ar Ddatblygu Cynaliadwy fel rhan o'n pensaernïaeth ymgynghorol
- ✓ gweithio'n agos gyda'n Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant; ymgysylltu ag amrywiol sefydliadau allanol i sicrhau ein bod yn gwrando, yn cydweithio ac yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth cynhwysol.

"Mae ein ffocws ar sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n ddirwystr a'u bod yn llwyddo i gael gafael ar yr hyn sydd ei angen arnynt yn gyson."

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid

Rydyn ni'n datblygu ein cynnig i gwsmeriaid yn barhaus ac yn datblygu ein strategaeth ar gyfer ymgysylltu, deall a chyfathrebu â chwsmeriaid o ansawdd uchel. Rydym yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n ddi-dor ac yn hawdd er mwyn cael yr hyn sydd ei angen arnynt yn gyson gennym ni, pryd a ble maen nhw ein hangen ni. Mae ein gwaith yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ datblygu system benodol ar gyfer rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) fel ein datrysiad CRM sy'n golygu ein bod bellach yn 'perchnogi' ac yn rheoli ein data cwsmeriaid. Mae gennym hefyd y gallu i reoli ymatebion i ymholiadau gan randdeiliaid yn fwy effeithiol ac o fewn amserlenni targed.
- ✓ datblygu porth i gwsmeriaid ar gyfer cynllun Teithio Rhatach Cymru ar gyfer bysiau, ynghyd â swyddogaeth benodol ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid.

## Manylion cyswllt y cwsmer

Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar weithredu gwasanaeth symlach ar gyfer ein cwsmeriaid gydag un lleoliad ar gyfer ymholiadau ynghylch trafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys cyngor ar deithiau, archebion a phob agwedd ar ohebiaeth. Ymhlith y rhain mae:

- ✓ gweithio'n agosach gyda PTI Cymru, gan adeiladu ar eu gallu i gael canolfan gyswllt trafnidiaeth ddwyieithog ym Mhenrhyndeudraeth, i greu canolfan gyswllt aml-ddull ar gyfer Cymru sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid
- ✓ datblygu cynlluniau i ddod â'n holl wasanaethau cyfathrebu i gwsmeriaid at ei gilydd, gwella ein darpariaeth weithredol ac arwain at well profiad i gwsmeriaid.



## Creu hybiau cymunedol

Rydym yn gweithio gyda chymunedau a grwpiau lleol ledled Cymru i annog pobl i ddefnyddio gorsafoedd rheilffyrdd. Rydyn ni wedi buddsoddi dros £100,000 yng ngorsaf drefnau Llandudno i roi lle i 'Creu Menter / Creating Enterprise' – mudiad nid-er-elw sy'n canolbwyntio ar helpu pobl leol i gael mynediad at fentrau cyflogaeth. Bydd Creu Menter hefyd yn cynnal Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy, a thrwy hynny ymestyn eu dylanwad i Ynys Môn ac i ragor o gymunedau yng Nghymru.




### Gwelliannau i orsafoedd rheilffordd

Mae ein Rhaglen Gwella Gorsafoedd yn trawsnewid gorsafoedd rheilffyrdd ar draws rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Cafodd yr holl orsafoedd rheilffordd eu glanhau'n drylwyr yn 2020 gyda llochesi newydd a seddi gwell, mwy o le i gadw beiciau, gwell arwyddion a darpariaeth teledu cylch cyfyng yn cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r prif lwyddiannau yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ cefnogi ein Cynllun Datblygiadau Masnachol Cymdeithasol, sy'n ceisio dod â mannau segur mewn gorsafoedd yn ôl yn fyw er budd cymunedol neu fasnachol. Abertawe oedd y cyntaf i elwa o'r gwaith hwn ac mae rhagor o brosiectau ar y gweill yn Llandudno, Cyffordd Llandudno, Abergele a Phensarn, Y Fenni, Tywyn a Bangor
- ✓ creu 40 o lefydd parcio newydd i geir a phedwar lle parcio ar gyfer beiciau modur mewn pedair gorsaf gan gynnwys Bynea, Garth, Penrhyndeudraeth a Clunderwen. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i ddarparu rhagor o lefydd parcio ledled Cymru. Mae bolardiau diogelwch newydd wedi cael eu gosod hefyd ynghyd â byrddau gwybodaeth ac ail-leinio er mwyn gwneud parcio'n gliriach i gwsmeriaid
- ✓ gweithio gyda Sustrans Cymru ac awdurdodau lleol i greu ac uwchraddio mannau storio beiciau mewn gorsafoedd. Cwblhawyd y cynllun cyntaf yn Llanelli gyda 16 o fframiau parcio newydd sbon i feiciau. Yna yn y Fenni, rydym wedi cael gwared ar 5 hen gawell feiciau a gosod 20 newydd yn eu lle
- ✓ cyhoeddi partneriaeth gyda Network Rail ac Alun Griffiths Limited o'r Fenni i gyflawni gwelliannau mawr i orsaf Abertawe. Mae'r gwaith yn cynnwys ailadeiladu ac ymestyn platfform 4, gan alluogi trenau hirach i gyrraedd a gadael, ailfrandio ac adnewyddu'r orsaf yn llawn a gwella cyfleusterau prynu tocynnau
- ✓ moderneiddio gorsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr drwy osod sgriniau gwybodaeth newydd i gwsmeriaid a gwelliannau cyffredinol gan gynnwys ailbeintio'r bont droed yn ogystal ag ailaddurno ac adnewyddu'r ystafell aros a meinciau newydd ar y ddau blatfform. Mae cysgod beiciau newydd gyda chylchoedd ychwanegol, biniau ailgylchu ychwanegol, arwyddion gorsafoedd newydd a goleuadau LED newydd i gyd wedi helpu i greu amgylchedd mwy diogel a chroesawgar
- ✓ dechrau ar welliannau mawr yng ngorsaf Wrecsam Cyffredinol gan gynnwys ystafell aros estynedig sydd wedi'i hailwampio o'r newydd, cyfleusterau ystafell newid newydd, adnewyddu toiledau, mannau parcio beiciau ychwanegol a mwy o gyfleusterau ailgylchu
- ✓ parhau i adnewyddu 13 o orsafoedd rhwng Wrecsam Canolog ac Upton gyda threfniadau glanhau trylwyr, ail-frandio llochesi a dodrefn gorsafoedd, ail-leinio baeau meysydd parcio, ailbeintio ac adnewyddu ymylon grisiau, a thorri llystyfiant sydd wedi gordyfu
- ✓ gwaith ailaddurno yng ngorsaf Caerdydd Canolog gan Gontractwyr Adeiladu Trio Pontyclun yn ailbeintio ffensys, drysau adeiladau a fframiau ffenestri, polion lamp, arwyddion, rhwystrau a chanllawiau. Bydd yr adeilad yn cael ei baentio yn lliwiau traddodiadol y Great Western Railway oherwydd statws rhestredig Gorsaf Caerdydd Canolog ac i adlewyrchu ei statws hanesyddol fel rhan o lwybr eiconig Brunel o Lundain i Gymru.

> "Cafodd pob gorsaf drenau ei glanhau'n drwyadl yn 2020 a bydd cysgodfeydd newydd, mwy o seddi, mwy o lefydd storio beiciau, arwyddion newydd a gwell darpariaeth CCTV yn cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd nesaf."

## Buddsoddi yn ein fflyd

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o le, seddi ychwanegol a gwella hygyrchedd gyda threnau newydd, wedi'u hailwampio, wedi'u hailfrandio ac wedi'u hadnewyddu. Roedd ein buddsoddiad parhaus yn ein fflyd rheilffyrdd yn ystod 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ dylunio ac adeiladu 35 o drenau Stadler Flirt a 36 o dram-drenau Stadler a elwir yn Citylinks ynghyd â 77 DMU gan CAF yng Nghasnewydd gyda'r trên Class 197 Civity cyntaf o CAF i fod i gael ei brofi cyn bo hir – mae tri efelychydd newydd hefyd yn barod
- ✓ caffael pedwar Class Mark IV y disgwylir iddynt ymuno â'r gwasanaeth ddiwedd 2022, yn ogystal thri thrên Marc IV sydd eisoes yn cael eu defnyddio i hyfforddi gyrwyr ar gyfer dechrau'r gwasanaeth yn ystod haf 2021
- ✓ cyflwyno dau wasanaeth Class 769 gan ddod â chapasiti ychwanegol ar reilffordd Rhymni gyda saith arall i fod i ymuno â'r gwasanaeth yn 2021
- ✓ derbyn y fflyd a dechrau profi pedwar cerbyd Class 230 hybrid sy'n barod i ymuno â'r gwasanaeth ar y llinell rhwng Wrecsam a Bidston yn ystod hydref 2021
- ✓ parhau i adnewyddu ein 22 o drenau Class 153 i sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â PRM ar gyfer cwsmeriaid ar ein llwybrau Calon Cymru, Gorllewin Cymru, Dyffryn Conwy, Lein y Ddinas a Bae Caerdydd
- ✓ cwblhau gwaith hygyrchedd i sicrhau bod ein 36 o gerbydau Class 150 yn cydymffurfio'n llwyr â PRM, gan gynnwys toiledau hygyrch a sgriniau gwybodaeth i deithwyr a dechrau rhaglen ailfrandio ac adnewyddu
- ✓ parhau i ailfrandio ac adnewyddu ein 24 trên Class 158 a 27 Class 175 sy'n gweithredu gwasanaethau pellter hir ar draws ein rhwydwaith
- ✓ cael gwared ar 15 Class 142 Pacers o'r gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2020 gydag un yn cael ei ail-leol i Reilffordd Llanelli a Mynydd Mawr.

## Ein gwasanaethau arlwyo

Roedd Covid-19 yn golygu bod y gwasanaeth arlwyo ar drenau wedi cael ei atal dros dro yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o'n tîm arlwyo ar ffyrlo. Fodd bynnag, rydyn ni wedi treulio amser yn cynllunio i ailgyflwyno gwasanaethau wrth i'r cyfyngiadau symud ganiatáu ar gyfer profiad newydd o fwyta da. Byddwn yn rhoi gweithdrefnau gweithredu gwahanol ar waith yn unol â Chanllawiau Covid-19 gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys derbyn taliad electronig yn unig.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn datblygu gwasanaethau newydd. Bydd tîm o saith cogydd a 14 o swyddogion gweini premiwm yn cynnig bwyty ar y trên ar chwe gwasanaeth y dydd rhwng Caergybi a Chaerdydd ar gyfer teithwyr Dosbarth Busnes. Gyda 41 o fyrddau, bydd brecwast, cinio a swper ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener i'r rheini sy'n dymuno mwynhau profiad bwyta gwych.

## Ein gwasanaethau glanhau

Ym mis Ionawr 2021, trosglwyddodd 91 aelod o dîm glanhau Axis i TrC a recriwtio dau reolwr glanhau newydd wrth i ni barhau i ddatblygu'r profiad gorau i'n cwsmeriaid a'u cadw'n ddiogel ar ein gwasanaethau. Roedd y prosiect symud yn cynnwys ymgynghoriadau un-i-un gyda phawb yr effeithir arnynt, sefydlu'r gyflogres, cynnal archwiliadau safle a nodi gofynion offer TG a glanhau.

Mae'r tîm yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth glanhau 24/7 ar ein trenau, mewn swyddfeydd, ystafelloedd bwyta a depos trenau. Mae eu gwaith caled drwy gydol 2020/21 wedi bod yn hollbwysig o ran cadw ein teithwyr ynghyd â'n cydweithwyr yn ddiogel drwy gydol y pandemig.


## Bysiau ar gais

Mae'r gwasanaethau trafnidiaeth ymatebol integredig ac yn seiliedig ar alw boblogaidd ymysg cwsmeriaid sydd wedi rhoi cynnig ar fflecsi eleni; sef gwasanaeth bws peilot sy'n darparu teithiau mwy personol a chyfleus. Wedi'i dreialu'n wreiddiol yn Sir Benfro a Dyffryn Conwy, mae fflecsi bellach wedi cael ei lansio yng Nghasnewydd, Gogledd Caerdydd, Y Rhondda, Dinbych a Phrestatyn. Mae dros 32,000 o deithiau wedi cael eu cwblhau ers y lansiad ym mis Mai 2020, a bydd cynllun peilot ym Mlaenau Gwent yn dechrau cyn bo hir. Mae fflecsi, sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau, yn cynnwys:

- ✓ trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw ac sy'n eich codi a'ch gollwng chi unrhyw le yn ardal fflecsi
- ✓ galw wedi'i reoli i sicrhau bod teithwyr yn gallu cadw pellter cymdeithasol ar bob taith
- ✓ trafnidiaeth ymatebol integredig sydd wedi'i lled-drefnu, gan adael mewn un lleoliad a/neu gyrraedd y gyrchfan a ddewiswyd ar adegau penodol gan gynnwys cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus arall
- ✓ teithio mewn ardaloedd yn hytrach nag ar hyd llwybrau penodol gyda seddi y gellir eu harchebu ymlaen llaw drwy ap, ffôn neu wefan
- ✓ bysiau llai sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd a hygyrchedd gyda gwasanaeth cornel i gornel ac o ddrws i ddrws ar gyfer pobl ag anableddau
- ✓ y potensial yn y dyfodol i gynnwys cerbydau allyriadau isel iawn a chynllunio ac archebu teithiau integredig.

"Mae'r gwaith caled yn ystod 2020/21 wedi bod yn hanfodol i gadw ein teithwyr a'n cydweithwyr yn ddiogel drwy gydol y pandemig."

fflecsi



# Sut rydyn ni'n darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio

Rydyn ni'n datblygu ein gallu'n barhaus i fod yn gynghorydd dibynadwy ac i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gydweithio â'n cwsmeriaid, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid a drwy fod yn arweinydd yn y sector. Ein nod yw cael ein parchu am ein cyngor dibynadwy a gwybodus.

### Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn siapio rhwydwaith trafnidiaeth Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru dros wyth mis i gefnogi datblygiad y strategaeth cyn ei lansio ym mis Mawrth 2021. Roedd y broses gydweithredol yn cynnwys:

- ✓ dros 80 o ddigwyddiadau ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol o awdurdodau lleol, grwpiau defnyddwyr a'r sector preifat a'r trydydd sector er mwyn deall yn well effaith trafnidiaeth ar fywydau pobl
- ✓ casglu a dadansoddi data i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Teithio Llesol 2013 ynghyd â mentrau polisi trafnidiaeth newydd gan gynnwys diwygio a thrydaneiddio bysiau
- ✓ cyhoeddi drafft ymgynghori cychwynnol, wedi'i gefnogi gan adroddiad Tueddiadau a Data TrC a'r adroddiad cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig. Cafodd ymatebion gan oddeutu 400 o bobl a sefydliadau eu cynnwys yn y strategaeth derfynol a'r adroddiad cefndir manwl – Symudedd yng Nghymru
- ✓ cynhyrchu a dosbarthu'r strategaeth derfynol cyn dechrau gweithio ar y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol newydd a fydd yn nodi blaenoriaethau gwario dros y pum mlynedd nesaf, ochr yn ochr â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a baratowyd gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd.

Byddwn nawr yn rhoi cyngor ar Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a'r fframwaith gwerthuso newydd a fydd yn helpu i sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar gyflawni.

**Gweledigaeth graidd o rwydwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon**

**3 blaenoriaeth**

Lleihau'r angen i deithio, darparu seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth mwy cynaliadwy a sbarduno newid mewn ymddygiad

**4 uchelgais tymor hir**

Yn dda i bobl ac i gymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i leoedd ac i'r economi, ac yn dda i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

**9 cynllun bach**

Yn cynnwys teithio llesol, bysiau, rheilffyrdd, ffyrdd, strydoedd a pharcio, tacsis a cherbydau hurio preifat, y trydydd sector, cludiant a logisteg, porthladdoedd a morwrol, ac awyrennau



### Cyngor arbenigol a rheoli prosiectau

- ✓ Rydyn ni wedi sefydlu byrddau strategaeth a llywodraethu ym mhob rhanbarth Metro; gan arwain ar grwpiau llywio, gweithgorau, ymgynghori â rhanddeiliaid, ymgysylltu â nifer o brosiectau a rhaglenni, sesiynau briffio, cynllunio a datblygu'r rhaglen, cyfraniadau gan weithgorau traws-Metro a datblygu strategol.
- ✓ Rydym wedi cefnogi Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru gyda rheoli prosiectau, cyngor technegol, gwasanaethau dadansoddi, gwasanaethau amcangyfrif costau a chymorth ymgynghori fframwaith sy'n arwain at gyhoeddi'r 'Emerging Conclusions' gan y Comisiwn ym mis Gorffennaf 2020 a'r 'Final Recommendations' ym mis Tachwedd 2020.
- ✓ Rydyn ni wedi sefydlu'r 'Uned Datblygu Burns' i ddatblygu, datblygu a monitro pob un o'r 58 o argymhellion SEWTC – bydd rhai o'r rhain yn cael eu datblygu drwy ein rhaglen Prif Lein arfaethedig ar gyfer De Cymru a fydd yn ategu ein rhaglenni Metro ledled de Cymru.
- ✓ Rydym wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddechrau datblygu Achos Busnes Llawn Rhaglen Gwelliannau Canol Caerdydd; gan weithio gyda'r holl gyllidwyr gan gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yr Adran Drafnidiaeth a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i nodi ymyriadau posibl a chynnal astudiaethau dichonoldeb.
- ✓ Rydyn ni'n parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru gyda Pheirianwyr Prosiectau a Chynghorwyr Arbenigol i helpu i gyflawni ei Phrosiectau Rheoli Rhwydweithiau, ei Phrosiect Rheoli Ffiniau a'i chymorth polisi ar gyfer Llwybr Newydd.
- ✓ Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ddarparu wyth cynllun peilot 20mya o ganlyniad i'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 yn argymell gostyngiad posibl yn y cyfyngiad cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig i 20mya yng Nghymru.
- ✓ Rydyn ni'n gweithio gyda Network Rail i wella seilwaith rheilffyrdd er mwyn gallu cynyddu amlder gwasanaethau drwy Orsaf Drenau Wrecsam Cyffredinol a lleihau amser teithio rhwng y gogledd a'r de; gan wella capasiti i gefnogi newidiadau i amserlenni mis Rhagfyr 2022 a bodloni dyheadau ar gyfer y dyfodol.

### Modelu a dadansoddi trafnidiaeth

- ✓ Mae dau fodel trafnidiaeth rhanbarthol newydd sbon ar gyfer Gogledd Cymru a De-orllewin a Chanolbarth Cymru wedi cael eu cwblhau. Maent yn ategu Model Trafnidiaeth presennol De Ddwyrain Cymru ac yn darparu galluoedd profi senarios a rhagolygon soffistigedig, gan ein helpu i gynllunio'n briodol a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Mae'r modelau hefyd yn galluogi rhanddeiliaid i ddeall effeithiau ymyriadau trafnidiaeth posibl a pholisïau ar y galw am drenau, bysiau a cheir. Mae'n bosibl addasu'r mewnbynnau i efelychu newidiadau sy'n gysylltiedig â'r galw cyffredinol am deithio ar ôl Covid-19, fel mwy o weithio gartref.
- ✓ Mae ein Huned Dadansoddi, sydd â gwybodaeth fewnol am fodelu trafnidiaeth, yn cynghori sefydliadau ar sut i ddefnyddio neu gael gafael ar y modelau rhanbarthol. Mae'r tîm wedi ehangu i gefnogi rheolwyr prosiect sy'n gweithio ar Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, modelu trafnidiaeth aml-foddol, rhagweld y galw, gwerthuso economaidd a dadansoddi data trafnidiaeth. Mae hyn wedi arwain at arbedion o ran cost ac amserlen, yn ogystal â gwella ansawdd a chysondeb y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau ynghylch trafnidiaeth.
- ✓ Cafodd ein cynlluniau i ddiweddaru Model Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, gan ddefnyddio data newydd a diweddar yn seiliedig ar ffonau symudol ac arolygon, eu gohirio oherwydd effaith Covid-19 ar batrymau trafnidiaeth. Rydym nawr yn disgwyl dechrau ar y gwaith hwn yn 2022.

> "Mae'r tîm wedi ehangu i gefnogi rheolwyr prosiect sy'n gweithio ar Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, modelu trafnidiaeth aml-foddol, rhagweld y galw, gwerthuso economaidd a dadansoddi data trafnidiaeth."




## Cynllunio Trafnidiaeth

- ✓ Rydyn ni wedi recriwtio dau gynllunydd trafnidiaeth, sy'n gweithio'n agos gyda'n Huned Dadansoddi, y gadwyn gyflenwi a Llywodraeth Cymru i asesu opsiynau a datblygu amrywiaeth o gynlluniau trafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar astudiaethau WelTAG a pharatoi achosion busnes.
- ✓ Rydyn ni wedi penodi rheolwyr rhaglenni datblygu strategol i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i fwrw ymlaen ag asesu opsiynau a datblygu achosion busnes ar gyfer Metro Gogledd Cymru, Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru, a datblygiadau Metro De Cymru yn y dyfodol.
- ✓ Mae ein dau Banel Ymgynghori sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes wedi cael eu sefydlu, sy'n rhoi mynediad i ni at amrywiaeth eang o arbenigwyr a fydd yn gallu cefnogi ein timau mewnol. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso cynlluniau trafnidiaeth ac asesiadau effaith, monitro a gwerthuso, asesiadau amgylcheddol, a phrosesau cynllunio statudol.

## Cyflawni sero net

Gyda chylch gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau sero net ar gyfer gweithrediadau a gwasanaethau erbyn 2030, rydym yn gweithio'n galed i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â'r egwyddorion a'r nodau a nodir ym mholisi Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel. Mae ein hallyriadau carbon wedi gostwng tua 27% yn 2020/21 o ganlyniad i ostyngiad mewn gwasanaethau a gweithrediadau yn ystod y pandemig. Mae ein gwaith yn 2020/21 hefyd wedi cynnwys:

- ✓ recriwtio Rheolwr Rhaglen Datgarboneiddio sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio gwasanaethau (bws, tacsi a cherbydau trydan) ochr yn ochr â dau Reolwr Prosiect – rydym yn disgwyl cyhoeddi strategaethau ddiwedd 2021 fel rhan o'n hail gynllun cyflawni carbon isel
- ✓ newid ein holl ynni i fod yn 100% adnewyddadwy gyda 50% yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru drwy'r Cynllun Ardystio Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO). Rydyn ni wedi datblygu cynlluniau i brynu solar yn uniongyrchol gan Network Rail yn rhai o brif orsafoedd rheilffyrdd Cymru ac rydyn ni wedi dechrau gweithio ar brosiect goleuadau LED
- ✓ cynllunio ar gyfer darparu dros 20 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyflym yng Nghymru wledig yn 2021
- ✓ defnyddio offer ynni solar i bweru offer ar y gwaith trawsnewid yn Ne Ddwyrain Cymru, gan gynnwys goleuadau â phŵer solar a theledu cylch cyfyng
- ✓ gweithio'n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg a NextBike i alluogi cyflwyno Beiciau Trydan ym Mhenarth ym mis Tachwedd 2020
- ✓ gweithio gyda SPECIFIC ym Mhrifysgol Abertawe i dreialu system paneli solar hyblyg y gellid eu gosod ar do cysgodfannau i redeg goleuadau a sgriniau gwybodaeth
- ✓ cydweithio â Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Riding Sunbeams a rhanddeiliaid eraill i ystyried defnyddio ynni adnewyddadwy ochr y cledrau ar Linellau Craidd y Cymoedd ar sail astudiaeth dichonoldeb a gynhaliwyd yn 2019/20
- ✓ mapio ein hasedau naturiol i'w defnyddio i wneud iawn am garbon, gan gynnwys y safle coetir rydyn ni'n ei blannu yn Llan-wern
- ✓ sefydlu Gweithgor Datgarboneiddio a sefydlu Grŵp Metro Datgarboneiddio
- ✓ cymryd rhan yn 'Rhaglen Monitro Ansawdd Aer Gorsafoedd Trenau'; prosiect gyda RSSB sy'n cael ei ariannu gan yr Adran Drafnidiaeth i ddeall llygredd aer yn well ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd.

> "Rydyn ni'n gweithio'n galed i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion a nodwyd ym mholisi Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel'. Mae ein hallyriadau carbon wedi lleihau tua 27% yn 2020/21 o ganlyniad i ostyniad mewn gwasanaethau a gweithrediadau yn ystod y pandemig."

# Sut rydym yn adeiladu sefydliad a phartneriaethau sy'n gallu cyflawni ein pwrpas

Mae ein diwylliant sefydliadol cryf, ein tîm galluog ac angerddol a'n partneriaethau gwaith agos yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae diogelwch a lles wrth galon popeth a wnawn ac rydym yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ein pobl i gyflawni'r nodau hyn. Rydym bellach yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig a rheadru hyn drwy ein cadwyn gyflenwi.

## Ein cynllun busnes

Bydd ein cynllun busnes 2021/22 yn disgrifio sut byddwn ni'n datblygu dros y 12 mis nesaf ac yn darparu ar gyfer ein cwsmeriaid. Cafodd ei ddatblygu mewn ymateb i lythyr cylch gwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021 ac mae'n nodi'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf, i gyflawni ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau corfforaethol.

Mae mesur ein perfformiad fel cwmni cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau allweddol yn hanfodol er mwyn cael ein dal yn atebol gan ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid, trethdalwyr a Llywodraeth Cymru. Mae angen i ni hefyd fesur ein perfformiad er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau.

O ystyried y newidiadau diweddar rydym wedi'u gwneud ac i gydnabod ein cylch gwaith ehangach, rydym yn adolygu ein dangosyddion perfformiad allweddol gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol, ariannol a gweithredol.

Fodd bynnag, rydym wedi cytuno â Llywodraeth Cymru ar gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur perfformiad gweithredol rheilffyrdd.

Byddwn yn cyhoeddi ein perfformiad yn rheolaidd yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol ac yn crynhoi ein perfformiad cyffredinol yn ein Hadroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol.

| Dangosyddion perfformiad gweithrediadau rheilffyrdd | |
|---|---|
| Darparu gwasanaethau | Canslo a pheidio â hepgor gorsafoedd<br>Amser mae Teithwyr yn ei Golli<br>Ar amser i 3% |
| Cwsmer | Bodlonrwydd cwsmeriaid<br>Glanweithdra |
| Effeithiolrwydd | Cyfanswm y teithwyr a gludir<br>Incwm tocynnau yn ôl blwyddyn ariannol<br>Cilomedrau teithwyr |
| Effeithlonrwydd costau | Carbon fesul cilomedr teithwyr<br>Allyriadau fesul cilomedr teithwyr<br>Cost fesul cilomedr teithwyr |
| Diogelwch | Damweiniau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gweithlu<br>Damweiniau yn y gweithlu |
| Amcanion strategol | Cerrig milltir strategol a gyflawnwyd |

Yn ystod 2020/21, rydym hefyd wedi bod yn diweddaru ein Bwrdd gyda cherdyn sgorio sy'n mesur anafiadau cwsmeriaid a theithwyr, darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd, allyriadau carbon ac $NO_2$. Yn anffodus, nid ydym wedi gallu darparu data ar fodlonrwydd cwsmeriaid a theyrngarwch oherwydd Covid-19.

## Ein hymrwymiad i reilffyrdd cymunedol

Cyhoeddwyd ein Strategaeth Rheilffyrdd Cymunedol newydd yn 2020. Mae'n nodi sut rydyn ni'n cydweithio â'n partneriaid rheilffyrdd cymunedol i annog cymunedau ledled Cymru a'r gororau i nodi a defnyddio manteision cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.

Rydyn ni'n cefnogi cymunedau i fanteisio i'r eithaf ar eu rheilffyrdd drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, teithio cynaliadwy a hygyrch a, lle bo'n bosibl, dod â gorsafoedd yn fyw. Mae ein gwaith yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ integreiddio ein tîm ein hunain i sicrhau dull 'un tîm', 'un llais' ar gyfer rheilffyrdd cymunedol ledled TrC
- ✓ cyflwyno Cysylltu De Orllewin Cymru fel y Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol newydd yn Ne Orllewin Cymru. Fel cwmni buddiant cymunedol sy'n cael ei redeg gan 4theRegion, mae'r Bartneriaeth newydd eisoes wedi cael ei chymeradwyo i'w hachredu
- ✓ CRP Dyffryn Conwy yn recriwtio Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol newydd ac yn symud y sefydliad i Creu Menter, menter gymdeithasol yng Ngorsaf Reilffordd Llandudno ynghyd â sicrhau achrediad gan y DfT a Llywodraeth Cymru gyda chytundeb i ymestyn eu cyrhaeddiad i Ynys Môn
- ✓ cynllunio ar gyfer Partneriaeth newydd yng Nghymoedd Caerdydd. Welcome to our Woods wedi cytuno i fod yn brif sefydliad ac mae 10 sefydliad eisoes wedi cytuno i ymuno â'r bartneriaeth
- ✓ Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol sy'n defnyddio rhywfaint o'u cyllid blynyddol i gefnogi grwpiau lleol drwy gronfa gwrthsefyll Covid-19 neu gronfa adfer. Gan weithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i weinyddu'r rhain, rydym wedi darparu arian cyfatebol o'n Cronfa Her CR
- ✓ datblygu gwefan diwrnodau allan 'Cymru ar y Rheilffyrdd' ar y cyd â'r Partneriaethau, Great Little Trains of Wales, Croeso Cymru a Traws Cymru
- ✓ cydweithio â Network Rail a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ddatblygu'r deunyddiau diogelwch rheilffyrdd diweddaraf i'w defnyddio gan yr holl bartneriaid perthnasol
- ✓ dechrau ein gwaith gyda thîm unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Groes Goch, i gyflawni'r agenda teithwyr hyderus. Trefnir teithiau ymgyfarwyddo a hygyrchedd i annog pobl unig ac agored i niwed i ddefnyddio'r rheilffordd
- ✓ cydweithio â Phartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol i ddatblygu rhwydwaith o deithiau hamdden o orsafoedd a chefnogi Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol gyda'u gwaith gyda chymunedau lleol wrth iddynt ariannu'r gwaith o osod diffibrilwyr mewn gorsafoedd rheilffyrdd ledled Gogledd Cymru.

## Rhoi bywyd newydd i orsafoedd trenau

- ✓ Cyflawni Cam 1 y Rhaglen Datblygu Cymdeithasol a Masnachol gan ddod â saith gorsaf â lle segur yn ôl yn fyw, gan gynnwys y Fenni, Y Barri, Bangor, Abergele a Phensarn, Tywyn, Llandudno a Chyffordd Llandudno. Mae gan chwech o'r saith gorsaf sefydliadau cymunedol/lleol yn cymryd y lle. Darparodd Railway Heritage £280,000 o gyllid grant i helpu gyda chostau adnewyddu.
- ✓ Rydyn ni'n cynllunio Cam 2 y Rhaglen Datblygu Cymdeithasol a Masnachol ac rydyn ni wedi nodi Llanelli, Wem, Y Fflint, Hwlffordd, Bae Colwyn, Llandrindod, Henffordd a Dinbych-y-pysgod fel safleoedd posibl ar gyfer datblygu.
- ✓ Rydyn ni'n bwrw ymlaen â chynlluniau i uwchraddio Gorsaf Drenau Aberdaugleddau gan ddefnyddio cynwysyddion cludo ar y môr, y cyntaf o'u bath yng Nghymru.

"Rydyn ni'n am helpu cymunedau i fanteisio i'r eithaf ar eu rheilffyrdd drwy hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a theithio cynaliadwy a hygyrch."

## Ein brand

Mae Trafnidiaeth Cymru yn frand dwyieithog blaengar ac rydym yn canolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid.

Ein nod yw annog pobl Cymru a'r gororau i wneud dewisiadau teithio gwell drwy feithrin eu hyder, ennyn eu hymddiriedaeth a gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eu bod yn credu ynom ni a'n bod yn gwneud y peth iawn iddyn nhw.

Mae ein gwaith datblygu brand yn 2020/21 yn cynnwys:

- ✓ lansio ein hymgyrch 'Metro – ein cyfle' i gyfleu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Metro
- ✓ dechrau datblygu ein gwefan integredig newydd ar gyfer pob cwsmer a rhanddeiliad
- ✓ gweithredu ein hunaniaeth brand ar amrywiaeth o brosiectau seilwaith allweddol gan gynnwys depo Ffynnon Taf a'n canolfan rheoli gwybodaeth newydd
- ✓ datblygu a gosod arwyddion dwyieithog wedi'u brandio y ffordd yn ein gorsafoedd trenau, gan gynnwys y rheini sy'n wynebu amhariad o ganlyniad i waith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd
- ✓ dylunio a gweithredu'r brandio mewnol ac allanol ar gyfer ein fflyd newydd o drenau
- ✓ datblygu ein cynnig arlwyo newydd ar y cyd â'n timau arlwyo profiadol
- ✓ datblygu a lansio brand ein gwasanaeth, ein gwefan a'n ap fflecsi.

## Cofleidio'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Rydyn ni'n cefnogi strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru; gan ganolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg.

Ar ôl trosglwyddo Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru i TrC, rydyn ni'n adolygu'r gofynion ar gyfer Polisi Iaith Gymraeg newydd y byddwn yn ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021.

Bydd ein polisi newydd yn nodi ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn ogystal â hawliau'r cyhoedd, ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr, gan gefnogi'r egwyddor y dylai pobl yng Nghymru *allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dewis gwneud hynny.*

Bydd hefyd yn amlinellu ein hymrwymiadau i gefnogi diwylliant Cymru a sut mae ein gwasanaethau a gweithgareddau yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ledled y wlad.

Gyda'n Polisi Iaith Gymraeg, ceir cyfres o ganllawiau a fydd yn diffinio sut y byddwn yn cydymffurfio â'r Polisi a Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar gyfathrebu â chwsmeriaid, cyfarfodydd, digwyddiadau, cyflwyniadau, rhyngweithio â'r cyfryngau, deunyddiau ysgrifenedig, hyfforddiant, recriwtio a brandio.

Rydyn ni hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar ein map gweithredu iaith Gymraeg.

## Recriwtio

- ✓ Rydyn ni wedi datblygu ein tîm recriwtio mewnol ein hunain a'n polisïau, ein systemau a'n gweithdrefnau cysylltiedig, gan leihau ein dibyniaeth ar ddarparwyr allanol a lleihau'r gost.
- ✓ Roeddem wedi croesawu dros 100 o weithwyr newydd ac wedi hwyluso 24 o newidiadau mewnol i'r rôl yn ystod y flwyddyn.
- ✓ Fe wnaethom lansio ymgyrch gweithredu cadarnhaol Menywod yn y Lluoedd Arfog, gan arwain at recriwtio ein peiriannydd benywaidd cyntaf.
- ✓ Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliad sy'n hyrwyddo'r gwaith o recriwtio pobl anabl ac wedi cynnig ein lleoliad gwaith cyntaf i berson anabl er mwyn gwella ei sgiliau.
- ✓ Rydyn ni'n datblygu perthynas â'r rhaglen KickStart i gynnig cyfleoedd lleoliad i bobl anabl yn 2021/2022.
- ✓ Rydyn ni wedi datblygu rhaglen strwythuredig ar gyfer Prentisiaid sy'n ymgymryd â phrentisiaeth ym maes rheoli prosiectau ac rydyn ni nawr yn ehangu hyn ar gyfer pob prentisiaeth. Bydd hyn yn helpu prentisiaid i symud tuag at eu nodau gyrfa.
- ✓ Rydym wedi sefydlu cyfrif recriwtio premiwm ar LinkedIn, gan arwain at gyflogi 66 o rai y dylanwadwyd arnynt ac rydym wedi sefydlu cyfrif premiwm ar Indeed (bwrdd swyddi mwyaf y DU), gan arwain at dros 60,000 o gliciau ar ein hysbysebion swyddi a dros 650,000 o argraffiadau.



## Gweithgor Amrywiaeth Trafnidiaeth

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gadeirio'r Gweithgor Amrywiaeth Trafnidiaeth newydd gyda'r dasg o gynnal adolygiad o sut gall y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru adlewyrchu'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu'n well. Rydyn ni'n ymgysylltu ag Undebau Llafur, Llywodraeth Cymru, Network Rail a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Bws Caerdydd i annog mwy o weithio rhan-amser, cyflwyno contractau mwy hyblyg a meddwl sut rydyn ni'n recriwtio, yn cadw ac yn buddsoddi mewn cydweithwyr ar draws y rhwydwaith. Rydyn ni hefyd yn edrych ar y rhwystrau sy'n bodoli yn y sector trafnidiaeth a allai ddylanwadu ar ddewisiadau gyrfa er mwyn i ni allu creu gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol.

## Prentisiaethau

- ✓ Rydyn ni wedi recriwtio tri prentis gradd Peirianneg Sifil ychwanegol drwy Gynghrair Prentisiaethau Cymru ac mae dau o'n prentisiaid cyntaf wedi pasio eu cymhwyster prentisiaeth yn 2021 ac yn parhau â'u gyrfaoedd gyda TrC.
- ✓ Fe wnaethom lansio ein Hacademi Prentisiaethau ym mis Chwefror 2021 fel rhan o Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau. Mae 'Ffynnu' yn dod â haen ychwanegol o wybodaeth a sgiliau i'n holl raglenni prentisiaeth gyda dosbarthiadau meistr misol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'n gwerthoedd a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Cynlluniau i Raddedigion

- ✓ Buom yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a phrifysgolion i lansio ein Cynllun Datblygu Graddedigion newydd a ddenodd dros 870 o geisiadau.
- ✓ Mae disgwyl i bump o raddedigion ymuno â'n tîm ym mis Medi 2021 i weithio ym maes peirianneg sifil, cyllid, cynllunio trafnidiaeth a risg. Mae'r rhaglen ddwy flynedd yn cynnwys mentora a'r potensial i sicrhau statws proffesiynol. Mae hyn hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys graddedigion mewnol.
- ✓ Rydym wedi cyflwyno cynllun hyfforddi graddedigion sydd wedi'i gofrestru gyda Sefydliad y Peirianwyr Sifil.

## Gwobrwyo a chydnabod

- ✓ Rydyn ni wedi parhau i gefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda'r holl gydweithwyr nawr yn cael y cyflog byw gwirioneddol o leiaf. Rydyn ni'n credu bod diwrnod caled o waith yn haeddu diwrnod teg o gyflog.
- ✓ Fe wnaethom gyflwyno porth buddion gweithwyr newydd ym mis Medi 2020. Mae hyn yn cynnwys Cycle 2 Work, cynllun gwyrdd ar brydles car a gostyngiadau ar draws siopau ac iechyd a ffitrwydd.
- ✓ Rhoddwyd cynllun cydnabod gweithwyr ar waith i gydnabod ymddygiad a chyflawniad rhagorol gweithwyr yn unol â'n gwerthoedd.

"Mae ein diwylliant cryf o fewn y sefydliad, ein tîm galluog ac angerddol, a phartneriaethau gwaith agos wrth graidd ein llwyddiant."

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2020 yn 41.5%. Mae hyn wedi gostwng 8.3% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Ebrill 2020, roeddem wedi cyflwyno ein system dâl newydd ar sail perfformiad i sicrhau bod yr unig wahaniaethau cyflog yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfraniad a pherfformiad. Gosodwyd amcanion ar gyfer pob cydweithiwr a chynhaliwyd y rownd gyntaf o adolygiadau perfformiad blynyddol, ar sail perfformiad yn erbyn amcanion hyd at 31 Mawrth 2021.

Yn unol â'n rhwymedigaethau o ran dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, rydym wedi ysgrifennu a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Pwrpas hyn yw cofnodi'r camau y mae angen i ni eu cymryd i gyflawni ein dyletswyddau penodol ac mae'n amlinellu'r amcanion cydraddoldeb a'r cymariaethau y gellir eu gwneud ohonynt o ran Cynllun Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ar ôl cyhoeddi ein hamcanion cydraddoldeb a chyfnod o ymgysylltu â gweithwyr mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cafodd gweithgor ei ffurfio ym mis Gorffennaf 2020. Diben y Gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yw galluogi cydweithwyr o TrC i gwrdd mewn un lle i gydweithio, rhannu arferion gorau a gweithio ar y cyd ar arloesi a fydd yn cael effaith gadarnhaol i bawb, gan gynnwys cyflenwyr ac is-gontractwyr.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr, Delsion, sydd wedi ein cefnogi ar ein taith strategol, i gynnal adolygiadau o'n polisïau Adnoddau Dynol, i hyrwyddo hyfforddiant ac i ddarparu dadansoddiad o'r bylchau yn ein proses recriwtio. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi ein datganiadau amrywiaeth a hyblygrwydd sy'n dangos i ymgeiswyr a chydweithwyr ein bod ni wedi ymrwymo i gefnogi gweithio hyblyg ac amrywiaeth ar draws y cwmni.

Drwy'r cynllun Recriwtio Milwrol, rydym wedi penodi menywod i rolau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion fel arfer, gan ein helpu i gynyddu cynrychiolaeth menywod ar draws pob adran a disgyblaeth.

Hefyd, gwnaethom greu partneriaeth â'r elusen cydraddoldeb rhywiol flaenllaw, Chwarae Teg. Bydd y bartneriaeth yn arwain at lu o gefnogaeth ac adnoddau i ni wrth i ni weithio tuag at gyflawni cydraddoldeb ar draws TrC a dod yn Gyflogwr Chwarae Teg.

## Cyflog bonws

Nid oes dim un o'n gweithwyr yn cael taliadau bonws oni bai bod ganddynt hawl am fonws a ddiogelwyd drwy TUPE. Cafodd yr holl wasanaethau arlwyo ar y trên eu hatal oherwydd pandemig Covid-19 felly roedd y swyddogion gweini ar ffyrlo. Yn ddiweddarach, cawsant eu hadleoli dros dro i swyddi sy'n wynebu cwsmeriaid mewn gorsafoedd ac mewn cynteddau, gan olygu nad oeddent yn gallu ennill comisiwn ar werthiant. Felly, yr unig daliadau bonws a wnaed oedd i gyn-gydweithwyr Network Rail a oedd wedi trosglwyddo i TrC ar TUPE yn ystod trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd, bob un ohonynt yn ddynion. Mae hyn yn golygu na allwn gyfrifo'r bwlch cyflog bonws ar gyfer y cyfnod hwn. Ni thalwyd bonws i unrhyw fenyw a thalwyd bonws i 7.5% o ddynion.


## Symud ymlaen

Bydd bodolaeth ein Gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sicrhau bod ein hamcanion cydraddoldeb yn cael eu hyrwyddo a'u datblygu'n barhaus yn y sefydliad.

Mae Bwrdd TrC wedi cymeradwyo Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Menywod, sydd wedi'i hysbrydoli gan gynllun Step to Non-exec Chwarae Teg. Bydd ein partneriaeth â Delsion hefyd yn ein galluogi i gael ein cefnogi gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant dros y 12 mis nesaf.

Rydyn ni'n cymryd rhan yn rhaglen LeadHer Ship Chwarae Teg a fydd yn dangos y gwaith rydyn ni'n ei wneud fel sector i annog menywod i ymuno â ni. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Chwarae Teg i gael ein cefnogi ac i gael cymorth a hachredu am y gwaith rydyn ni'n ei wneud i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy ennill achrediad Cyflogwr Chwarae Teg.

"Rydyn ni wedi penodi menywod i rolau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion fel arfer, gan ein helpu i gynyddu cynrychiolaeth menywod ar draws pob adran a disgyblaeth."




Nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cyfuno ac maent yn berthnasol i TrC yn unig.

# Risg

Rydym yn wynebu risgiau cymhleth ac amrywiol. Mae rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o'n gweithrediadau a'n strategaeth.

Mae hyn yn cynnwys risgiau wrth reoli gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'r angen i sicrhau ein bod yn fodlon, er enghraifft, bod risgiau diogelwch, i gwsmeriaid ac amgylcheddol yn cael eu rheoli'n briodol.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr economi a'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae TrC wedi teimlo'r effaith honno, gan arwain at nifer o newidiadau sylweddol yn y ffordd rydym yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru a rhanbarthau'r gororau. Mae ein gwaith yn datblygu ac yn darparu rhwydweithiau bysiau wedi tyfu'n benodol, gan ein bod wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddylunio a darparu atebion tymor byr a thymor hir ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru a'r gororau.

Mae'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau hefyd wedi newid yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i weithrediadau rheilffyrdd gael eu trosglwyddo i Grŵp Trafnidiaeth Cymru. Er bod y rhan fwyaf o'r risgiau rydym wedi'u hetifeddu eisoes yn hysbys, bydd integreiddio risgiau a phrosesau rheoli risg yn agosach i TrC yn galluogi'r sefydliad i'w deall yn well a'u lliniaru o bosibl.

Mae'r amrywiaeth o risgiau mae TrC yn eu rheoli wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn yn unol â'n cylch gwaith a'n cyfrifoldebau cynyddol.

Mae ein prosesau nodi a rheoli risgiau ffurfiol yn sicrhau ein bod wastad yn nodi, yn gwerthuso a, lle bo'n bosib, yn lliniaru risgiau sy'n deillio o'n gweithrediadau beunyddiol ac o'r diwydiant rheilffyrdd a'r economi. Mae Bwrdd TrC yn gyfrifol am gynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn.

Mae'r ehangu cyflym yn ein cyfrifoldebau a nifer y bobl sy'n rhan o Grŵp TrC yn golygu ei bod yn briodol adolygu'r dull gweithredu cyfan ar gyfer rheoli risg, er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ledled TrC a bod gwreiddio risg ym mhopeth a wnawn yn rhan annatod o bob aelod o staff. Bydd yn cymryd peth amser i gyrraedd y sefyllfa hon ac ni ddylid tanbrisio maint yr her. Yn unol â hynny, er bod ein strategaeth a'n hagwedd at risg yn glir, mae tasg enfawr yn ein hwynebu o ran sicrhau dull cyson, priodol a modern o ymdrin â risg ledled y sefydliad.

**Dyma'r hyn a nodir yn yr adran hon:**

- disgrifiad o'n hamcanion rheoli risg
- rôl unigolion a thimau o ran rheoli risg
- disgrifiad o'r prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n ein hwynebu

"Mae trosglwyddo gwasanaethau rheilffyrdd i'r Grŵp Trafnidiaeth Cymru wedi arwain at newid sylweddol yn y tirlun risg."

## Ein hamcanion rheoli risg

Prif amcan ein system rheoli risg yw sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi'n effeithiol, bod mesurau lliniaru'n cael eu datblygu, a bod camau rheoli'n cael eu cymryd i leihau lefel y risg sy'n cael ei dal gan y busnes i lefel ddiogel.

Fel Grŵp sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, mae ein dull cyffredinol o reoli risg yn seiliedig ar yr angen i ddiogelu arian cyhoeddus drwy ddarparu gwerth am arian trethdalwyr drwy ddefnyddio'r adnoddau a roddir i ni'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae ein systemau rheoli wedi'u cynllunio i gyflawni'r amcanion canlynol:

- ✓ sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio yn y sefydliad. Mae gwreiddio rheoli risg yn golygu bod modd canfod tystiolaeth o weithredu polisïau a gweithdrefnau'n hawdd yn y sefydliad a'i hadlewyrchu yn y canlyniadau mae TrC yn eu darparu
- ✓ sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i reoli risg yn effeithiol, yn unol â'r archwaeth risg perthnasol ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant risg cryf, integredig ar gyfer y cwmni cyfan
- ✓ sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod arferion rheoli risg ein cadwyn gyflenwi yn gyson â'n dull gweithredu
- ✓ profi a meincnodi ein harferion rheoli risg yn erbyn y rheini a fabwysiadwyd mewn sefydliadau eraill drwy geisio cydnabyddiaeth ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol
- ✓ Bydd TrC yn croesawu adborth ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei arferion rheoli risg gan ei randdeiliaid a'i weithwyr, a hynny mewn modd cyfrinachol a heb fod yn gyfrinachol.

"Mae rheoli risg yn effeithlon yn elfen hanfodol o strategaeth a gweithrediad TrC."

## Rolau a chyfrifoldebau rheoli risg

Mae'n rhaid i holl weithwyr TrC lynu wrth ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoli risg. Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoli risg yn berthnasol i bob cydweithiwr, ymgynghorwyr penodedig a gweithwyr ar secondiad.

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sicrhau bod polisi a gweithdrefnau rheoli risg priodol ac effeithiol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn y busnes, gan ddarparu adroddiadau ar broffil risg a rhoi cyngor ar reolaethau lliniaru.

Rydym yn cyflogi nifer o weithwyr proffesiynol ym maes rheoli risg, sydd wedi cymhwyso'n briodol yn eu maes i gynghori ar ein systemau a'n prosesau rheoli risg, eu datblygu a'u rheoli. Maent yn ymgynghori'n rheolaidd â chyrff allanol i sicrhau bod ein dull gweithredu a'n harferion yn gyson ag arferion da a gofynion cyfreithiol lle bo hynny'n berthnasol.

O leiaf bob mis, mae uwch dîm arwain TrC yn gyfrifol am adolygu risgiau strategol a gweithredol ar y cyd, gan ddarparu adroddiad i'r Bwrdd ar sut mae'r risgiau hynny'n cael eu rheoli, eu haeddfedrwydd a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd i'w lleihau neu eu dileu.

Mae risgiau'n cael eu rheoli ar sail grŵp cyfan, tra'n cydnabod bod gan gwmnïau penodol gyfrifoldebau penodol.

Mae ein Bwrdd yn adolygu risg ym mhob cyfarfod ac yn trafod ac yn herio rheolaeth ar ei asesiadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwrdd bob chwarter ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r fframwaith rheoli risg, polisi a gweithdrefnau rheoli risg TrC a sicrhau bod y rheolaethau sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r camau lliniaru yn briodol. Fe'i cefnogir gan archwiliad mewnol yn ei adolygiad o'r fframwaith rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch arferion TrC, herio tybiaethau a cheisio newid a datblygu lle bo angen.

## Prif risgiau

Mae'r tabl yn nodi'r prif risgiau a allai effeithio ar TrC fel y pennir gan y Bwrdd. Fodd bynnag, ni fwriedir i gynnwys y tabl fod yn rhestr gynhwysfawr o'r risg a'r ansicrwydd a all godi. Mae'r tabl yn nodi'r camau lliniaru sydd ar waith; sylwadau ar y cynnydd o ran rheoli'r risg; asesiad ynghylch a yw effaith bosibl y risg yn cynyddu, yn lleihau neu'n sefydlog; pa mor gyflym mae'r risg yn debygol o effeithio; ac, os yw'n briodol, a oes cysylltiad â Datganiad Cadernedd TrC.

**CANLYNIADAU Covid-19**
Mae hyn yn dangos sut rydym wedi ymateb i Covid-19 a'r gwaith rydym yn ei wneud wrth ddod allan o'r pandemig er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw effaith yn y dyfodol.

| Enw'r Risg | Disgrifiad o'r Risg | Camau lliniaru | Cynnydd | Y cyflymder y gallai'r risg effeithio arno |
|---|---|---|---|---|
| **Covid-19 yn dychwelyd, o bosibl gydag amrywiolyn a allai fod yn her i boblogaeth sydd wedi'i brechu i raddau helaeth.** | Mae risg y gallai cyfradd heintio Covid-19 gynyddu ledled y Deyrnas Unedig gan effeithio ar y busnes wrth i weithwyr a chwsmeriaid fynd yn sâl, gan arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau fydd ar gael, faint sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac effeithiau ariannol o ganlyniad i hynny. | ✓ Mae'r hyn a ddysgwyd o'r achosion ym mis Mawrth 2020 wedi cyfrannu at gynlluniau parhad busnes, sy'n golygu bod modd paratoi'n fanylach.<br>✓ Mae systemau TG yn cael eu datblygu a'u profi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer gweithio o bell os bydd digwyddiad.<br>✓ Rydym yn parhau i fonitro ac addasu i'r sefyllfa genedlaethol. | Mae'r sefydliad wedi parhau i addasu i'r sefyllfa gymdeithasol ehangach, gan addasu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion teithwyr a'r llywodraeth.<br>Mae ein gweithlu'n dal ati i weithio'n dda o bell gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn mynd rhagddo heb darfu. Mae trefniadau ar waith i gefnogi ein gweithwyr ac i roi blaenoriaeth i'w lles a'u hanghenion. | Llai na 3 mis |
| **Rhwymedigaethau sy'n dod i'r amlwg yn sgil trosglwyddo'r gwasanaeth rheilffyrdd i TrC.** | Risg y gallai rhwymedigaethau cost ddod i'r amlwg yn Rheilffyrdd TrC, na ragwelwyd adeg y trosglwyddo. | ✓ Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi ac asesu rhwymedigaethau a allai ddod i'r amlwg drwy drosglwyddo'r gwasanaeth rheilffordd i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig. | Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i sicrhau bod y risgiau/rhwymedigaethau y mae TrC wedi'u caffael yn cael eu deall a'u cwblhau'n llawn. Disgwylir i asesiad cynhwysfawr gael ei gwblhau yn ystod chwarter cyntaf 2021-22. | Llai na 3 mis |
| **Methiant i ddatblygu er mwyn cwrdd â gofynion polisi.** | Risg nad yw TrC yn datblygu'n ddigonol er mwyn bodloni amcanion polisi ac anghenion Llywodraeth Cymru. | ✓ Mae'r Uwch Dîm Arwain yn parhau i fod yn gyfrifol am dwf a gallu'r sefydliad. Cynhelir adolygiadau rheolaidd ar gynllun y sefydliad i sicrhau adnoddau digonol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod anghenion Llywodraeth Cymru yn cael eu deall yn gynnar, er mwyn gallu dod o hyd i adnoddau. | Mae deialog rheolaidd wedi cael ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru i ddeall anghenion a gofynion y dyfodol, gyda thrafodaethau rheolaidd ar lefel uwch dîm ynghylch bodloni'r gofynion hyn.<br>Mae Bwrdd TrC yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd â'r Prif Weithredwr ynghylch ein datblygiad a'n heriau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol. | Llai na blwyddyn |
| **Ymgysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus.** | Risg nad yw partneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau rheoleiddio a diwydiant, yn ymgysylltu â TrC ar fentrau datblygu trafnidiaeth allweddol. | ✓ Mae'r berthynas ag awdurdodau rheoleiddio yn cael ei feithrin ar draws y sefydliad ar sawl lefel er mwyn cynnal yr ymgysylltiad. Mae'r tîm bysiau'n cynnal cysylltiad â'r diwydiant drwy'r cylch gwaith bysiau ac ar y rheilffyrdd drwy'r timau gwasanaethau a gweithrediadau rheilffyrdd. | Mae'r uwch dîm arwain yn rheoli perthnasoedd â chyfres o randdeiliaid allweddol mewn awdurdod a diwydiant fel mater o drefn.<br>Mae hyn yn arbennig o wir am weithrediadau bysiau, lle mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu ymgysylltiad. | Llai na 3 mis |
| **Gallai canlyniadau cytundebau masnach y DU yn y dyfodol gael effaith negyddol ar gadwyn gyflenwi a chaffael TrC.** | Bydd cytundebau masnach yn y dyfodol yn cael eu negodi gan Lywodraeth y DU, a allai arwain at ganlyniadau negyddol i gynnyrch y mae TrC yn eu caffael o'r tu allan i'r DU. | ✓ Ar ôl i Lywodraeth y DU gytuno â'r UE, sefydlwyd perthynas fasnachu newydd. Mae gwaith yn parhau i ddeall goblygiadau'r cytundeb hwn ac unrhyw newidiadau angenrheidiol a allai effeithio ar TrC. | Dros y flwyddyn ddiwethaf mae swyddogaeth y gadwyn gyflenwi wedi parhau i fonitro a chynllunio ar gyfer y DU yn gadael yr UE, a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2020. Rydym yn parhau i fonitro effeithiau cytundebau masnach newydd ar ein cadwyn gyflenwi ac yn ystyried trefniadau eraill lle bo angen. | Llai na blwyddyn |






# Llywodraethu


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 50 | Ein Bwrdd | 56 | Pwyllgorau'r bwrdd ac adroddiadau gan y cadeiryddion | 66 | Datganiad llywodraethu corfforaethol | 72 | Datganiad cydnerthedd |
| 74 | Datganiad Adran 172 | 78 | Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth | 82 | Adroddiad taliadau | 86 | Adroddiad y cyfarwyddwyr |
| 88 | Datganiad o gyfrifoldebau cyfarwyddwyr | | | | | | |

# Ein Bwrdd

Mae gan ein Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant rhwydwaith trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth a'r amcanion strategol a nodir yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

### Cyfarwyddwr Anweithredol

- **Scott Waddington**
  Cadeirydd
- **Sarah Howells**
  Cadeirydd, Pwyllgor Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- **Alison Noon-Jones**
  Cadeirydd, Pwyllgorau Pobl a Thaliadau
- **Nicola Kemmery**
  Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles
- **Alun Bowen**
  Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg
- **Vernon Everitt**
  Cadeirydd, Pwyllgor Prosiectau Mawr


### Cyfarwyddwyr Gweithredol

- **James Price**
  Prif Weithredwr
- **Heather Clash**
  Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethiant

### Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gennym chwe is-bwyllgor. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd.
Maent yn cynnwys:

- **Archwilio a Risg**
- **Cwsmeriaid a Chyfathrebu**
- **Iechyd, Diogelwch a Lles**
- **Prosiectau Newid Mawr**
- **Pobl**
- **Taliadau**





## Scott Waddington
### Cadeirydd

Yn wreiddiol o Abertawe ac wedi graddio o Brifysgol Reading, mae Scott wedi dal nifer o swyddi uwch yn y sector lletygarwch, yn bennaf ym maes marchnata diodydd a manwerthu tafarndai.

Am 17 mlynedd, bu'n Brif Weithredwr y bragdy a'r cwmni tafarndai o Gymru sy'n eiddo preifat, SA Brain a Co, lle bu'n arwain adolygiad cynhwysfawr o strategaeth gorfforaethol, gan ail-leoli brand Brains, buddsoddi'n drwm mewn ehangu stad y dafarn a goruchwylio'r gwaith o greu menter ar y cyd i ailddatblygu hen safle'r bragdy yng Nghei Canolog.

Scott oedd Cadeirydd CBI Cymru yn 2010 ac yn 2011. Ef oedd Comisiynydd Cymru ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau am 5 mlynedd, o fis Ebrill 2012 ymlaen, ac ef oedd cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Ar hyn o bryd, Scott yw Cadeirydd Clwb Busnes Caerdydd ac mae'n Llywodraethwr ar Fwrdd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



## Sarah Howells
### Cyfarwyddwr Anweithredol

Wedi'i magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae Sarah ar hyn o bryd yn Bennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid Orangebox, busnes llwyddiannus yng Nghymru sy'n dylunio ac yn cynhyrchu dodrefn arloesol ar gyfer marchnad fyd-eang.

Mae hi'n gyfrifol am arwain y tîm gweithrediadau cwsmeriaid rhyngwladol, gwella profiad y gwasanaeth, darparu a thrawsnewid yr holl systemau rheng flaen yn barhaus, gan gynnwys systemau cynllunio Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, Gwerthu, Maes a Thrafnidiaeth.

Mae gan Sarah dros 20 mlynedd o brofiad ym maes gwasanaeth i gwsmeriaid ar draws amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae hi wedi dal sawl uwch swydd mewn sefydliadau mawr adnabyddus yn y DU a Seland Newydd, gan gynnwys Virgin Media, Vodafone, Les Mills Clothing a Mercandising a 2 Degrees Mobile. Bu hefyd yn arwain tîm o dros 1,000 o bobl i ddarparu cymorth gwasanaeth pan oedd yn Bennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid i Tesco.

Mae gan Sarah enw da am ddatblygu pobl, gwella gallu digidol a sicrhau newid trawsnewidiol.





## Alison Noon-Jones
### Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae gan Alison Noon-Jones 35 mlynedd o brofiad ym maes Adnoddau'r Gweithlu, 25 mlynedd ar lefel bwrdd cenedlaethol a rhyngwladol, o fewn amrywiaeth o sefydliadau proffil uchel corfforaethol, gan gynnwys y Ganolfan Invacare, y General Motors Acceptance Corporation a Airbus Defence and Security. Mae hi wedi gweithio ledled Ewrop a hefyd yn y Dwyrain Canol.

Ar hyn o bryd, Alison yw Is-lywydd Pobl a Diwylliant Leidos UK ac Ewrop. Mae hi'n gyfrifol am arwain tîm o 25 o weithwyr AD proffesiynol, sy'n darparu gwasanaethau Adnoddau Dynol i gefnogi'r busnes gwerth £500m sy'n cynnwys 1,200 o weithwyr a chontractwyr mewn 11 o safleoedd ledled y DU ac Ewrop. Ymunodd Alison â Leidos yn 2016 a chyn ymgymryd â'r rôl hon, hi oedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y rhaglen LCST, rhaglen logisteg amddiffyn gwerth £8bn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae Alison wedi treulio llawer iawn o'i gyrfa ym maes trawsnewid a rhaglenni newid strategol ar raddfa fawr ym maes adnoddau dynol, ac mae'n ffynnu ar feithrin timau i sicrhau'r perfformiad a'r ddarpariaeth orau bosib. Mae hi'n gydweithredol ac yn meithrin partneriaethau cryf ar draws rhaglenni a busnesau.

Mae gan Alison radd mewn ieithoedd modern o Brifysgol Abertawe, mae'n Gymrawd o'r CIPD ac mae'n Fentor ac yn Hyfforddwr Gweithredol cymwys.



## Nicola Kemmery
### Cyfarwyddwr Anweithredol

Gyda phrofiad helaeth dros 28 mlynedd, Nicola yw Pennaeth Iechyd a Diogelwch Dŵr Cymru, lle bu'n gweithio ers symud i Gymru yn 2010.

Ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn y diwydiant dŵr, mae Nicola yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain strategaeth iechyd, diogelwch a gwella Dŵr Cymru. Rhoddodd y dull newydd hwn ar waith i helpu'r sefydliad i gadw ac ymestyn ei achrediad OHSAS 18001 ac wedyn cael statws ISO45001. Mae hi'n arwain tîm o weithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol sy'n darparu amrywiaeth o swyddogaethau cynghori a llywodraethu sy'n cynorthwyo dros 3,500 o weithwyr a'u partneriaid contract.

Mae Nicola yn weithiwr iechyd a diogelwch siartredig a dechreuodd ei bywyd gwaith yn Swydd Efrog. Arferai fod yn Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Grŵp Kelina (Gwasanaethau Dŵr Swydd Efrog) am 14 mlynedd. Yma, dyfeisiodd a gweithredodd systemau rheoli iechyd a diogelwch a chynlluniau gwella'r Grŵp.

Bu Nicola yn Aelod etholedig o Gyngor y Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol am chwe blynedd ac mae hi wedi bod yn aelod gweithgar o Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Dŵr y Deyrnas Unedig ers 21 o flynyddoedd.



## Alun Bowen
**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Ac yntau wedi graddio mewn gwyddorau naturiol yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, bu Alun yn gweithio i KPMG am 37 o flynyddoedd, gan gyflawni nifer o swyddi ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghaerdydd, Llundain, Hong Kong, Sydney a Kazakhstan.

Yn wreiddiol o Landeilo, Alun oedd prif ymgynghorydd cynllunio busnes Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Roedd yn Bennaeth Personél yn KPMG yn Llundain cyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros 600 o bobl yn rhanbarth Canol Asia y busnes.

Yn gyn Gadeirydd Busnes yn y Gymuned yng Nghymru, roedd Alun yn aelod o Bwyllgor Archwilio Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac yn aelod o gyngor y Prince's Trust yng Nghymru. Mae Alun yn awr hefyd yn cadeirio Pwyllgor Archwilio Severstal, cwmni dur cwbl integredig mwyaf Rwsia.



## Vernon Everitt
**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Gyda thros 40 mlynedd o brofiad ar draws amrywiaeth o sectorau, mae Vernon yn Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg yn Trafnidiaeth Llundain (TfL), ac ymunodd â TrC fel Cyfarwyddwr anweithredol ym mis Medi 2019.

Mae'n gyfrifol am roi cwsmeriaid wrth galon gweithrediadau TfL, gan edrych ar sut gall technoleg a data ddarparu siwrneiau gwell, yn ogystal â chefnogi a chreu partneriaeth â sector technoleg ffyniannus prifddinas Lloegr a sicrhau cynlluniau TfL ar gyfer dyfodol hirdymor Llundain.

Bu Vernon yn arwain strategaeth farchnata a chyfathrebu lwyddiannus ar draws y Llywodraeth a'r diwydiant trafnidiaeth ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 Llundain, yr ymgyrch integredig fwyaf erioed o'i bath.

Cyn ymuno â TfL, bu Vernon yn gweithio i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Banc Lloegr mewn amrywiaeth o swyddogaethau bancio, rheoleiddio, corfforaethol a chyfathrebu. Mae ar Fwrdd Amgueddfa Drafnidiaeth Llundain.



## James Price
**Prif Weithredwr**

Penodwyd James, cyn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru, yn Brif Weithredwr TrC ym mis Ionawr 2018 ar ôl bod yn Gadeirydd yn ystod y cyfnod sefydlu.

Dechreuodd James ar ei yrfa ym maes contractio peirianneg sifil yn wreiddiol. Ac yntau'n economegydd proffesiynol, mae wedi gweithio ar draws y Deyrnas Unedig gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chydag asiantaethau sy'n eiddo i'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr.

Tan ddiwedd 2017, ef hefyd oedd y swyddog cyfrifyddu ychwanegol ar gyfer yr Economi, Trafnidiaeth, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, gan arwain tîm o tua 2,500 o weision sifil.

Mae James wedi bod yn gyfrifol am gyflenwi seilwaith i Lywodraeth Cymru er 2007, yn gyntaf fel Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac yna fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol. Erbyn hyn, mae'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd Trafnidiaeth Cymru a stiwardiaeth briodol dros arian cyhoeddus.



## Heather Clash
**Cyfarwyddwr Gweithredol,**
**Cyllid a Llywodraethu**

Ar ôl byw, astudio a gweithio yng Nghymru am dros 26 o flynyddoedd, ymunodd Heather â TrC ym mis Gorffennaf 2018. Mae hi'n weithiwr proffesiynol profiadol ym maes cyfrifyddu, ac astudiodd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi wedi gweithio ym maes cyllid ar hyd ei gyrfa.

Mae Heather yn arbenigo mewn rheolaeth a rheoli portffolios contractau allanol a swyddogaethau corfforaethol mewn sefydliadau corfforaethol mawr. Cyn ymuno â Trafnidiaeth Cymru, bu'n gyfarwyddwr cyllid mewn amrywiaeth o sefydliadau mawr gan gynnwys Is-adran Gwasanaethau TG Capita Group Plc a Gwerthu a Marchnata yn y Deyrnas Unedig i Compass yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Mae Heather yn aelod o uwch dîm arwain TrC ac mae'n gyfrifol am gynllunio a strategaeth ariannol, dadansoddi perfformiad a risg y sefydliad, goruchwylio ei swyddogaeth llywodraethu a chyllid, yn ogystal â'r holl reolaethau ariannol mewnol ac archwilio. Mae Heather hefyd yn gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

# Pwyllgorau'r bwrdd ac adroddiadau gan y cadeiryddion

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio system rheoli risg TrC, ei reolaeth fewnol, adroddiadau ariannol ac anariannol a'i gyfrifoldebau o ran y Gymraeg.

Pan ysgrifennais fy adroddiad y llynedd, nodais nifer o faterion, ar wahân i'n gwaith rheolaidd, y byddai'r pwyllgor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, a nodaf isod y cynnydd a wnaed. Mae'n anochel bod nifer o heriau newydd wedi codi hefyd, a byddaf yn rhoi sylwadau ar y rhain yn ddiweddarach.



**Alun Bowen**
Cadeirydd,
y Pwyllgor Archwilio a Risg

**Blaengarwch**

- Goruchwylio cynlluniau'r rheolwyr i wella amddiffynfeydd TrC yn erbyn ymosodiad seiberddiogelwch posibl
- Drafftio Polisi Archwilio a Sicrwydd ac ymgynghori â chyfranddeiliad a rhanddeiliaid TrC
- Ategu cynlluniau rheolwyr i wella fframwaith rheoli risg TrC, yn enwedig yng ngoleuni caffael Llinellau Craidd y Cymoedd
- Goruchwylio cynlluniau'r rheolwyr ar gyfer adolygu prisio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd
- Ategu datblygiad parhaus y swyddogaeth archwilio mewnol

**Sylw**

- Mae cynnydd enfawr wedi cael ei wneud i gryfhau amddiffynfeydd seiberddiogelwch TrC yn ystod y flwyddyn, ac roedd y sefyllfa'n foddhaol erbyn i TrC ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu'r gwasanaeth rheilffyrdd. Mae sylw'n cael ei roi yn awr i sicrhau bod yr un safonau diogelwch yn bresennol yng ngweithrediadau estynedig TrC
- Dechreuodd y pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd, ymgynghori ar ei bolisi archwilio a sicrwydd drafft ar 1 Medi 2021
- Dechreuodd y gwaith hwn, ond wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi daeth yn fwyfwy amlwg ei bod yn debygol y byddai TrC yn dod yn gyfrifol am weithrediadau rheilffyrdd ac, o'r herwydd, roedd angen dull gwahanol o wella'r fframwaith rheoli risg. Rhoddir sylwadau pellach ar hyn isod
- Mae prisiad newydd wedi cael ei ymgorffori yn natganiadau ariannol TrC ac mae sylwadau ar gyfraniad y pwyllgor archwilio a risg wedi eu nodi isod
- Mae'r model sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol wedi gweithio'n dda o ystyried cymhlethdod cynyddol gweithrediadau TrC. Mae'r cymhlethdod hwn wedi cynyddu eto ac felly bydd y model yn dal i gael ei adolygu

### Adrodd

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ariannol TrC a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol hwn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Mae'r Pwyllgor hefyd yn herio tybiaethau ac amcangyfrifon y tîm rheoli wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Mae crynodeb isod o'r materion perthnasol roeddem wedi eu hystyried yn ein trafodaethau:

| Maes ffocws | Gwaith sydd wedi'i wneud | Casgliad/camau sydd wedi'u cymryd |
|---|---|---|
| **TrC a Keolis Amey Wales Cymru**<br>Terfynu'r contract rhwng TrC a Keolis Amey Wales Cymru a arweiniodd at TrC yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r gwasanaeth rheilffyrdd o 7 Chwefror 2021 ymlaen. | Adolygodd y pwyllgor y trefniadau terfynu y cytunwyd arnynt gyda Keolis Amey Wales Cymru a thrafododd gyda'r rheolwyr ar ba sail y cafodd yr asedau a'r rhwymedigaethau eu cynnwys yn y datganiadau ariannol a sut rhoddwyd cyfrif am unrhyw rwymedigaeth newydd a pharhaus. | Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y trefniadau sy'n ymwneud â therfynu'r contract gyda Keolis Amey Wales Cymru a chyfrifyddu'r asedau a'r rhwymedigaethau a brynwyd yn briodol. |
| **Llinellau Craidd y Cymoedd**<br>Rhoddodd y rheolwyr y cynlluniau ar waith i adolygu'r polisi cyfrifyddu ar gyfer prisio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd i fod yn unol â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu prisio'r asedau gan ddefnyddio'r dull Costau Amnewid Dibrisiedig. | Cyflogwyd Atkins, cwmni arolygu meintiau ac ymgynghori, gan y rheolwyr i gynorthwyo a chynghori wrth baratoi prisiad o asedau Llinellau Craidd y Cymoedd TrC yn unol â'r dull Costau Amnewid Dibrisiedig. Darparwyd llawer o'r wybodaeth angenrheidiol gan Network Rail. Fodd bynnag, lle nad oedd llawer o wybodaeth ar gael gan Network Rail, defnyddiodd Atkins ei brofiad yn y diwydiant rheilffyrdd i ddarparu gwybodaeth briodol<br><br>Cafodd y pwyllgor, yn ogystal â'i drafodaethau gyda'r rheolwyr, gyfle i drafod yn uniongyrchol gydag Atkins ei farn ar y prisiad a'r sail ar gyfer cynghori'r rheolwyr a'u cynorthwyo i baratoi'r prisiad. | Roedd y pwyllgor, yn sgil ei drafodaethau gyda'r rheolwyr ac Atkins, yn fodlon â'r broses brisio.<br><br>Roedd hefyd yn fodlon bod proses briodol ar waith i ddiweddaru'r prisiad yn rheolaidd, o ystyried y gwelliannau sylweddol i'r asedau sy'n digwydd drwy broses trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. |
| **Covid-19**<br>Roedd pandemig Covid-19 a'r effeithiau economaidd cysylltiedig yn gofyn am adolygiad rheolaidd o dybiaeth busnes gweithredol TrC. | Drwy gydol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn, adolygodd y pwyllgor ddadansoddiad y rheolwyr o'r materion ariannol sy'n deillio o'r newidiadau mewn gweithgarwch economaidd yn ystod y cyfnodau clo a'r cyfnodau atal byr amrywiol; y goblygiadau llif arian cysylltiedig; a chanlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r dystiolaeth o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. | Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y rheolwyr wedi ystyried y digwyddiadau a'r amodau a allai achosi ansicrwydd materol, ac mae'n cytuno â chasgliad y rheolwyr nad yw'r amrywiaeth o ganlyniadau posibl yn bwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp i barhau fel busnes hyfyw, yn benodol, o ganlyniad i'r cymorth parhaus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. |

| Maes ffocws | Gwaith sydd wedi'i wneud | Casgliad/camau sydd wedi'u cymryd |
|---|---|---|
| **Datganiad Cydnerthedd** Mae'r Datganiad Cydnerthedd yn nodi barn y cyfarwyddwyr am gydnerthedd TrC yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy o ran yr heriau mae TrC, ym marn y cyfarwyddwyr, yn debygol o'u hwynebu, a'i allu i wrthsefyll effeithiau ariannol amcangyfrifedig yr heriau hynny. | Trafododd y Pwyllgor gyda'r rheolwyr y gwaith a wnaeth wrth baratoi'r Datganiad Cydnerthedd ac yn benodol y broses benderfynu ar gyfer penderfynu ar y senarios straen a ddewiswyd i sefydlu cydnerthedd TrC. | Gan nad oes canllawiau ar hyn o bryd ar gyfer paratoi Datganiad Cydnerthedd, na chynseiliau chwaith, cytunodd y pwyllgor â'r rheolwyr fod y dull a fabwysiadwyd yn gyson ag ysbryd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Syr Donald Brydon ym mis Rhagfyr 2019 a'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth EM ym mis Mawrth 2021. |
| **Datgeliadau ar y newid yn yr hinsawdd** Mae'r datgeliadau yn y Datganiad datagarboneiddio trafnidiaeth yn briodol ac yn gyson â gofynion TCFD. | Trafododd y Pwyllgor gyda'r rheolwyr y datgeliadau a wnaed yn yr Adroddiad blynyddol ar ôl darllen ac ystyried yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan TCFD. | Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y datgeliadau ar y newid yn yr hinsawdd a wnaed yn yr Adroddiad blynyddol yn briodol. |
| **Adroddiad blynyddol:** Yn ei gyfanrwydd, rhaid i'r Adroddiad blynyddol fod yn deg; yn gytbwys ac yn ddealladwy er mwyn ei wneud yn berthnasol i ddarllenwyr. | Cynhaliwyd cyfarfodydd paratoi gyda'r rheolwyr i bennu fformat yr Adroddiad blynyddol. Cafodd drafft o'r Adroddiad Blynyddol ei adolygu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor. | Roedd y pwyllgor yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. |

## Archwilio allanol

Mae'r Pwyllgor yn rhoi pwys mawr ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr archwiliad a gynhaliwyd gan ei archwilydd allanol KPMG. Wrth asesu ansawdd ac effeithiolrwydd, mae'r pwyllgor yn edrych ar wrthrychedd, sgeptigaeth broffesiynol, annibyniaeth a pherthynas y tîm archwilio â'r rheolwyr.

Mae Polisi Archwilio a Sicrwydd drafft TrC yn nodi barn y pwyllgor ar y cwmpas a'r sicrwydd sydd ei angen gan ei archwilydd allanol yn y dyfodol, sydd ar gael yn y Polisi Archwilio a Sicrwydd Drafft. Mae hefyd yn nodi amserlen a gofynion y pwyllgor ar gyfer ei archwilydd allanol, a fydd yn sail i'r tendr a fydd yn barod ar ddechrau 2022.

"Mae angen rheoli risg yn effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol a'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol."

Yn ogystal â'r gwerthusiad blynyddol o berfformiad yr archwilwyr allanol, mae'r pwyllgor yn cynnal asesiad parhaus o ansawdd archwilio drwy:

- ✓ drafod a chytuno ar gwmpas yr archwiliad cyn ei ddechrau a'r prif feysydd mae'r archwiliad yn canolbwyntio arnynt
- ✓ trafod cywirdeb (perthnasedd) gyda KPMG ar gyfer y gwallau cyfrifyddu a fydd yn dod i sylw'r Pwyllgor, a'r symiau y byddai angen eu haddasu er mwyn i'r datganiadau ariannol gyflwyno darlun teg.
- ✓ trafod gyda KPMG ei farn am y penderfyniadau a wnaed gan reolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol a lle gallai'r farn hon fod o fewn rhychwant derbyniol, o'r ceidwadol i'r ymosodol.

Mae Rees Batley o KPMG wedi bod yn Uwch Archwilydd Statudol am y ddwy flynedd ddiwethaf ac rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd, ar wahân i'r rheolwyr. Rwyf hefyd yn trafod gyda KPMG allbwn yr adolygiadau o'u gwaith a gynhelir gan y rheoleiddiwr ar sut mae ei argymhellion a gwersi a ddysgwyd wedi cael eu hymgorffori yn ei gynlluniau archwilio.

Ym mhob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn cael: yr wybodaeth ddiweddaraf am waith KPMG; cadarnhad o'i annibyniaeth barhaus; a'i ystyriaethau – er enghraifft, materion rheoleiddiol neu gyfreithiol a allai effeithio ar ddatganiadau ariannol TrC. Ar ddiwedd y flwyddyn, ceir trafodaeth fanwl am ganfyddiadau archwilio KPMG, gan gynnwys unrhyw gamddatganiad archwilio heb ei gywiro sy'n codi o'r archwiliad. Nid oedd unrhyw gamddatganiad archwilio heb ei gywiro o bwys ansoddol na meintiol, ym marn y pwyllgor, yn mynnu bod y datganiadau ariannol yn cael eu haddasu.

Ffioedd archwilio KPMG ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 oedd £80,000 (2020: £50,000). Ffioedd nad oedd yn ymwneud ag archwilio, a gafodd eu cymeradwyo yn unol â pholisi ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio cyhoeddedig TrC, oedd £15,000 (2020: £36,000).

## Archwilio mewnol

Mae'r model ar gyfer archwilio mewnol yn parhau i ddatblygu. Bwriedir i'r model a gontractiwyd allan yn rhannol, sydd wedi gweithio'n effeithiol hyd yma, barhau hyd y gellir rhagweld. Mae'r model, sy'n cynnwys y Pennaeth Archwilio Mewnol yn goruchwylio gwaith pobl ar secondiad o Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliadau penodol a defnyddio arbenigwyr i adolygu materion fel seiberddiogelwch, yn hyblyg ac, yn fy marn i, mae'n diwallu anghenion sefydliad sy'n esblygu ar hyn o bryd.

Cafodd y cynllun ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ei gwblhau'n foddhaol gan ganolbwyntio'n benodol ar gaffael safonol ac ansafonol, hawliadau cyllid Ewropeaidd, cynllunio Brexit, cyllid, yswiriant GDPR, arlwyo a'r gyflogres.

Mae gan y swyddogaeth archwilio mewnol raglen uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, sydd wedi ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor yn cydnabod bod caffael y cyfrifoldeb am weithredu a darparu'r gwasanaeth rheilffordd yn estyniad sylweddol o'r cwmpas y bydd ei angen. Yn unol â hynny, mae pawb yn cydnabod bod y cynllun cymeradwy yn gynllun deinamig. Bydd rhai meysydd yn sefydlogi'n gynt nag eraill ac felly byddant yn cael eu hystyried yn y cynllun.

Yn ogystal, bydd angen hyblygrwydd er mwyn i adnoddau archwilio mewnol, os oes angen, fod ar gael mewn perthynas â meysydd lle gallai fod angen ffocws penodol wrth i faterion gael eu nodi.

## Risg a'r amgylchedd rheoli

Mae rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o strategaeth a gweithrediadau TrC. Mae canfod risgiau'n gywir ac yn amserol, ac asesu a rheoli risgiau yn sgil hynny, yn helpu i wneud penderfyniadau ar bob lefel reoli ac yn sicrhau bod TrC yn gallu cyflawni ei nodau strategol a bodloni ei ddangosyddion perfformiad allweddol.

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i wella ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r pwyllgor a'r Bwrdd a gwnaed cynnydd tuag at weithredu system cymorth rheoli risg i hwyluso'r gwaith o oruchwylio risg. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, mae symud o oruchwylio contractau dros y gweithredwr rheilffyrdd i fod yn gyfrifol ac yn atebol am y gwasanaeth yn newid enfawr i TrC. Bydd yn cymryd amser i sefydlu fframwaith rheoli risg diwygiedig yn iawn, a fydd yn gofyn am newid diwylliant yn y sefydliad ehangach.

Mae'r tîm rheoli wedi datblygu ei syniadau ar gyfer model risg "tair llinell amddiffyn" cliriach ac, fel rhan o hyn, mae Leyton Powell, sy'n aelod newydd o uwch dîm arwain TrC, ar ôl cael ei gyflogi'n flaenorol yn y fasnachfraint rheilffyrdd, yn ymgymryd â rôl y Prif Swyddog Risg i bob pwrpas, gyda llinell adrodd i'r Prif Weithredwr a minnau.

## Trosolwg o'r Gymraeg

Mae'r Pwyllgor wedi cael cyfrifoldeb goruchwylio ar ran y Bwrdd i sicrhau bod TrC yn cofleidio'r Gymraeg ac yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran yr iaith. Mae TrC yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Chomisiynydd y Gymraeg, drwy gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, ac mae'n braf gweld bod Comisiynydd y Gymraeg yn realistig o ran cydnabod mai defnyddio gwell technoleg fydd y ffordd orau o ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i "docynnau oren", nad oes gan TrC reolaeth drostynt ac a fydd yn dod i ben yn ystod y blynyddoedd nesaf. Wedi dweud hynny, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn awyddus i sicrhau bod TrC yn cyflawni'r ymrwymiadau mae wedi eu gwneud i weithredu'n llawn ar y materion mae ef a Llywodraeth Cymru wedi cytuno arnynt, a bod y pwyllgor yn herio'r rheolwyr yn rheolaidd ynghylch ei gynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau hyn.

## Edrych i'r dyfodol

Mae gan y pwyllgor y cynlluniau a ganlyn ar ei agenda ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022, yn ogystal â'i fusnes rheolaidd:

### Blaengarwch

- Cytuno ar y Polisi Archwilio a Sicrwydd a'i roi ar waith ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid sy'n berchen ar TrC
- Ategu cynlluniau rheolwyr i wella fframwaith rheoli risg TrC, yn enwedig yng ngoleuni cyfrifoldebau newydd TrC mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth rheilffyrdd
- Ategu datblygiad parhaus y swyddogaeth archwilio mewnol
- Goruchwylio'r broses dendro ar gyfer archwilio allanol a fydd yn digwydd yn ystod hydref 2021

### Sylw

"Lansiodd y pwyllgor ei ymgynghoriad ar ei Bolisi Archwilio a Sicrwydd drafft yr un pryd ag y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, ac mae'n disgwyl cwblhau'r ymgynghoriad yn hydref 2021"

"Bydd angen i'r swyddogaeth risg uwch, o dan arweinyddiaeth Leyton Powell, feddu ar ddull gweithredu cyffredin ar draws sefydliad ehangach TrC a dull gweithredu integredig ar gyfer pob math o risg. Nid yw'r pwyllgor yn tanbrisio'r newid diwylliannol sy'n ofynnol wrth weithredu dull o'r fath sy'n debygol o herio'r "ffordd mae pethau wedi cael eu gwneud yn y gorffennol""

"Bydd angen asesu ac ategu natur archwilio mewnol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen ar TrC"

"Yn unol â Pholisi Archwilio a Sicrwydd drafft TrC, bydd proses dendro archwilio allanol yn cael ei gynnal yn 2021. Bydd y pwyllgor yn gwbl gyfrifol am wneud argymhelliad i'r Bwrdd ar gyfer y cwmni a fydd yn archwilydd allanol TrC ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022"

## Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu



**Sarah Howells**
Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwylio strategaeth cwsmeriaid TrC a'i gynlluniau cyflawni. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol TrC ynghyd ag adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Un o brif elfennau'r pwyllgor yw sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu rhoi wrth galon popeth a wnawn a sicrhau bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r trawsnewid mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

### Uchafbwyntiau 2020/21

- ✓ Adolygu a monitro adborth gan deithwyr o ran teithio'n ddiogel drwy gydol pandemig Covid-19 a lansio'r ymgyrch 'teithio'n saffach'. Fe wnaethom sicrhau bod pwyntiau dysgu allweddol yn cael eu nodi a bod camau gweithredu addas yn cael eu cymryd wedyn
- ✓ Datblygu ymgyrch integredig gynhwysfawr i'n helpu i adfer y galw am drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru
- ✓ Monitro'r cynllun peilot "fflecsi" ar gyfer teithio sy'n ymateb i'r galw, gan sicrhau gwelliannau parhaus a sicrhau bod lefelau uchel o wasanaeth yn cael eu cynnig
- ✓ Craffu ar fetrigau perfformiad gweithredol, gan sicrhau bod mentrau gwella addas yn cael eu rhoi ar waith lle bo hynny'n berthnasol
- ✓ Monitro'r gwaith o gyflawni nifer o fentrau gwella digidol fel y gwiriwr capasiti rheilffyrdd a'r adnodd archebu lle
- ✓ Monitro perfformiad trawsnewid y Metro, gan roi sylw penodol i ymgysylltu â'r gymuned a pherfformiad gwasanaethau yn lle trenau. Lle nodwyd gwelliannau, fe wnaethom sicrhau bod camau'n cael eu cymryd
- ✓ Lansio ein Panel Cynghori a chanolbwyntio ar gryfhau ein hymgysylltiad â'r gymuned yn ehangach.

### Blaenoriaethau 2021/22

- Parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn teithio wrth i ni symud o bandemig Covid-19 a thu hwnt
- Adolygu a monitro rhaglenni buddsoddi mewn gorsafoedd i sicrhau eu bod yn gwella'r profiad i gwsmeriaid
- Monitro'r gwaith o ddatblygu a darparu cynlluniau peilot ar gyfer y genhedlaeth nesaf o docynnau ledled Cymru
- Adolygu a monitro datblygiad tocynnau aml-foddol a chynnyrch tocynnau. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o brisiau tocynnau, datblygu cynlluniau peilot tocynnau aml-fodel ac adolygiad o docynnau aml-foddol
- Monitro datblygiad ein system cyswllt cwsmeriaid a'r dechnoleg gysylltiedig er mwyn darparu gwybodaeth a chymorth yn well i'n cwsmeriaid yng Nghymru a rhanbarthau'r gororau
- Sicrhau bod ein gwasanaethau trafnidiaeth "fflecsi" sy'n ymateb i'r galw yn cael eu datblygu ymhellach ynghyd â sicrhau bod gwelliannau technoleg arloesol yn cael eu darparu i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- Craffu ar berfformiad gweithredol ynghyd â monitro gwasanaethau parhaus yn lle'r trenau ar y Metro.

## Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae sicrhau bod gweithwyr, contractwyr a chwsmeriaid yn aros yn ddiogel ac yn iach yn un o brif elfennau'r polisi iechyd, diogelwch a lles.

Mae ein Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn gweithredu fel corff llywodraethu a chorff galluogi i wneud yn siŵr bod strategaethau iechyd, diogelwch a lles mewn grym ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter.



**Nicola Kemmery**
Cadeirydd

### Uchafbwyntiau 2020/21

- ✓ Rheoli'r risgiau iechyd a diogelwch newydd sy'n deillio o Covid-19 yn effeithiol. Canolbwyntiwyd yn benodol ar atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau profiad teithio diogel i gwsmeriaid a gweithwyr
- ✓ Gweld gwelliannau parhaus o ran perfformiad iechyd a diogelwch ar draws gweithgareddau TrC. Lle bu digwyddiadau, naill ai o fewn TrC neu'r diwydiant rheilffyrdd ehangach, mae pwyntiau dysgu allweddol wedi cael eu nodi a chamau gwella addas wedi cael eu cymryd
- ✓ Sicrhau bod swyddogaethau a thimau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i TrC gyda chymorth i weithwyr newydd, gan gynnwys y gwasanaethau arlwyo a glanhau
- ✓ Arsylwi'r gwaith o roi amrywiaeth o gynlluniau gwella iechyd, diogelwch a lles ar waith yn effeithiol, gan gynnwys:
  - diwylliant diogelwch a gwreiddio'r 'Egwyddorion Arbed Bywyd' yn effeithiol
  - troseddau, tresmasu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodiadau
  - rheoli risg croesfannau rheilffordd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y newidiadau a gyflwynir gan waith ar Linellau Craidd y Cymoedd
  - rheoli blinder a Signalau wedi eu Pasio'n Beryglus (SPADs)
  - paratoi am y gaeaf a rheoli llystyfiant
  - iechyd a lles galwedigaethol – gyda threfniadau newydd ar gyfer gweithio gartref
  - cymorth i weithwyr i gynnal iechyd meddwl a llesiant da.

### Blaenoriaethau 2021/22

- Parhau i fonitro perfformiad iechyd a diogelwch drwy'r sefydliad a sicrhau ein bod ni'n monitro perfformiad ein contractwyr yn effeithiol
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus a sicrhau bod timau'n nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i reoli risgiau ac atal anafiadau ac afiechyd
- Adolygu canfyddiadau arolygon diwylliant diogelwch gweithwyr a sicrhau bod gweithwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â'r holl swyddogaethau
- Monitro'r trefniadau sydd ar waith i gynyddu ein gwasanaethau'n ddiogel a sicrhau bod cynlluniau addas ar waith i ddefnyddio cyfleusterau'r swyddfa a'r depos newydd yn ddiogel
- Cefnogi arweinyddiaeth iechyd a diogelwch gweladwy, gan gynnwys teithiau diogelwch i Gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr, sesiynau briffio iechyd a diogelwch staff a rhannu'r hyn a ddysgwyd
- Sicrhau bod gan y busnes brosesau effeithiol ar waith i reoli iechyd, diogelwch a lles wrth i'r sefydliad ddatblygu ac ysgwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol
- Dysgu o gyfranogiad rhwydweithiau a grwpiau allanol wrth i weithwyr chwarae rhan fwy gweithredol wrth ymgysylltu'n allanol a hybu safonau iechyd a diogelwch rheilffyrdd.

## Y Pwyllgor Prosiectau Newid Mawr

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Newid Mawr yn gyfrifol am sicrhau bod y tîm gweithredol yn canolbwyntio'n gadarn ar ddiogelwch ym mhob agwedd ar ddylunio a chyflawni prosiectau.

Mae'r pwyllgor yn monitro'r gwaith o gyflawni'r prosiect ar ran bwrdd TrC; gan ddeall a herio'r rheolaethau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y tîm gweithredol ar gyfer cyflawni a rheoli risg prosiectau cyfalaf mawr a phrosiectau eraill yn effeithiol.



**Vernon Everitt**
Cadeirydd

### Uchafbwyntiau 2020/21

- ✓ Archwilio'r gwaith o ddylunio a chyflwyno systemau a rheolaethau effeithiol sy'n rheoli cylch oes prosiectau o'r dechrau i'r diwedd
- ✓ Sefydlu sut mae rheolwyr gweithredol yn dyrannu atebolrwydd clir a rheoli, adrodd ac uwchgyfeirio newidiadau i broffil risg prosiectau
- ✓ Herio'r rheolwyr i sicrhau annibyniaeth y Swyddfa Rheoli Prosiectau o ran cyflawni prosiectau
- ✓ Adolygu cynnydd ar drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn rheolaidd, datblygiadau mawr sy'n effeithio ar wasanaethau bysiau a rhai prosiectau eraill
- ✓ Adolygiad lefel uchel cychwynnol o agwedd y tîm gweithredol tuag at gynnal a chadw ac adnewyddu asedau'n effeithiol.

### Blaenoriaethau 2021/22

- Ffocws parhaus ar ddylunio a darparu diogel
- Monitro pa mor effeithiol mae systemau a rheolaethau ar gyfer cylch bywyd prosiect o'r dechrau i'r diwedd a rheoli risg yn cael eu rhoi ar waith gan y tîm gweithredol
- Monitro datblygiad ac aeddfedrwydd y Swyddfa Rheoli Prosiectau
- Monitro cynnydd o ran cyflawni prosiectau penodol – gan gynnwys prosiectau Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a bysiau – a sicrhau bod effaith y pandemig, os o gwbl, ar ddyddiadau a chostau cyflawni yn cael ei hasesu'n llawn
- Deall sut bydd cynlluniau ar gyfer cyflawni, gan gynnwys y rhaglen cynnal a chadw ac adnewyddu, yn gwella'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol.

# Y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn canolbwyntio'n ddiwyd ar faterion sy'n cefnogi ein prif flaenoriaeth – cadw ein pobl yn ddiogel, mewn cysylltiad â'i gilydd ac – yn seiliedig ar adborth – ymgysylltu'n helaeth.



**Alison Noon-Jones**
Cadeirydd

## Ein gwaith yn 2020/21

Mae ein tîm pobl wedi bod yn ystwyth ac yn rhagweithiol o ran symud staff yn gyflym ac yn ddi-dor o ddechrau pandemig Covid-19 a sefydlu egwyddorion dynamig a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi cefnogi parhad busnes ac, er gwaetha'r tarfu, gwasanaeth effeithlon i gwsmeriaid.

Rydym wedi tyfu yn sgil trawsnewid ar raddfa fawr i broffil cenedlaethol y gweithlu. Mae ein poblogaeth sy'n dod yn fwyfwy amrywiol erbyn hyn yn cynnwys staff glanhau a gweithwyr cymorth eraill, ac rydym wedi bod wrth ein bodd yn eu croesawu i'r sefydliad.

Mae ein strategaeth pobl yn seiliedig ar weledigaeth o arferion cyflogaeth rhagorol. Rydym yn trin gweithwyr gydag urddas, tegwch a pharch, gan ganolbwyntio ar anghenion y busnes ar yr un pryd.

Mae adolygiad trylwyr a pharhaus o'n polisïau a'n prosesau yn ystod y flwyddyn wedi sicrhau, er mai dros y we y rhoddwyd yr holl weithrediadau ar y safle ar waith, bod gweithwyr newydd a throsglwyddeion wedi cael croeso cynhwysfawr a chefnogol i Grŵp TrC.

Rydym yn cydnabod bod newidiadau i'r amgylchedd gwaith ffisegol hefyd wedi cael effaith aruthrol ar anghenion seicolegol a lles meddyliol ein staff. Rhoddwyd sylw i hyn yn rhagweithiol a bydd yn parhau fel rhan o'n dyletswydd gofal fel cyflogwr.

## Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y dyfodol?

Bydd diogelwch gweithwyr a chwsmeriaid bob amser yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn parhau i gymryd camau beiddgar ond rhagofalus. A ninnau'n awyddus i ailddechrau darparu gwasanaeth 'normal' i gwsmeriaid cyn gynted ag y bo modd, ac mae'n hanfodol ein bod ni'n parhau i ddiogelu ein pobl a gweithio o fewn ein hamgylchedd wedi ei addasu tra bod hyder amgylcheddol ehangach yn cael ei feithrin. Mae ein hyblygrwydd cynyddol a'n cymorth rhagweithiol â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn gwella ein hymrwymiad i arferion deinamig a modern sy'n atgyfnerthu ein gwerth cymdeithasol.

Mae ein ffocws ar ddenu, datblygu a chadw talent yn gryfach nag erioed a bydd y gwaith ar ddatblygu ein sgiliau sector yn cynyddu ac yn parhau yn unol â'r bwriad, er bod rhywfaint o oedi oherwydd pandemig Covid-19.

Rydym wedi ymrwymo i rymuso a galluogi ein pobl i dyfu'n bersonol ac, wrth wneud hynny, i ddatblygu'r busnes ehangach. Byddwn yn parhau i roi hwb i ddatblygu talent drwy secondiadau mewnol, cylchdroi a symud gweithwyr yn amrywiol ar draws y busnes, gan sicrhau cyfoeth o gyfleoedd a modd o ddatblygu sgiliau.

Mae adborth gan weithwyr yn bwysig. Bydd dulliau mwy ffurfiol o gofnodi barn ein gweithwyr, gan gynnwys arolwg strwythuredig o ymgysylltu â gweithwyr, drwy ddefnyddio metrigau llinell sylfaen, yn ein helpu i ddatblygu ein darpariaeth yn barhaus a'n hymrwymiad i sicrhau bod TrC yn lle gwych i weithio ynddo.

### Uchafbwyntiau 2020/21

- ✓ Cadw ein gweithwyr yn ddiogel ac mewn cysylltiad â'i gilydd
- ✓ Dod yn fodel cyfeirio ar gyfer cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud ag arwain ein pobl drwy bandemig
- ✓ Rhoi'r holl staff ar waith a pharhau i wneud gwaith ystyrlon a datblygiad personol
- ✓ Parhau i ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant
- ✓ Trawsnewid fel cyflogwr cenedlaethol drwy greu atebion pwrpasol i bobl, gan gynnwys ein model cyflog arloesol sy'n seiliedig ar berfformiad, sy'n sicrhau ein bod yn parhau'n gystadleuol ac yn atyniadol gan gyd-fynd ag egwyddorion y sector cyhoeddus yr un pryd
- ✓ Cydweithio ag Undebau Llafur cydnabyddedig i sicrhau cysylltiadau teg a thryloyw â gweithwyr mewn amgylchedd lle mae parch at ein gilydd yn ogystal â chynnwys cynrychiolaeth gweithwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd
- ✓ Darparu rhaglen datblygu graddedigion drawiadol a chredadwy o'r dechrau i'r diwedd
- ✓ Lansio academi brentisiaeth hynod lwyddiannus a gefnogir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

### Blaenoriaethau 2021/2

- Parhau â'n taith tuag at berfformiad uchel drwy ddatblygu talent creadigol a beiddgar
- Sefydlu rhythm dysgu personol drwy secondiad a chyfleoedd eraill i newid swyddi yn fewnol
- Rhannu gwersi a ddysgwyd a phrofiad drwy fentora a hyfforddi'n rhagweithiol
- Cynyddu ein gwaith datblygu sgiliau sector drwy ymgysylltu'n weithredol â'n cadwyn gyflenwi a'r sector sgiliau Cymraeg
- Hyrwyddo pob agwedd ar amrywiaeth a chynhwysiant wrth i ni chwifio'r faner dros Fenywod ym maes Trafnidiaeth, Cymru
- Annog "Llais y Gweithiwr" drwy broses arolygu ffurfiol i sicrhau datblygiad parhaus a chefnogaeth i weithwyr
- Diffinio proses well o wobrwyo a chydnabod, gan barchu teyrngarwch a chyfraniad ein pobl fel ein hased mwyaf gwerthfawr
- Cynllunio ar gyfer datblygu ein gweithlu'n raddol drwy gynllunio olyniaeth effeithiol a chael sylw strategol.

# Pwyllgor Taliadau

Dan gadeiryddiaeth Alison Noon-Jones, mae'r Pwyllgor Taliadau yn gyfrifol am osod a monitro egwyddorion a pharamedrau ein polisi taliadau, cytuno ar bolisi taliadau cyffredinol a'i argymell i'r Bwrdd, a llunio athroniaeth sydd wedi'i alinio â strategaeth, amcanion, gwerthoedd a buddion hir-dymor y busnes.

Cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau ddwywaith yn ystod y flwyddyn i gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir yn y cylch gorchwyl.

# Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

## Rydym yn ymrwymo i'r safonau uchaf o ran llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder, sy'n hanfodol i lwyddiant pob rhan o Grŵp TrC.

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n bersonol gyfrifol am reolaeth a llywodraethu cyffredinol Grŵp cwmnïau TrC sydd bellach yn cynnwys dau is-gwmni – Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau i reoli ein hadnoddau yn ystod y flwyddyn.

**Rydym yn cael ein llywodraethu gan:**

- cyfrifoldeb cyffredinol Y Gweinidog Newid Hinsawdd dros y cwmni;
- cyfrifoldeb Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ac yn uniongyrchol i Senedd Cymru, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu dros wariant a rheolaeth TrC;
- fy nghyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu TrC;
- Bwrdd TrC, a gefnogir gan ei is-bwyllgorau, sydd â chydgyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith y cwmni, yn ogystal â goruchwylio, craffu a chynnig sicrwydd i wneud yn siŵr bod TrC yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gyda lefel priodol o reolaeth; a
- byrddau is-gwmnïau TrC, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

Mae ein system lywodraethu hefyd yn cynnwys yr uwch dîm arwain.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ein Herthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Rheoli rhwng TrC a Gweinidogion Cymru. Mae llywodraethu corfforaethol da yn golygu sicrhau bod grŵp cwmnïau TrC yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion Cymru ar gyfer y cwmni fel y nodir yn y ddwy ddogfen hyn. Mewn ymateb i'n cylch gwaith a'n cyfrifoldebau cynyddol, mae ein Herthyglau Cymdeithasu a'n Cytundeb Rheoli yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hailgyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 2021-22.

**Ein Bwrdd**

Mae ein Bwrdd yn goruchwylio ein holl weithgareddau, gan gynnig arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol i wneud yn siŵr bod TrC yn cynnal safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio. Mae'n gweithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar:

- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith o ran llywodraethu a goruchwylio;
- materion sylweddol a strategaethol sy'n effeithio ar ein gweithrediadau o ran cyflawni ein cylch gwaith;
- rhoi strategaeth y Bwrdd ar waith. Mae'n llywio, yn herio ac yn craffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein perfformiad, gyda'r bwriad o sicrhau ei ddyfodol a'r weledigaeth o greu rhwydwaith trafnidiaeth y mae Cymru'n falch ohono.

Gall y Bwrdd ddirprwyo i'r tîm gweithredol gyfrifoldeb am yr holl faterion rheoli o ddydd i ddydd, ond yn y pen draw mae'n dal yn gyfrifol ac yn atebol am bob mater. Mae ein Cyfarwyddwyr anweithredol yn craffu ar berfformiad y tîm gweithredol wrth gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt. Mae aelodau o dîm gweithredol TrC yn mynychu'n rheolaidd i gyflwyno dogfennau gydag awgrymiadau ac i ddarparu gwybodaeth gyfredol.



Mae arsylwr enwebedig o'r Undebau Llafur yn ymuno â'r Bwrdd fel rhan o'r sesiwn strategol i gynrychioli'r saith undeb llafur rydym yn eu cydnabod. Caiff arsylwr ei ethol drwy broses a oruchwylir gan Gyngres Undebau Llafur Cymru (TUC) ac er nad yw'n aelod llawn o'r Bwrdd ac nad oes ganddo hawliau pleidleisio, mae'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau.

Mae ein Cyfarwyddwyr wedi arwyddo datganiad Gwrthdaro Rhwng Buddiannau ac yn llenwi ffurflenni datgan buddiannau'n chwarterol. Mae'r buddiannau a ddatganwyd i'w gweld ar ein gwefan. Mae datganiadau buddiannau yn cael eu gwneud ar ddechrau pob cyfarfod.

Disgwylir i bob cyfarwyddwr ymddwyn yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae pob un wedi llofnodi telerau ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Nid oes rhaid i ni gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018, ond rydym wedi penderfynu cydymffurfio â'r egwyddorion ar sail wirfoddol. Yn ystod 2021-22, byddwn yn cynnal adolygiad manwl sy'n ymwneud â'n cydymffurfiad â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018.

Fe gyfarfu'r Bwrdd un ar ddeg o weithiau yn ystod y flwyddyn. Mae cofnodion pob cyfarfod y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yma https://trc.cymru/cy/cofnodion-y-bwrdd

Mae'r tabl canlynol yn dangos presenoldeb y cyfarwyddwyr mewn cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd is-bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021:

| Cyfarwyddwr | Y Bwrdd | Archwilio a Risg | Cwsmeriaid a Chyfathrebu | Iechyd, Diogelwch a Lles | Prosiectau Newid Mawr | Pobl | Taliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alun Bowen | 10/11 | 4/4 | | | 2/3 | | |
| Heather Clash | 11/11 | 4/4 | | | 3/3 | | |
| Vernon Everitt | 11/11 | | | 1/4 | 3/3 | | |
| Sarah Howells | 11/11 | 4/4 | 5/5 | | | | |
| Nicola Kemmery | 11/11 | | | 4/4 | | 1/3 | 2/2 |
| Alison Noon-Jones | 11/11 | | 0/5 | | | 3/3 | 2/2 |
| James Price | 11/11 | | 4/5 | | 3/3 | | |
| Scott Waddington | 11/11 | | | | | | 1/2 |

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau chwe aelod anweithredol annibynnol a dau aelod gweithredol annibynnol i gynnig gwybodaeth a phrofiad er mwyn helpu i siapio ein cyfeiriad strategol.

Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd ar gael yn https://trc.cymru/about/team

Mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol annibynnol yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd, ac mae pob un ohonynt yn weithwyr proffesiynol blaenllaw yn eu meysydd eu hunain. Maen nhw'n cynnig barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad a risg, ac maen nhw mewn sefyllfa dda i herio a chraffu ar berfformiad y tîm rheoli mewn ffordd adeiladol.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o'i effeithiolrwydd trwy ymarfer hunanasesiad. Gwnaeth yr asesiad sgorio'n uchel ar draws y rhan fwyaf o'r adrannau. Cytunwyd ar gamau gweithredu ar gyfer yr adrannau sydd angen eu datblygu a'u gwella.

## Amrywiaeth y Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddenu a chadw pobl ddawnus, a gyda hynny mewn golwg, mae amrywiaeth ar draws ystod o feini prawf yn cael ei gwerthfawrogi. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth ym mhob maes yn allweddol i wneud yn siŵr bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cyflwyno i'w prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn credu bod rhywedd yn elfen bwysig wrth greu'r Bwrdd gorau posibl o ran cydbwysedd a chyfansoddiad. Yn ein Bwrdd ar hyn o bryd mae pedair menyw a pedwar dyn.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo pwerau penodol i chwe is-bwyllgor y Bwrdd, sy'n gweithredu i gynorthwyo'r Bwrdd i gwblhau ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol. Dyma'r chwe is-bwyllgor:

**Archwilio a risg**
I oruchwylio ein system rheoli risg, ei reolaeth fewnol, adroddiadau ariannol ac anariannol a'i gyfrifoldebau o ran y Gymraeg.

**Taliadau**
I osod egwyddorion a pharamedrau polisi taliadau ar gyfer TrC a goruchwylio'r polisi a'r canlyniadau.

**Pobl**
I helpu'r Bwrdd gyda'r holl faterion sy'n ymwneud â strwythur y sefydliad a chynlluniau olyniaeth, cydymffurfiaeth â pholisi, hyfforddi a datblygu, adolygu ac argymell polisi iawndal, iawndal gweithredol a gweinyddu'r cynllun buddion.

**Cwsmeriaid a Chyfathrebu**
I helpu'r Bwrdd i adolygu, monitro a rhoi arweiniad am bynciau sy'n ymwneud â chwsmeriaid, a hynny er mwyn cyflawni ein pwrpas sef cadw Cymru i symud yn ddiogel, gan dalu sylw ar lais y cwsmer, trawsnewid profiad cwsmeriaid, arloesi digidol a chyfathrebu agored ac onest.

**Iechyd, Diogelwch a Llesiant**
I helpu'r bwrdd i argymell polisi iechyd a diogelwch, monitro ac asesu cydymffurfiaeth, datblygu a chyflawni gwelliannau parhaus, adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau iechyd a diogelwch ac ystyried materion iechyd a diogelwch a allai olygu goblygiadau i'r cwmni o ran strategaeth, busnes ac enw da, yn ogystal ag argymell mesurau ac ymatebion priodol.

**Prosiectau newid mawr**
I helpu'r Bwrdd i adolygu a chraffu ar brosiectau mawr ac argymell penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau mawr hynny ym mhortffolio TrC. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni ein rhaglen buddsoddi mewn seilwaith cyfalaf.

Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol, ac maent yn cwrdd bob chwarter o leiaf. Mae gan bob is-bwyllgor y Bwrdd awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl.
Mae cylch gorchwyl pob pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn https://trc.cymru/cy/cofnodion-y-bwrdd

Mae Cadeirydd pob is-bwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei weithgareddau yn y mis diwethaf, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar ran yr is-bwyllgor i'w cymeradwyo, pan fo hynny'n briodol.

## Fframwaith llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn atebol i Weinidogion Cymru, sef yr unig aelod o'r cwmni. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi strategol sy'n gysylltiedig â'r holl faterion trafnidiaeth datganoledig. Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi'r prif gyfrifoldeb dros oruchwyliaeth TrC i'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Mae'r Gweinidog yn goruchwylio TrC drwy osod amcanion, blaenoriaethau a chyllidebau cyfalaf a gweithredol sy'n sail i'n cynlluniau busnes a chorfforaethol.

Mae'r berthynas rhwng TrC a Llywodraeth Cymru o ran rheoli arian a llywodraethu corfforaethol wedi'i amlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb rhwng TrC a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cysylltiadau adeiladol a chlir rhyngddynt.

## Ein Uwch Dîm Arwain

Mae ein uwch dîm arwain, sy'n cynnwys fi fel Prif Weithredwr, saith Cyfarwyddwr gweithredol, tri Chyfarwyddwr a Rheolwr Gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd. Mae'r uwch dîm arwain yn cyfarfod bob wythnos i drafod ac i wneud penderfyniadau am faterion gweithredol a strategol gyda chyfrifoldeb dros arian, iechyd a diogelwch, pobl, rheoli risg, llywodraethu a pherfformiad a chynnydd prosiectau a rhaglenni.

Er mwyn rhoi gwell ffocws ac i gydnabod ein cylch gwaith cynyddol, o 1 Ebrill 2021 ymlaen, bydd cyfarfodydd ein uwch dîm arwain yn cynnwys yr elfennau canlynol, bob pedair wythnos:

- **Gweithredol** – yn llywodraethu ac yn darparu cyfeiriad strategol y sefydliad; y pwynt cymeradwyo/uwchgyfeirio olaf cyn Bwrdd TrC. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r tri Phwyllgor Gwaith arall.
- **Gwasanaethau Corfforaethol** – yn rheoli swyddogaethau corfforaethol y sefydliad.
- **Datblygu Rhwydweithiau** – yn rheoli'r gwaith o ddatblygu prosiectau a gweithgareddau gan ddatblygu'r seilwaith a phrofiad cyffredinol defnyddwyr trafnidiaeth yng Nghymru.
- **Integreiddio Rheilffyrdd** – yn rheoli gweithgareddau rheilffyrdd y sefydliad cyfan. Yn atebol am ddatblygu/darparu'r rheilffyrdd yn barhaus, gyda chefnogaeth y sefydliad ehangach.

## Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Mae Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn gyfrifol am yr holl rwymedigaethau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant Gweithredwr Dewis Olaf sy'n ymwneud â masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Fel Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n cadeirio'r Bwrdd sy'n fy ngalluogi i ddal Rheolwr Gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn atebol. Ac wedyn yn ei dro, mae Bwrdd TrC yn fy nal i gyfrif am berfformiad Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig. Mae aelodau eraill Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn cynnwys Aelod Bwrdd/Cyfarwyddwr Gweithredol TrC, Cyfarwyddwr Gweithredol TrC sy'n gyfrifol am weithrediadau trafnidiaeth ac un Cyfarwyddwr anweithredol sy'n cadeirio Pwyllgor Diogelwch Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

## Bwrdd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Mae Bwrdd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyf. yn goruchwylio'r fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio cylch gwaith y cwmni i fod yn gatalydd ar gyfer newid ac ysgogydd arloesedd ar gyfer Grŵp ehangach TrC, gan alluogi darparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol arall o TrC, Cyfarwyddwr o Amey a Chyfarwyddwr o Keolis.

## Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae pob corff sy'n cael ei gyllido gan arian cyhoeddus yng Nghymru yn gaeth i reolaethau mewnol ac allanol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â fframweithiau Llywodraeth Cymru, fel Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae TrC wedi rhoi trefniadau rheoli cadarn ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd, i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ac i Weinidogion Cymru bod arian cyhoeddus ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithlon.

Mae ein rhestr ddirprwyo'n nodi gyda phwy mae'r awdurdod yn y cwmni ar gyfer mathau penodol o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn enw neu ar ran TrC, a lle mae'r Bwrdd wedi dirprwyo unrhyw benderfyniadau o'r fath i'r uwch dîm arwain neu un o'i is-bwyllgorau. Mae'r rhestr yn nodi pa faterion sydd wedi'u cadw ar gyfer y Bwrdd yn unig, ac mae'n cynnwys awdurdodau gwario a gwneud penderfyniadau corfforaethol. Adolygodd y Bwrdd y rhestr ddirprwyo a gadwyd ar gyfer y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2020. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu eto ym mis Mai a mis Rhagfyr 2021 i ystyried ein cylch gwaith newidiol.

## Llywodraethu a rheoli ariannol

Mae ein cynlluniau busnes yn dibynnu ar y gyllideb sy'n cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei nodi yn y llythyr cylch gwaith blynyddol. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu gyda'r rhagolygon ac yn cael eu hadolygu bob mis i wneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n unol â chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo ac er mwyn rhoi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd.

## Twyll, llwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban

Rydym yn arddel agwedd 'dim goddefgarwch' o ran twyll a llwgrwobrwyo. Mae gennym bolisi a gweithdrefn Gwrth-Dwyll, Llygredd a Gwrth-Lwgrwobrwyo yn ogystal â pholisi a gweithdrefn Chwythu'r Chwiban. Bydd unrhyw achosion yn ymwneud â thwyll neu lygredd yn cael eu harchwilio'n llawn, a bydd camau disgyblu a/neu gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol, yn unol â'n polisi. Ni chafwyd gwybod am unrhyw achos o dwyll nac o lwgrwobrwyo yn TrC yn ystod 2020-21.

Mae'n ofynnol bod holl staff TrC yn cael hyfforddiant Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwyngalchu Arian.

Mae ein polisi a'n trefniadau chwythu'r chwiban wedi'u cynllunio i sicrhau diwylliant o hyder ac amgylchedd diogel pe byddai rhywun yn mynegi unrhyw bryder yn TrC. Ni chafodd unrhyw bryderon eu mynegi drwy ein trefn chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn. Rydym ni hefyd wedi sefydlu panel chwythu'r chwiban a swyddogion a enwebwyd.

## Agored a Thryloyw

Rydym ni wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd y mae TrC yn gweithredu fel busnes, ac rydym ni wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol sydd wedi'i lunio a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein hymrwymo i wneud gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn ystod 2020-21, cawsom 83 cais am wybodaeth, ac fe gafodd y terfynau amser statudol eu cyrraedd ar gyfer bron pob un o'r ceisiadau hyn. Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau yn 2020-21 gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

## Rheoli risg

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau TrC. Rydyn ni'n cynnal asesiadau rheolaidd o'r risgiau rydyn ni'n eu hwynebu. Mae'r prif risgiau'n cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod. Mae'r uwch dîm gweithredol yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn ei gyfarfodydd.

Mae ein cofrestr risgiau'n nodi'r risgiau posibl ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Mae camau lliniaru yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â phob risg er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau a nodwyd.

## Sicrwydd

Mae ein prif ffynhonnell sicrwydd yn dod o nodi a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal â'n trefniadau archwilio mewnol, rydym ni hefyd yn cael sicrwydd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, y tîm arwain gweithredol, cofrestrau risgiau a gwybodaeth reoli arall. Rydyn ni hefyd yn darparu adroddiadau gweithredol misol ar y prif bwyntiau i Lywodraeth Cymru.

Mae TrC hefyd yn destun adolygiadau allanol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd a Phwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU. Gall adolygiadau allanol hefyd gael eu cynnal gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae ein gweithgareddau archwilio mewnol yn parhau i esblygu a chryfhau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2021-22 ym Mawrth 2021.

Roedd yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd gennym eleni yn cynnwys amrywiaeth o bynciau gan gynnwys Cyllid Ewropeaidd, y gyflogres, Rhaglen Dyfodol y Rheilffyrdd, hunan-yswirio, diogelwch deinamig, gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, monitro diogelwch, llywodraethu rhaglen seilwaith, anfonebu cwsmeriaid, GDPR a diogelu data, gosod a rhagfynegi cyllidebau, datblygu a rheoli prosiectau, rheoli risg, rheoli contractau a chyflenwyr, a threfniadau Brexit. Roedden ni wedi cwblhau'r rhaglen arfaethedig ac roedd yr adroddiadau a ddeilliodd ohoni yn rhoi sicrwydd rhesymol ac roedden ni wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau, ac mae pob un ohonyn nhw wedi cael eu derbyn. Mae'r holl welliannau yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlen a gytunwyd arni gan archwiliad mewnol i gryfhau prosesau rheoli mewnol.

Rwyf yn fodlon nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn ein fframwaith llywodraethu na'n systemau rheoli mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Roedd ein fframwaith Llywodraethu a'n systemau rheoli mewnol yn cefnogi cyflawniad ein polisïau, nodau ac amcanion, yn hwyluso arfer effeithiol o swyddogaethau'r Cwmni, ac yn diogelu arian cyhoeddus ac asedau yr wyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol amdanyn nhw'n bersonol.



## James Price

### Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwr ar 29 Mehefin 2021. Mae pob cyfarwyddwr a oedd yn ei swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol yn cadarnhau fod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i randdeiliaid allu asesu safle a pherfformiad, model busnes a strategaeth TrC.

# Datganiad Cydnerthedd

Mae llawer o'r gweithgareddau y mae TrC yn ymwneud â nhw yn gofyn am bersbectif hirdymor.

## Cefndir

Rydym yn cael ein cyllido'n bennaf o'r pwrs cyhoeddus gan grant cylch gwaith a chyllid arall ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu i Lywodraeth Cymru. Mae'r grant cylch gwaith hwn yn cynnwys y cymhorthdal grant ar gyfer gwasanaethau teithwyr rheilffyrdd ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau. Roeddem wedi gweinyddu'r cymhorthdal hwn yn flaenorol gan ei fod yn mynd drwy refeniw i Keolis Amey, ond ers mis Chwefror 2021, mae'n cael ei ddarparu i'n his-gwmni, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llythyr cylch gwaith i TrC, sy'n cynnwys y gyllideb a ddyrannwyd i gyflawni gweithgareddau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyrau cylch gwaith ychwanegol (yn ogystal â chyfarwyddiadau uniongyrchol eraill) o ganlyniad i amgylchiadau newidiol yn bennaf oherwydd pandemig Covid-19.

Fodd bynnag, mae llawer o'r gweithgareddau rydyn ni'n ymwneud â nhw yn gofyn am safbwynt tymor hir, fel cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith, integreiddio system drafnidiaeth Cymru yn well, adfywio Llinellau Craidd y Cymoedd, datblygu Metro Gogledd-ddwyrain Cymru a Metro De Cymru a sicrhau dyfodol carbon is.

Rydym wedi bod yn datblygu cynllun corfforaethol pum mlynedd tan 31 Mawrth 2026, sy'n nodi ein hamcanion ar gyfer y cyfnod hwnnw a'n hamcangyfrif o'r gofynion cyfalaf a refeniw i gyflawni'r cynllun. Fodd bynnag, bydd angen diwygio'r cynllun corfforaethol hwn yn sylweddol er mwyn ystyried ein bod yn dod yn ddarparwr gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, yn hytrach na goruchwylio'r trefniant masnachfraint blaenorol. Ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai 2021, mae'n ddealladwy y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisïau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru ac, yn y pen draw, yn cytuno ar ein cynllun pum mlynedd.

Yn unol â hynny, mae ein dadansoddiad o'n cydnerthedd yn y tymor hwy wedi ei seilio ar wybodaeth y cyfarwyddwyr am y gweithgareddau hynny y gofynnwyd i ni gymryd cyfrifoldeb drostynt gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n rhagweld effaith rhagor o weithgareddau a allai o bosibl effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor byr a chanolig.

## Cydnerthedd tymor byr

Mae'r cyfarwyddwyr wedi pennu "tymor byr" at ddibenion y Datganiad Cydnerthedd hwn fel y deuddeg mis ar ôl llofnodi'r datganiadau ariannol - hynny yw, 30 Mehefin 2022. Mae hyn yn cyd-daro â chyfnod asesiad y cyfarwyddwyr bod TrC yn fusnes gweithredol at ddibenion paratoi ein datganiadau ariannol.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, mae'r cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos ei pharodrwydd i ddarparu cymorth ariannol ar adegau o straen eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu at ein cyfarwyddwyr yn cadarnhau ei hymrwymiad i gyllido TrC a'i is-gwmnïau am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad llofnodi ein datganiadau ariannol.

## Cydnerthedd tymor canolig

Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, cyn dechrau effeithiau iechyd ac economaidd pandemig Covid-19, roedd y cyfarwyddwyr wedi sefydlu dwy senario straen ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025. Mae'r senario cyntaf yn seiliedig ar y straen economaidd a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, sydd eisoes wedi dyddio'n sylweddol. Roedd y llall, a oedd yn cynnwys hyrwyddo a gweithredu "Gweithredwr Dewis Olaf", wedi digwydd ym mis Chwefror 2021.

Mae'r cynllun busnes drafft a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o senarios, a'r prif newidyn yw'r rhagolwg refeniw teithwyr trenau. O ystyried yr ansicrwydd parhaus o ran nifer y teithwyr a ganiateir ac, yr un mor bwysig, dewis teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae rhagweld refeniw teithwyr yn dal yn her sylweddol.

Yn unol â hynny, nid yw'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yng ngoleuni'r ansicrwydd, wedi cynnwys unrhyw senario yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, ond bydd yn dechrau ymgynghori â'i berchennog a'i randdeiliaid ynghylch senarios posibl i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf, yn ei Bolisi Archwilio a Sicrwydd drafft a gaiff ei gyhoeddi i ymgynghori arno ar 1 Medi 2021.

## Cydnerthedd tymor hwy

Yn y cyfnod ar ôl 2026, yn ogystal ag effeithiau tymor hwy pandemig y coronafeirws, rydym yn debygol o wynebu nifer o heriau eraill, a fydd yn effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor hwy:

- Newid yn yr hinsawdd – bydd y newid i economi carbon is yn cael effaith sylweddol ar TrC, ac mae'r rhain wedi eu nodi yn yr adran ar wahân ar newid yn yr hinsawdd.
- Newidiadau posibl i bolisi trafnidiaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol (mae rhai ohonynt wedi eu nodi yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021).

Mae ein dull o adnabod risgiau sy'n dod i'r amlwg, sganio'r gorwel a chydweithio â chyrff trafnidiaeth a llywodraeth eraill yn rhoi rhywfaint o hyder i'r cyfarwyddwyr y bydd amser i allu mynd i'r afael â materion o'r fath ymhell ymlaen llaw, yn amodol ar gyllid priodol.



# Datganiad Adran 172

## Ymgysylltu a gwneud penderfyniadau

***Adroddiadau Adran 172(1)***

Mae ein Cyfarwyddwyr yn rhwym wrth eu dyletswyddau ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo llwyddiant y cwmni yn unol ag adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r ffordd mae'r dyletswyddau hyn wedi cael eu cyflawni, yn enwedig eu dyletswydd i hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd ei gwsmeriaid, ei staff a'i unig aelod, yn un o themâu craidd yr adroddiad hwn.

Mae ein datganiad Adran 172 yn nodi sut mae'r Cyfarwyddwyr, wrth gyflawni eu dyletswyddau yn ystod y flwyddyn, wedi ystyried y materion a nodir yn Adran 172(1) (a) i (f) Deddf Cwmnïau 2006. Rydym hefyd wedi integreiddio ein hadroddiadau ar sut mae ein rhanddeiliaid wedi cael eu hystyried o ran ein model busnes a llywodraethu drwy gydol yr adroddiad hwn: Gweithgareddau'r Bwrdd, gweler tudalen 56 i 65; ein hymateb i argyfwng Covid-19, gweler tudalennau 12 a 13; a thrwy gydol yr Adroddiad Strategol ar dudalennau 6 i 47.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cydnabod na fydd pob penderfyniad a wnânt o reidrwydd yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i'n holl randdeiliaid. Fodd bynnag, drwy ystyried blaenoriaethau strategol y cwmni a sefydlu prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau, maent yn ceisio sicrhau bod eu penderfyniadau'n gyson.

## Ein dull gweithredu

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am arwain ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein rhwymedigaethau i'r rhai y mae ein gwaith yn effeithio arnynt. Rydym o'r farn bod gwrando ar ein rhanddeiliaid yn bwysicach yn awr nag erioed o'r blaen wrth i ni ddod dros Covid-19 a'r dasg heriol o gydbwyso anghenion a disgwyliadau ein holl randdeiliaid.

Yn ystod haf 2020, fe wnaethom sefydlu ein Panel Cynghori sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig.

Nod y Panel Cynghori yw rhoi adborth, craffu a rhoi cyngor i Trafnidiaeth Cymru ar amrywiaeth eang o bynciau a materion, gan sicrhau ein bod ni'n gwrando, yn cydweithio ac yn derbyn arweiniad yn uniongyrchol gan y grwpiau defnyddwyr a chymunedau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Rydym hefyd wedi sefydlu pedwar fforwm rhanddeiliaid rhanbarthol, sy'n cwmpasu gogledd Cymru, Cymru a'r Gororau, de-ddwyrain Cymru a chanolbarth a gorllewin Cymru. Mae gan bob fforwm gynrychiolaeth ranbarthol sy'n cynnwys awdurdodau lleol, partneriaid busnes a thwristiaeth, cyrff addysg, partneriaid awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol a chyrff gwarchod trafnidiaeth. Mae'r fforymau rhanbarthol yn cael eu cadeirio gan y rheolwr rhanddeiliaid ar gyfer pob rhanbarth, gyda chefnogaeth ein swyddogion ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r fforymau'n cynnwys sesiynau rhyngweithiol a deunyddiau arolwg dilynol i sicrhau ein bod ni'n cael mewnbwn i'r holl newidiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus, o'n hamserlen rheilffyrdd i'n cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.

Er bod y Bwrdd wedi gwneud penderfyniadau strategol allweddol, mae'r rhain o fewn terfynau ein hawdurdod dirprwyedig gan Lywodraeth Cymru a'n llythyr cylch gwaith blynyddol. Cafodd nifer o'n penderfyniadau strategol allweddol eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru neu roedd angen cymeradwyaeth weinidogol arnynt ac felly roeddent yn amodol ar brosesau gwneud penderfyniadau TrC a Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru. Mae gan TrC a Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac ystyried y tymor hir.

Yn yr adran hon, rydym wedi grwpio ein rhanddeiliaid yn bum prif gategori ac wedi rhoi trosolwg o'u diddordebau a'r ffyrdd y gwnaeth y Bwrdd weithredu mewn perthynas â'r grwpiau hyn wrth wneud ei benderfyniadau strategol allweddol.

"Rydyn ni'n credu bod gwrando ar ein rhanddeiliaid yn bwysicach nawr nag erioed wrth i ni ddod drwy Covid-19."



## Grwpiau Rhanddeiliaid

### 1. Gweinidogion Cymru/Llywodraeth Cymru

Mae ymgysylltu â Gweinidogion Cymru, drwy Lywodraeth Cymru, yn broses barhaus. Ar lefel strategol, mae'r bwrdd llywio'n cwrdd bob mis ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth gan ein Cadeirydd, ein Prif Weithredwr, uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwr anweithredol o Lywodraeth Cymru.

Mae gan y Bwrdd Llywio gylch gwaith i 'hwyluso trafodaethau strategol am gylch gwaith a chyfeiriad TrC yn y dyfodol a goruchwylio TrC'. Mae penderfyniadau strategol bwysig hefyd yn cael eu gwneud ym Mwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru, sef cyfarfod misol a sefydlwyd er mwyn i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd ynghylch perfformiad TrC wrth gyflawni ein cylch gwaith. Mae enghreifftiau o gynllunio tymor hir yn cynnwys parhau i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a datblygu cynigion ar gyfer Metro de Cymru, gogledd Cymru a Metro de-orllewin Cymru, yn ogystal ag ymateb i argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth de-ddwyrain Cymru.

***Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf***

Drwy'r Cadeirydd, mae'r Bwrdd yn cael diweddariad ym mhob cyfarfod ar y trafodaethau a'r penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Llywio. Gall hyn gynnwys eitemau sy'n cael eu huwchgyfeirio o'r Bwrdd i Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael diweddariad misol gan ein Prif Weithredwr a fydd yn cynnwys manylion trafodaethau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru.

### 2. Cwsmeriaid

Mae sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd pob penderfyniad yn rhan hanfodol o strategaeth ein Bwrdd. Ein ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf fu cadw ein cwsmeriaid yn ddiogel yn ystod y pandemig a hyrwyddo mesurau i leihau'r risg o ledaenu Covid-19.

Rydym wedi canolbwyntio ar ddarparu negeseuon cyfredol ym mhob un o'n lleoliadau ac ar-lein drwy ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol ar sut i deithio'n ddiogel o fewn y cyfyngiadau sydd arnom ni a'n cwsmeriaid yn ystod y pandemig drwy ein hymgyrch 'teithio'n saffach'. Rydym hefyd wedi meddwl yn ddwys am sut mae cadw ein cwsmeriaid yn ddiogel ac yn gwybod beth fydd yn digwydd pan fydd ein gweithrediadau rheilffyrdd yn dychwelyd i'r arfer. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid fel Transport Focus i ystyried barn cwsmeriaid ac rydym wedi ymgysylltu â'n grwpiau cynghori drwy gydol y broses i adeiladu ar yr wybodaeth rydym wedi ei chael drwy nifer o arolygon cwsmeriaid.

***Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf***

Rydym yn agor pob cyfarfod Bwrdd gyda 'munud i feddwl am gwsmeriaid' (yn ogystal â 'munud i feddwl am ddiogelwch') i sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth galon pob trafodaeth a phenderfyniad. Mae'r Bwrdd yn ysgwyddo ei gyfrifoldebau yn ddifrifol iawn ynghylch diogelwch cwsmeriaid, bodlonrwydd cwsmeriaid, ac yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf, sut i ddenu cwsmeriaid yn ôl i ddefnyddio ein gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd am fodlonrwydd cwsmeriaid, ansawdd y gwasanaeth a diweddariadau o waith y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu.

### 3. Ein staff

Mae ein staff yn ganolog i'n llwyddiant, felly mae ymgorffori eu safbwyntiau'n briodol ym mhenderfyniadau'r Bwrdd yn hanfodol. Mae ein staff wedi cael eu hannog i ddarparu adborth, awgrymiadau a phryderon drwy ein galwadau i'r cwmni cyfan bob pythefnos. Mae gennym hefyd gynrychiolydd staff ar y pwyllgor pobl ac arsylwr Undebau Llafur ar ein Bwrdd.

Rydym hefyd wedi datblygu adnodd 'Dweud wrthym' lle gall cydweithwyr anfon syniadau, adborth, argymhellion ac arolygon pwrpasol drwy e-bost er mwyn i ni gael cipolwg ar les a gweithio gartref, er enghraifft. Rydym hefyd yn annog ein staff i gymryd rhan mewn fforymau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a lles staff.

***Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf***

Mae aelodau ein Bwrdd yn cael eu gwahodd i ymuno â'n galwadau i'r cwmni cyfan, ac maent yn gwneud hynny'n aml, lle bydd staff yn gofyn cwestiynau ac yn rhoi adborth ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar TrC. Mae'r Bwrdd yn cael sesiynau briffio rheolaidd gan y Tîm Gweithredol i'w alluogi i asesu ymddygiad a diwylliant y sefydliad, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth pobl y cwmni.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Bwrdd am faterion pwysig sy'n effeithio ar ein staff, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â phensiynau, prosiectau newid mawr sy'n effeithio ar staff, cynlluniau graddedigion a phrentisiaid a chynlluniau pobl pwysig eraill. Yn dilyn pob cyfarfod o'r pwyllgor pobl, mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau i'r Bwrdd.



### 4. Cymunedau

Mae datblygu a diogelu'r cysylltiadau rydym wedi eu sefydlu gyda'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn ffactor pwysig yn nhrafodaethau'r Bwrdd. Mae ein cefnogaeth i reilffyrdd cymunedol ar draws y rhwydwaith wedi golygu ein bod ni'n ehangu cyrhaeddiad partneriaethau fel bod gan nifer cynyddol o gymunedau cyfagos ein rhwydwaith rheilffyrdd fynediad at Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol (CRP).

Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu partneriaeth newydd yn ne-orllewin Cymru, ac rydym ar fin cyflwyno partneriaeth newydd yn rhanbarth Caerdydd a'r Cymoedd. Mae cyfarfodydd chwarterol yn cael eu trefnu gyda phob swyddog partneriaeth i rannu gwybodaeth am weithgareddau TrC a sut mae pob Partneriaeth yn bwrw ymlaen gyda'u cynlluniau gweithgarwch blynyddol. Mae hefyd yn gyfarfod lle rhennir arferion gorau ar draws y partneriaethau. Mae ein tîm rheilffyrdd cymunedol hefyd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd pob Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol i ddeall lle gall TrC gynorthwyo'r partneriaethau i gyflawni eu cynlluniau gweithgareddau.

Mae ein Panel Cynghori wedi rhoi lle i ni rannu amrywiaeth o brosiectau a diweddariadau gyda phanel sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol. Rydym wedi sefydlu a chynnal ein Panel Cynghori gyda chynrychiolwyr o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Plant a Phobl Ifanc, Sustrans, Stonewall Cymru, Cytûn, y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a Chydffederasiwn Cludiant Teithwyr. Mae'r grwpiau hyn wedi darparu arweiniad, cymorth a chyngor i'n nodau a'n hamcanion hirdymor, ond maent hefyd wedi llywio ein hymateb i'r pandemig.

***Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf***

Drwy adroddiad y Prif Weithredwr, mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ein rhyngweithio â chymunedau lle gallai ein gwaith cyfalaf neu raglenni effeithio arnynt, neu lle bydd newidiadau yn ein gwasanaethau yn effeithio arnynt. Mae ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr hefyd wedi mynychu cyfarfodydd ein Panel Cynghori.

> "Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ganolbwyntio ar wella ein cadwyn gyflenwi; a oedd yn elfen hanfodol o'n strategaeth. Mae'n rhaid i ni barhau i ymgysylltu'n agos â'n cyflenwyr i fwrw ymlaen yn llwyddiannus."

### 5. Cyflenwyr

Mae ein partneriaethau tymor hir o gyflenwyr yn hollbwysig o ran darparu ein gwasanaethau a'n prosiectau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn canolbwyntio ar wella ein cadwyn gyflenwi; elfen hanfodol o'n strategaeth ac un y gellir ei datblygu dim ond drwy barhau i ymgysylltu'n agos â'n cyflenwyr. Gwnaethpwyd hyn drwy amrywiol ddulliau gweithredu strategol a thactegol.

Rydym wedi cynnal digwyddiadau digidol rheolaidd ar y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod TrC a'n partneriaid cyflawni ar gael drwy sesiynau holi ac ateb gyda'n cadwyn gyflenwi, gan fynd i'r afael â materion amserol a'n llif o gyfleoedd. Rydym hefyd wedi creu partneriaeth ag Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi i godi ymwybyddiaeth a helpu i wella sgiliau ein cadwyn gyflenwi ym mhob agwedd ar gynaliadwyedd ac arferion moesegol. Bydd y bartneriaeth hon yn sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi yn cael mynediad am ddim at addysg hyfforddiant a datblygu.

> "Bydd y bartneriaeth hon yn sicrhau bod gan ein cadwyn gyflenwi fynediad rhad ac am ddim at hyfforddiant a chyfleoedd dysgu."

Yn unol â'n hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, rydym wedi rhoi rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch ar waith, lle rydym wedi hyfforddi 56 Llysgennad Tegwch, Cynhwysiant a Pharch ar draws ein busnes a'n cadwyn gyflenwi i hyrwyddo diwylliant cynhwysol. Yn olaf, rydym wedi nodi cysylltiadau cydweithredol posibl sy'n cyfrannu at ein hamcanion strategol ac yn datblygu cysylltiadau cydweithredol ffurfiol yn unol ag ISO44001:2017 fel Craidd Alliance sy'n cynnwys TrC, Amey Infrastructure Wales, Balfour Beatty, Siemens ac Alun Griffiths.

***Sut mae'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf***

Mae'r Tîm Gweithredol yn cael adroddiadau rheolaidd ar risgiau'r gadwyn gyflenwi a, lle bo angen, bydd y rhain yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd, naill ai drwy ystyried adroddiad penodol neu, lle bo hynny'n berthnasol, drwy ystyried ein cofrestr risg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddodd y Bwrdd sylw penodol i'r risgiau i'n cadwyn gyflenwi o ganlyniad i Covid-19 a Brexit. Cafodd y Bwrdd wybod hefyd am faterion yn ein cadwyn gyflenwi a oedd yn gofyn am reolaeth fel rhan o'r gwaith o drosglwyddo gweithrediadau rheilffyrdd.

# Datganiad datgarboneiddio trafnidiaeth

Yn 2018, roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru – 62% o geir preifat, 19% o gerbydau nwyddau ysgafn, 16% o fysiau a cherbydau nwyddau trwm ac 1% o drenau.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig wedi cynnig llwybr lleihau carbon ar gyfer trafnidiaeth ar yr wyneb sy'n golygu bod angen haneru allyriadau'n fras rhwng 2020 a 2030.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o sicrhau gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth drwy ddatblygu seilwaith a gwasanaethau carbon isel a thrwy newid moddol. Mae hyn yn unol ag argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig a'n hymrwymiadau sero net erbyn 2030.

## Llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn fater perthnasol i'r busnes, yn enwedig yng ngoleuni'r datganiad argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 ac uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau cyfwerth â $CO_2$ i sero-net erbyn 2050.

Rydym yn edrych yn ofalus ar y materion sy'n ein hwynebu wrth ymateb i'r her o leihau ein hallyriadau cyfystyr â $CO_2$ a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dyfodol carbon isel.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder a gweithredu mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac rydym yn cefnogi argymhellion gwirfoddol Tasglu'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar Ddaliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD).

Mae ein Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am sicrhau bod y datgeliad yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â gofynion datgelu'r Tasglu ar Ddatgelu Gwybodaeth Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithiol o fewn y sefydliad.

## Strategaeth

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein Strategaeth Effaith Carbon Isel mewn ymateb i ddiweddariad i'n cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Bydd ein Strategaeth newydd ar Effaith Carbon Isel yn cael ei chyhoeddi ddiwedd 2021 a bydd yn nodi'n fanwl ein strategaeth a'n targedau i gyrraedd sero-net erbyn 2030.

Mae'r rhan fwyaf o'n hallyriadau cyfystyr â $CO_2$ yn deillio o ddisel sy'n cael ei ddefnyddio i bweru ein trenau. Daw gweddill yr ôl troed carbon o weithrediadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd, depos a swyddfeydd.

Bob blwyddyn, rydym yn cynhyrchu ôl troed carbon sefydliadol ar sail cyfrifiannell gan yr Ymddiriedolaeth Garbon sy'n cyfrifo ein hallyriadau cwmpas 1, 2 a 3.

Mae Cwmpas 1 yn ymwneud ag allyriadau CO2e uniongyrchol gan TrC. Mae Cwmpas 2 yn ymwneud ag allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu trydan sydd wedyn yn cael ei brynu gan TrC. Mae Cwmpas 3 yn cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill yng nghadwyn gwerth TrC, megis allyriadau o weithwyr yn teithio ac yn cymudo i'r gwaith ac allyriadau wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan TrC.

Rydym yn recriwtio ar gyfer dwy swydd newydd i helpu i gyflawni'r strategaeth hon: Arweinydd Risg a Chydnerthedd yr Hinsawdd; a Swyddog Addasu'r Hinsawdd.

## Rheoli risg

Mae nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi ei integreiddio'n llawn yn ein proses rheoli risg gyffredinol.

Mae'r rheolwyr hefyd yn sicrhau bod risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn cael eu gwreiddio yn niwylliant y busnes o ddydd i ddydd a'u bod yn cael eu hystyried a'u gweithredu yn ein rhaglen drawsnewid.

## Addasu a chydnerthedd yr hinsawdd

Rydym yn gweithio'n agos gyda Network Rail sy'n berchen ar y rhan fwyaf o asedau'r rheilffyrdd yng Nghymru. Maent wedi cynnal Asesiadau Risg Newid yn yr Hinsawdd ar y rheilffordd a bydd Adroddiad Addasiadau newydd yn cael ei gyhoeddi eleni.

Yn alluogwr allweddol ar gyfer adeiladu cam nesaf Metro De Cymru, cymerodd TrC berchnogaeth dros Linellau Craidd y Cymoedd ym mis Mawrth 2020, gydag Amey Infrastructure Wales (AIW) yn gweithredu fel ein partneriaid cyflawni. Mae eu rôl yn cynnwys cydymffurfio â safonau Network Rail, sy'n cynnwys datblygu cynlluniau tywydd eithafol (NR/L3/CIV/190) ar gyfer rheoli asedau yn ystod tywydd eithafol.

Gellir gweld Cynllun Cydnerthedd Tywydd y Llwybr 2019-2024 yma [Adroddiad Hinsawdd a Thywydd Cymru](Adroddiad Hinsawdd a Thywydd Cymru)

Fel rhan o'r dyletswyddau rheoli asedau, rydym wedi creu Cynllun Rheoli Asedau Strategol sy'n tynnu sylw at weledigaeth strategol rheoli'r asedau, gan gynnwys draenio, strwythurau a gwrthgloddiau. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn cynnig gweledigaeth allweddol ar gyfer yr asedau ac mae hefyd yn tynnu sylw at weithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â gwella gwybodaeth am asedau a chydnerthedd. Yn ogystal, yn unol ag ISO 55001, mae AIW yn cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Asedau, sy'n cynnwys llinell weledigaeth gyda Chynllun Rheoli Asedau Strategol TrC ac sy'n tynnu sylw at weithgareddau allweddol gan gynnwys digwyddiadau tywydd garw a sefydlu safleoedd treialon.

Mae ymarfer mapio helaeth wedi cael ei gynnal ar y system gwybodaeth ddaearyddol ffynhonnell agored (QGIS), gan fapio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd a'u rhyngwyneb â safleoedd llifogydd hysbys, fel sy'n deillio o ddata llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer llifogydd afonol a llifwaddodol.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng TrC a sefydliadau eraill gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ynghylch cydweithio a sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i wella dealltwriaeth o asedau a hyrwyddo dull gweithredu ar y cyd ar gyfer deall a gweithredu cydnerthedd.

## Ymateb i Stonehaven

Mewn ymateb i'r ffaith bod trên wedi dod oddi ar y cledrau yn Stonehaven ym mis Awst 2020, mae Network Rail wedi cyhoeddi adroddiad sy'n tynnu sylw at gydnerthedd seilwaith rheilffyrdd, sydd ar gael yma. Mae'r adroddiad yn nodi gweithgareddau allweddol sy'n cynnwys cynllun hirdymor i wella'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Gyda pherchnogaeth ar Linellau Craidd y Cymoedd, mae TrC a'n partneriaid cyflawni wedi creu cynllun gweithredu Stonehaven, i nodi asedau risg uchel ac i roi gwaith monitro a chynnal a chadw ar waith fel mesur dros dro yn dilyn y digwyddiad yn Stonehaven. Mae'r prif weithgareddau'n cynnwys archwilio'r gwaith o dorri pridd sydd â risg uchel, cynnal archwiliadau gweledol o asedau draenio, rheoli digwyddiadau tywydd garw a phennu gweledigaeth strategol drwy archwilio technoleg sy'n gallu helpu i ddeall gwaith cloddio a draenio.

Mae gweithgor cydweithredol wedi cael ei sefydlu rhwng TrC ac AIW i archwilio dewisiadau ar gyfer monitro o bell a thechnoleg o'r awyr i helpu i reoli'r asedau. Yn ogystal, mae trafodaethau cynnar yn cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng TrC a Phrifysgol Caerdydd i ddeall amodau draenio, llifogydd afonydd a microhinsawdd Llinellau Craidd y Cymoedd, gyda'r nod o ddeall y risg a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd.

## Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy

Rydym wedi gosod Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy ("SUDs") i atal llifogydd yng Ngorsaf Bow Street (prosiect adeiladu newydd) yng Ngheredigion. Mae arwynebedd mawr o'r maes parcio yn cynnwys palmentydd athraidd; mae dŵr yn llifo o'r palmant i fan gwyrdd lle plannwyd coed. Yn unol â gofynion cynllunio, rydym yn gosod Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy mewn prosiectau arfaethedig fel Glannau Dyfrdwy, sydd ar y cam dylunio ar hyn o bryd.

## Plannu coed

Rydym yn plannu coetir yn Llan-wern, Casnewydd. Mae coetiroedd yn ased pwysig ar gyfer addasu – er enghraifft, er mwyn gwella ansawdd yr aer, amddiffyn priddoedd, clustogi cyrsiau dŵr, lliniaru'r perygl o lifogydd, darparu cynefin a darparu amgylcheddau oerach. Rydym wedi plannu pedwar hectar hyd yma.

## Rheoli llystyfiant

Rydym yn rheoli llystyfiant wrth y cledrau ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn lleihau effaith tymor yr hydref (a thymhorau eraill yn gynyddol) ar ein gwasanaethau oherwydd dail sydd wedi disgyn, a gall coed sy'n marw ddisgyn ar draws traciau ac ar drenau. Mae hyn yn effeithio'n ddifrifol ar y gwasanaethau a ddarparwn.

## Metrigau a thargedau

Dyma'r prif fetrigau a ddefnyddir gan TrC i asesu a rheoli ei risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd:

- **Cwmpas 1 – allyriadau uniongyrchol cyfystyr a $CO_2$:** o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'n gweithrediadau a'n gweithgareddau fel tanwydd trenau, oergelloedd a systemau awyru
- **Cwmpas 2 – allyriadau anuniongyrchol (eiddo) cyfystyr â $CO_2$:** allyriadau anuniongyrchol fel cynhyrchu ynni a brynir, gan ddarparwr cyfleustodau
- **Cwmpas 3 – allyriadau anuniongyrchol (nad yw'n eiddo i'r cwmni) cyfystyr â $CO_2$:** mae'n cynnwys allyriadau o wastraff, dŵr, cymudo a chaffael.

Mae gennym y targedau a ganlyn:


- allyriadau cwmpas 1 (Tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd – gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023
- allyriadau cwmpas 1 (Tyniant) WCB – gostyngiad o 30% erbyn diwedd 2023
- allyriadau cwmpas 2 – gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023.

## Cynnydd gyda thargedau

Mae ein hôl troed carbon wedi gostwng o 87,423 tunnell cyfwerth â $CO_2$ yn 2018/19 i 82,630 tunnell cyfwerth â $CO_2$ yn 2019/20, sef 5.48% o ostyngiad. Roedd hyn oherwydd cynnydd mewn cerbydau allyriadau isel a'r gostyngiad yn nifer y cerbydau hŷn sy'n llygru ar raddfa fwy, a'r gwaith o reoli cyfleustodau'n well drwy fesuryddion deallus.

Mae'r 4.85% o ostyngiad rhwng 2019/20 a 2020/21 i 78,715 tunnell cyfwerth â $CO_2$ wedi digwydd yn bennaf oherwydd effeithiau pandemig Covid-19. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i wella ein defnydd o ynni, rheoli cyfleusterau a chyflwyno cerbydau mwy newydd.

## Allyriadau blynyddol yn ôl cwmpas




## Risgiau a chyfleoedd

| Risg | Cyfle |
|---|---|
| **Tymor byr (1-2 flynedd)** | **Tymor byr (1-2 flynedd)** |
| Gallai newid mewn ymddygiad teithio oherwydd pandemig Covid-19 effeithio ar gyfleoedd ar gyfer newid moddol. | Mae TrC wedi cynyddu'r cyfrifoldebau ar gyfer cerbydau trydan, bysiau a thacsis heb allyriadau o bibelli gwacáu, a theithio llesol a allai leihau ôl troed pobl Cymru os bydd hynny'n llwyddiannus. |
| **Tymor canolig (2-5 mlynedd)** | **Tymor canolig (2-5 mlynedd)** |
| Cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn sgil tywydd eithriadol sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. | Gallai gwell gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a rhagor o fynediad at wefru cerbydau trydan arwain at newid moddol sylweddol. |
| Gallai oedi wrth gwblhau Metro De Ddwyrain Cymru effeithio ar ein targedau lleihau carbon. | Gallai cwblhau Metro De Ddwyrain Cymru arwain at gynnydd sylweddol pellach yn y newid moddol.<br><br>Mae TrC yn gweld mwy o gyfleoedd, ar y cyd â phartneriaid, i ddatblygu ei ynni adnewyddadwy ei hun, fel ynni solar ffilm tenau ac ynni adnewyddadwy ar ochr y trac, a hefyd lleihau faint o ynni mae'n ei ddefnyddio - er enghraifft, drwy gynyddu'r defnydd o oleuadau LED, a lleihau dibyniaeth TrC ar y grid cenedlaethol ac, yn unol â hynny, gwneud TrC yn fwy cydnerth i ddigwyddiadau tywydd niweidiol. |
| **Tymor hwy (dros 5 mlynedd)** | **Tymor hwy (dros 5 mlynedd)** |
| Cynnydd yn nifer yr achosion o lifogydd sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. | Gallai cwblhau Metro gogledd Cymru a Metro de-orllewin Cymru gynyddu hyd a lled newid moddol ymhellach. |
| Llifogydd parhaol ar y cledrau a achosir gan lefel y môr yn codi. | |



# Adroddiad taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys cyflog a hawliau pensiwn.

**Cyfanswm tâl unigol**

| Cyfarwyddwr | Cyflog 2020-21 | Cyflog 2019-20 | Buddion pensiwn 2020-21 | Buddion pensiwn 2019-20 | Cyfanswm 2020-21 | Cyfanswm 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **James Price** Prif Weithredwr (wedi'i secondio o Lywodraeth Cymru) | 160-165 | 155-160 | 70-75 | 60-65 | 235-240 | 220-225 |
| **Heather Clash** Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol | 125-130 | 120-125 | 10-15 | 5-10 | 135-140 | 130-135 |
| **Scott Waddington** Cyfarwyddwr anweithredol - Cadeirydd* | 35-40 | 25-30 | - | - | 35-40 | 25-30 |
| **Sarah Howells** Cyfarwyddwr anweithredol | 5-10 | 5-10 | - | - | 5-10 | 5-10 |
| **Nicola Kemmery** Cyfarwyddwr anweithredol | 5-10 | 5-10 | - | - | 5-10 | 5-10 |
| **Alison Noon-Jones** Cyfarwyddwr anweithredol | 5-10 | 5-10 | - | - | 5-10 | 5-10 |
| **Alun Bowen** Cyfarwyddwr anweithredol | 5-10 | 0-5 | - | - | 5-10 | 0-5 |
| **Vernon Everitt** Cyfarwyddwr anweithredol o fis Medi 2019 | 5-10 | 0-5 | - | - | 5-10 | 0-5 |

* Cyfarwyddwr Anweithredol a gafodd eu penodi a'u talu gan Lywodraeth Cymru

**Manylion pensiwn**

| Cyfarwyddwr | Pensiwn buddion diffiniedig cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/21 £000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/03/21 £000 | CETV ar 31/03/20 £000 | Gwir gynnydd yn y CETV £000 | Cyfraniad at gynllun cyfraniadau diffiniedig £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **James Price** Prif Weithredwr (wedi'i secondio o Lywodraeth Cymru) | 65-70 | 2.5-5 | 931 | 855 | 38 | - |
| **Heather Clash** Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol | - | - | - | - | - | 10-15 |

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Ni chafodd taliadau bonws na buddion eraill eu talu gan TrC.

## Pensiynau

Mae James Price, fel un o weithwyr Llywodraeth Cymru, yn aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Mae'r ffigur buddion pensiwn ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynrychioli gwerth oes y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a gyfrifwyd yn ôl (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Effeithir arno gan effaith chwyddiant a all arwain at amrywiadau sylweddol rhwng blynyddoedd.

Mae gweithwyr TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae'r ffigur buddion pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr o 8%.

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn y cyflogwr TrC.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth asesiedig actiwaraidd y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu gyda buddion a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion a gyfrifir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnydd sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o'r Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cymarebau tâl

Tâl band y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn TrC yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 oedd £160-165,000 (2019-20: £155-160,000). Roedd hyn 6.4 gwaith (2019-20: 5.3 gwaith) y tâl canolrifol ar gyfer cyflogeion TrC, a oedd yn £25,350 (2019-20: £29,879). Gellir priodoli'r cynnydd o un flwyddyn i'r llall i drosglwyddo'r gwasanaeth glanhau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau o fis Chwefror 2021 ymlaen. Trosglwyddodd 91 o gydweithwyr glanhau o'r sector preifat i TrC, a effeithiodd ar ddosbarthiad y gweithwyr ar draws y strwythur graddfeydd yn ôl rôl. Ni chafodd unrhyw weithiwr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf.

Mae cyfanswm y tâl ar gyfer y lluosrif cyflog yn cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

## Strwythur talu a graddfeydd

Mae'r tabl canlynol yn nodi strwythur cyflogau a graddfeydd TrC gan gynnwys y bandiau cyflog ar gyfer pob rôl a nifer yr unigolion ym mhob band ym mis Mawrth 2021. Mae hyn yn cynrychioli cyflogeion TrC yn unig oherwydd bod gan Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig strwythur cyflogau a graddfeydd ar wahân.

| Band Cyflog | Cyflog Sylfaenol Blynyddol (Isafswm) | Cyflog Sylfaenol Blynyddol (Targed) | Cyflog Sylfaenol Blynyddol (Uchafswm) | Nifer y Staff ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Band Cyflog 2 y Cyfarwyddwr Gweithredol** (gan gynnwys aelodau gweithredol o'r bwrdd) | £117,200 | £146,500 | £175,800 | 6 |
| **Band Cyflog 1 y Cyfarwyddwr Gweithredol** (gan gynnwys aelodau gweithredol o'r bwrdd) | £96,800 | £121,000 | £150,600 | 7 |
| **1** | £70,000 | £87,500 | £105,000 | 21 |
| **2** | £50,400 | £63,000 | £75,600 | 54 |
| **3** | £37,200 | £46,500 | £55,800 | 83 |
| **4** | £28,400 | £35,500 | £42,600 | 63 |
| **5** | £22,000 | £27,500 | £33,000 | 46 |
| **6** | £16,800 | £21,000 | £25,200 | 201 |

# Adroddiad y cyfarwyddwyr

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

## Cyfarwyddwyr

Dyma'r Cyfarwyddwyr a oedd dal mewn swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn:

| Enw | Rôl |
|---|---|
| **J S Waddington** | Cadeirydd / Cyfarwyddwyr Anweithredol |
| **S Howells** | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **N J Kemmery** | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **A J Noon-Jones** | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **D A Bowen** | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **V J Everitt** | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **J R Price** | Cyfarwyddwr Gweithredol |
| **H J Clash** | Cyfarwyddwr Gweithredol |

Does dim penodiadau nac ymddiswyddiadau wedi bod yn 2020-21.

## Offerynnau ariannol

**Hylifedd a risg llif arian**

Rydym yn monitro ein cyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ein rhwymedigaethau pan fyddan nhw'n ddyledus.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gynllun ymddiogelu prisiau tanwydd rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mawrth 2023. Mae'r cynllun gwn yn lliniaru'r risg sy'n deillio o newidiadau ym mhris tanwydd a fyddai'n creu ansicrwydd ym mherfformiad ariannol y busnes.

## Risg credyd

Nid ydym yn wynebu risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp naill ai'n cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a dderbynnir ymlaen llaw, drwy fasnachu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy werthu arian parod i'r cyhoedd. Caiff ein risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

## Difidend arfaethedig

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.



## Gweithwyr cyflogedig

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynwysiant ar dudalennau 36 i 40 ac yn adroddiad y pwyllgor pobl ar dudalennau 64 a 65. Mae rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â gweithwyr ar gael yn y datganiad adran 172 ar dudalen 74.

## Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill mewn perthynas fusnes â'r cwmni

Mae gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â'n cyflenwyr, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill wedi'i chynnwys yn ein datganiad adran 172 ar dudalen 74. Ein nod yw talu ein holl gyflenwyr cyn gynted ag y caiff y gwariant ei gymeradwyo gan gydymffurfio â Chod Talu'n Brydlon y Llywodraeth.

## Adroddiadau ynni a charbon

Mae gwybodaeth am ein defnydd o ynni a'n camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y datganiad Datgarboneiddio Trafnidiaeth ar dudalen 78.

## Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, nid oes gennym yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

## Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd safonau uchel, ac yn cadw'r safonau hynny, o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, ac yn ein holl arferion gwaith. Disgwylir i'n gweithwyr ymddwyn yn gywir, yn ddiduedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â hwy nac yn eu cosbi am wneud hynny.

## Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ail-benodi, ac felly bydd yn parhau yn y swydd.

Trwy orchymyn y Bwrdd



**James Price**
**Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr**

3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
29 Mehefin 2021

# Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr o ran yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

Mae ein Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant gwmni yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, mae'n rhaid i'n Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r rhiant-gwmni am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y grŵp yn ôl safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a'r gyfraith berthnasol. Maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Fframwaith Datgelu Llai FRS 101.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff ein Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni yn ogystal â sefyllfa elw a cholled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn graff;
- ar gyfer datganiadau ariannol y Grŵp, datgan a ydynt wedi cael eu paratoi yn ôl safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006;
- ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae ein Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau'r rhiant-gwmni a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r grŵp a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ein Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y cwmni, ac am gywirdeb y wybodaeth honno a gyhoeddir ar ein gwefan. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.








# Datganiadau ariannol


92 Adroddiad yr archwilydd annibynnol

96 Datganiad incwm cyfunol

97 Datganiad cyfunol am y sefyllfa ariannol

98 Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti

99 Datganiad llif arian cyfunol

100 Datganiad y cwmni am y sefyllfa ariannol

101 Datganiad y cwmni am newidiadau mewn ecwiti

102 Nodiadau

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol

**Barn**
Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol, Datganiadau'r cwmni am y Sefyllfa Ariannol, Datganiad y cwmni am Newidiadau mewn Ecwiti a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2021 ac o elw'r grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae datganiadau ariannol y grŵp wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a gofynion Deddf Cwmnïau 2006
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 101 - Fframwaith Datgelu Llai; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail ein barn**
Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU – gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol – ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â hynny. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

**Busnes gweithredol**
Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r grŵp na'r cwmni na dirwyn eu gweithrediadau i ben, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod hyn yn realistig wrth ystyried sefyllfa ariannol y grŵp a'r cwmni. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Rydym wedi defnyddio ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i ganfod risgiau i'w fodel busnes ac wedi dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y grŵp a'r cwmni neu ar eu gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Yn ein barn ni, y risgiau a oedd yn fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni dros y cyfnod hwn oedd argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unol â chylch gwaith y Grŵp.

Gwnaethom ystyried a allai'r risg hon effeithio'n gredadwy ar yr hylifedd yn y cyfnod busnes gweithredol trwy gymharu senarios anfantais difrifol, ond credadwy, a allai ddeillio o'r risg hon, yn erbyn lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael, a nodwyd gan ragolygon ariannol y Grŵp.

Rydym wedi asesu cyflawnder y datgeliad busnes gweithredol.

Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn credu bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi canfod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes, ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp neu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.
- gwnaethom ystyried y datgeliad busnes gweithredol yn nodyn 1 yn dderbyniol.



Fodd bynnag, gan na allwn ni ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol ar y pryd y rhoddwyd hi, nid yw'r canlyniadau uchod yn gwarantu y bydd y grŵp neu'r cwmni yn parhau i weithredu.

**Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod**

*Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll*

Er mwyn canfod risgiau o gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi cyfarwyddwyr ac archwilio dogfennau polisi oedd yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio fewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal â p'un ai oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll, neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y bwrdd a'r pwyllgor archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm archwilio am y risgiau o dwyll a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gallai tîm rheoli'r Grŵp a'r cydrannau rheoli fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol a'r risg fod rhagfarn mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a dyfarniadau fel prisio asedau. Yn yr archwiliad hwn, nid ydym yn credu bod risg o dwyll yn gysylltiedig â chydnabod refeniw gan mai incwm trosglwyddo costau gan Lywodraeth Cymru yw'r refeniw.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau ychwanegol o ran twyll.

Wrth benderfynu ar y gweithdrefnau archwilio, rydym wedi ystyried canlyniadau ein gwerthusiad a'n profion o effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risg twyll y Grŵp cyfan.

Rydym wedi cynnal gweithdrefnau gan gynnwys:

- Canfod cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill i'w profi ar sail meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a ganfuwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion dyddlyfrau a wnaed i gyfrifon a oedd yn gysylltiedig â'n risgiau sylweddol a chyfuniadau annisgwyl eraill o gyfrifon.

*Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau*

Rydyn ni wedi canfod y cyfreithiau a'r rheoliadau y gellid disgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad o'r sector, a thrwy drafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio), ac o arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol y Grŵp a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiad yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw y dosbarthir, deddfwriaeth trethu, ac rydym wedi asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau'r datganiad ariannol cysylltiedig.

Er bod y Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill, nid ydym wedi canfod unrhyw rai eraill lle byddai canlyniadau peidio â chydymffurfio yn unig gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol.

*Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad*
Oherwydd y cyfyngiadau sylfaenol sy'n gysylltiedig ag archwiliad, mae risg anochel na fyddwn wedi dod o hyd i rai achosion o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau'r safonau archwilio sydd, yn eu hanfod yn gyfyngedig, yn eu canfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â dod o hyd i dwyll, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

**Yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr**

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr adroddiad strategol ac am adroddiad y cyfarwyddwyr. Nid yw ein barn ni am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr adroddiadau hynny, ac nid ydym yn mynegi barn archwilio amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr, ac wrth wneud hynny ystyried – ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol – a yw'r wybodaeth ynddynt yn cael ei chamddatgan yn sylweddol, neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio ni. Ar sail y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi dod o hyd i gamddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn yr adroddiadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiadau hynny wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 yn ein barn ni.

**Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y rhiant-gwmni, neu nid oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr**

Fel mae datganiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 88, yn ei egluro'n fanylach, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; y gwaith rheoli mewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd**

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

**Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau**

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Rees Batley

**Rees Batley (Uwch-archwilydd Statudol)**
**ar ran ac yn enw KPMG LLP, Archwilydd Statudol**
*Cyfrifwyr Siartredig*
3 Sgŵar y Cynulliad
Cei Britannia
Bae Caerdydd
CF10 4AX

30 Mehefin 2021

# Datganiad incwm cyfunol

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| Costau gweithredu | 2 | **121,654** | 33,474 |
| | | **(121,559)** | (33,455) |
| **Gwarged Gweithredu** | | **95** | 19 |
| Treuliau ariannol | 6 | **(270)** | (7) |
| Llog sydd i'w dderbyn | 6 | **10** | - |
| **Costau cyllido net** | | **(260)** | **(7)** |
| **Gwarged cyn treth** | | **(165)** | 12 |
| Trethiant | 7 | **513** | 16 |
| **Gwarged am y flwyddyn** | | **348** | 28 |
| **Datganiad o Incwm cynhwysfawr arall** | | | |
| *Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled:* | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **2,078,772** | - |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig | 18 | **(60)** | - |
| Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian | 19 | **973** | - |
| Treth ar incwm cynhwysfawr arall | 7 | **(178)** | - |
| **Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net treth incwm** | | **2,079,507** | - |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **2,079,855** | 28 |

Mae'r holl incwm cyfun wedi'i briodoli i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r holl weithrediadau'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 138 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.




# Datganiad cyfunol am y sefyllfa ariannol

ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **3,039,096** | 608,428 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **13,700** | 2,173 |
| | | **3,052,796** | 610,601 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau o'r hyn sydd ar gael | 11 | **4,826** | 74 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **99,892** | 35,930 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 13 | **18,942** | 16,672 |
| | | **123,660** | 52,676 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **3,176,456** | 663,277 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **148,698** | 51,676 |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | **32,409** | 125 |
| Darpariaethau | 15 | **209** | - |
| | | **181,316** | 51,801 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | **87,741** | - |
| Grantiau cyfalaf y llywodraeth wedi'u gohirio | 17 | **822,975** | 610,453 |
| Buddion gweithwyr | 18 | **1,206** | 342 |
| Darpariaethau | 15 | **2,682** | - |
| | | **914,604** | 610,795 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **1,095,920** | 662,596 |
| **Asedau net** | | **2,080,536** | 681 |
| **Ecwiti sydd i'w briodoli i ddeiliaid ecwiti'r rhiant** | | | |
| Gwarged wrth gefn | | **975** | 681 |
| Cronfa Ailbrisio | | **2,078,772** | - |
| Cronfa wrth gefn rhagfantoli | | **789** | - |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **2,080,536** | 681 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 29 Mehefin 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



**J R Price**
Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

# Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti

ar 31 Mawrth 2021

| | Gwarged a gadwyd £000 | Cronfa Ailbrisio £000 | Cronfa wrth gefn rhagfantoli £000 | Cyfanswm ecwiti £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | 653 | - | - | 653 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | |
| Gwarged | 28 | - | - | 28 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | 28 | - | - | 28 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **681** | **-** | **-** | **681** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | **681** | **-** | **-** | **681** |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | |
| Gwarged | 348 | - | - | 348 |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | 2,078,772 | - | 2,078,772 |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig | (60) | - | - | (60) |
| Cyfran effeithiol o newidiadau mewn gwerth teg rhagfantoli llif arian | - | - | 973 | 973 |
| Treth ar incwm cynhwysfawr arall | 6 | - | (184) | (178) |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | 294 | 2,078,772 | 789 | 2,079,855 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **975** | **2,078,772** | **789** | **2,080,536** |

Mae'r holl ecwiti wedi'i briodoli i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru (nid oes ecwiti wedi'i briodoli i fuddiannau heb reolaeth).



# Datganiad llif arian cyfunol

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | | **348** | 28 |
| *Addasiadau ar gyfer:* | 8 & 9 | | |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau | 17 | **19,828** | 358 |
| Rhyddhau grantiau'r llywodraeth sydd wedi'u gohirio | | **(13,106)** | (215) |
| Treuliau ariannol | 7 | **260** | 7 |
| Trethiant | | **(513)** | (16) |
| | | **6,817** | 162 |
| (Cynnydd)/lleihad yn y rhestrau | 11 | **(101)** | (74) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **(85,942)** | (2,056) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14 | **74,977** | 4,896 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau a buddion gweithwyr | 15 | **944** | - |
| Treth a dalwyd | 7 | **4** | - |
| **Arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **(3,301)** | 2,928 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar* | 8 | **(148,170)** | (73,111) |
| Caffael busnes (net o arian parod) | 23 | **695** | - |
| Caffael asedau anniriaethol | 9 | **(7,809)** | (2,173) |
| Gwariant cyfalaf ar asedau trydydd parti | 17 | **(2,075)** | (1,991) |
| Enillion ar ôl derbyn grantiau cyfalaf y llywodraeth* | 12,17 | **168,147** | 77,042 |
| **Arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **10,788** | (233) |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Talu rhwymedigaethau prydles | 20 | **(5,217)** | (170) |
| **Arian net o weithgareddau ariannu** | | **(5,217)** | (170) |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | | **2,270** | 2,525 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill | 13 | **16,672** | 14,147 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth** | 13 | **18,942** | 16,672 |

* Cafodd y gwaith o gaffael Llinellau Craidd y Cymoedd gan Network Rail yn ystod 2019/20 ei ariannu gan fecanwaith dim arian – gweler nodyn 8 a 17. Mae hyn wedi'i eithrio o gaffaeliadau ac elw grant yn yr wybodaeth gymharol.

# Datganiad y cwmni am y sefyllfa ariannol

ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **2,809,163** | 608,428 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **3,982** | 2,173 |
| | | **2,813,145** | 610,601 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau o'r hyn sydd ar gael | 11 | **15** | 74 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **86,812** | 35,930 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 13 | **11,001** | 16,672 |
| | | **97,828** | 52,676 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **2,910,973** | 663,277 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **93,420** | 51,676 |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | **-** | 125 |
| Darpariaethau | 15 | **209** | - |
| | | **93,629** | 51,801 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 20 | **13,451** | - |
| Grantiau cyfalaf y llywodraeth | 17 | **721,363** | 610,453 |
| Buddion gweithwyr | 18 | **424** | 342 |
| Darpariaethau | 15 | **2,682** | - |
| | | **737,920** | 610,795 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **831,549** | 662,596 |
| **Asedau net** | | **2,079,424** | 681 |
| **Ecwiti** | | | |
| Cyfalaf cyfrannau | | **-** | - |
| Gwarged wrth gefn | | **652** | 681 |
| Cronfa Ailbrisio | | **2,078,772** | - |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **2,079,424** | 681 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 29 Mehefin 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



**J R Price**
Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013



# Datganiad y cwmni am newidiadau mewn ecwiti

ar 31 Mawrth 2021

| | Gwarged wrth gefn £000 | Cronfa Ailbrisio £000 | Cyfanswm ecwiti £000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | 653 | - | 653 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | |
| Gwarged | 28 | - | 28 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | 28 | - | 28 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **681** | **-** | **681** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | **681** | **-** | **681** |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | |
| Gwarged | **-** | **-** | **-** |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | 2,078,772 | **2,078,772** |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig | (29) | - | **29** |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod | (29) | 2,078,772 | **2,078,743** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **652** | **2,078,772** | **2,079,424** |

# Nodiadau

yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

## 1 Polisïau cyfrifyddu

Mae Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yn y DU ac sydd â'i ddomisil yno. Y rhif cofrestredig yw 09476013 a'r cyfeiriad cofrestredig yw 3 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd CF37 4TH. Mae'r Cwmni yn is-gwmni sy'n dod o dan reolaeth lwyr Gweinidogion Cymru (corff a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) ac oherwydd hyn ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

### Y sail ar gyfer paratoi

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'i is-gwmnïau (gyda'i gilydd "y grŵp" neu "TrC") wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol gan gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101, *Fframwaith Datgelu Llai ("FRS 101").*

O dan adran a408 o Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'r Cwmni wedi'i eithrio o'r gofyniad i gyflwyno ei gyfrif elw a cholled ei hun.

Wrth baratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, mae'r Cwmni wedi cymhwyso'r esemptiadau sydd ar gael o dan FRS 101 mewn perthynas â'r datgeliadau canlynol:

- Datganiad llif arian a nodiadau cysylltiedig
- Rhai datgeliadau o ran refeniw
- Datgeliadau mewn perthynas â thrafodion gydag is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr
- Datgeliadau mewn perthynas â rheoli cyfalaf

Gan fod datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y datgeliadau cyfatebol, mae'r Cwmni hefyd wedi defnyddio'r esemptiadau sydd ar gael o dan FRS 101 yng nghyswllt y datgeliadau canlynol:

- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 3 *Cyfuniadau Busnes* mewn perthynas â chyfuniadau busnes a gyflawnir gan y Cwmni; a
- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 13 *Mesur Gwerth Teg* a'r datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 7 *Datgeliadau Offeryn Ariannol.*

Paratoir y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol ac eithrio ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol (gan gynnwys deilliadau) wedi'u mesur yn ôl gwerth teg.

Oni nodir yn wahanol, mae'r polisïau cyfrifyddu isod wedi cael eu cymhwyso'n gyson i bob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol hyn.

### Newid mewn polisïau cyfrifyddu

Dyma'r set gyntaf o ddatganiadau ariannol cyfunol, ar ôl ymgorffori dau is-gwmni sydd wedi dechrau masnachu yn ystod y flwyddyn.

Yn y datganiadau ariannol hyn, mae TrC wedi mabwysiadu sail prisio wahanol ar gyfer ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd am y tro cyntaf; mae hwn wedi cael ei drin fel prisiad am y tro cyntaf ar 31 Mawrth 2021 heb ailddatganiad cymharol yn unol ag IAS 8 *Polisïau Cyfrifyddu, Newidiadau mewn Amcangyfrifon Cyfrifyddu a Gwallau.*

Mae nifer fach o IFRS sydd newydd gael eu mabwysiadu neu ddiwygiadau i IFRS wedi cael eu mabwysiadu yn y datganiadau ariannol hyn am y tro cyntaf, ac nid oes yr un ohonynt yn cael effaith sylweddol.

### Sail cyfuno

Mae is-gwmnïau i gyd yn endidau y mae gan y grŵp reolaeth drostynt. Mae'r grŵp yn:

- Cyfuno is-gwmnïau o'r dyddiad y mae'r rheolaeth yn trosglwyddo i'r grŵp ac yn dadgyfuno o'r dyddiad y daw'r rheolaeth i ben;
- Newid polisïau cyfrifyddu is-gwmnïau, lle bo angen, i sicrhau cysondeb â'r polisïau a fabwysiadwyd gan y grŵp;
- Dileu trafodion a balansau rhwng cwmnïau yng nghanlyniadau'r grŵp.

### Busnes gweithredol

Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae cyfarwyddwyr y Cwmni yn disgwyl yn rhesymol bod gan TrC ddigon o gyllid wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gylch gwaith gweithredol ac i barhau mewn bodolaeth weithredol ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol fel y nodir yn IAS 1 *Cyflwyno Datganiadau Ariannol* h.y. o leiaf 12 mis o ddyddiad y datganiadau ariannol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llythyr cylch gwaith i TrC, sy'n cynnwys y gyllideb a ddyrannwyd i gyflawni gweithgareddau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae TrC wedi cael llythyr cylch gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022 yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i TrC ei gyflawni yn ystod y flwyddyn honno. Bydd hyn yn seiliedig ar lythyr cylch gwaith cyllido a chyfarwyddiadau cyllido pellach ar gyfer 2021/22 yn ddiweddarach yn y flwyddyn (disgwylir i lythyrau cylch gwaith a chyllido 2022/23 gael eu derbyn yn hanner cyntaf 2022). Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu llythyr o gefnogaeth yn nodi ei bwriad i barhau i ddarparu cyllid (gan gynnwys cyllid parhaus i Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf) am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn. Byddai disgwyl i'r gefnogaeth hon barhau hyd yn oed mewn sefyllfa negyddol (gweler y Datganiad Cydnerthedd am ragor o ystyriaethau).

Fel gydag unrhyw gwmni sy'n dibynnu ar endidau grŵp eraill am gymorth ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod nad oes sicrwydd y bydd y gefnogaeth hon yn parhau, er, ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, nid oes ganddynt reswm dros gredu na fydd yn gwneud hynny.

Felly, mae'r cyfarwyddwyr yn dal i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Penderfyniadau cyfrifyddu critigol

Mae'r prif benderfyniadau a wneir gan TrC wrth gymhwyso ei bolisïau cyfrifyddu wedi'u nodi isod:

*Rhoi cyfrif am y ffordd y caiff cyllid ei drin gan Lywodraeth Cymru*
Mae TrC yn cael cyllid cyfalaf ac adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd asesiad i weld a ddylid trin y cyllid hwn fel grant gan y llywodraeth, cyfraniad cyfalaf neu refeniw. Daethpwyd i'r casgliad, pe bai'r Cwmni, drwy'r llythyr cylch gwaith a gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, yn gorfod cyflawni gweithgareddau penodol i gael yr arian, ond heb unrhyw ddarpariaeth benodol o wasanaethau i Lywodraeth Cymru, mae'r arian wedi cael ei drin fel grant gan y llywodraeth. Mae gweithgareddau sy'n darparu gwasanaethau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru wedi cael eu trin fel refeniw o dan IFRS 15 a'u hanfonebu yn unol â hynny.

Wrth ystyried y grant a dderbynnir sydd wedi'i dalu'n uniongyrchol i Keolis Amey Wales Cymru Limited (sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) yn unol â chytundeb grant Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited tan 7 Chwefror 2021, mae'r cyfarwyddwyr wedi penderfynu bod y TrC yn gweithredu fel asiant yn unig. Oherwydd hyn, mae'r taliadau grant i Keolis Amey Wales Cymru Limited yn cael eu netio yn erbyn yr incwm grant cyfatebol yn y datganiad Incwm. O 7 Chwefror 2021 ymlaen, cafodd hyn ei ddisodli gan gytundeb newydd rhwng Gweinidogion Cymru a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf, o dan drefniadau Gweithredwr y Dewis Olaf ("y Cytundeb OLR"). O'r herwydd, mae taliadau ers 7 Chwefror 2021 yn cael eu dangos yn gros yn y datganiadau ariannol cyfunol.

*Penderfyniadau mewn perthynas â phrisio rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd*
Mae nifer o benderfyniadau yn gysylltiedig â rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfnod dibrisiant (gweler y polisi dibrisiant), a'r tybiaethau a ddefnyddir i lunio'r amcangyfrifon ar gyfer gweddill yr oes ddefnyddiol, costau iawndal tir a'r risg. Mae rhagor o fanylion am y tybiaethau hyn a'u sensitifrwydd yn cael eu nodi yn nodyn 8.

## Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif

Mae TrC yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ar sail profiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Caiff yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff addasiadau eu cydnabod yn y cyfnod lle caiff yr amcangyfrif ei addasu.

Y prif amcangyfrif sy'n effeithio ar y flwyddyn ariannol bresennol yw prisio ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cael ei drafod yn fanylach yn y polisi cyfrifyddu Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r datgeliadau sensitifrwydd yn nodyn 8.

## Refeniw

Mae gan TrC bum categori incwm:

- Grantiau'r llywodraeth
- Prosiectau eraill gyda Llywodraeth Cymru
- Incwm cymhorthdal masnachfraint
- Refeniw teithwyr
- Refeniw arall

*Grantiau'r llywodraeth*
Mae TrC yn cael grantiau adnoddau a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru a rhoddir cyfrif amdanyn nhw dan IAS 20 Grantiau'r Llywodraeth.

- *Grant Adnoddau*

  Mae TrC yn cael grant adnoddau gan Lywodraeth Cymru i ad-dalu'r costau gweithredu y mae TrC wedi'u hysgwyddo neu y bydd yn eu hysgwyddo. O ran ad-dalu costau gweithredu, bydd y grant yn cael ei gydnabod fel incwm yn y cyfnod pan ysgwyddir y costau perthnasol, tra bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddangos fel incwm gohiriedig ar y datganiad am y sefyllfa ariannol. Mae incwm sy'n gysylltiedig â chostau gweithredu'r Cwmni yn ymddangos ar linell ar wahân ar y datganiad incwm.

- *Grantiau Cyfalaf*

  Mae TrC yn cael grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf sy'n rhan o'i gylch gwaith. Mae TrC wedi dewis cyflwyno'r grant fel incwm gohiriedig yn hytrach na thynnu'r grant o swm cario'r ased. Caiff yr incwm ei gydnabod yn y datganiad incwm i gyd-fynd â'r costau perthnasol. Ar gyfer grant cyfalaf, mae hyn yn golygu cydnabod yr incwm dros oes ddefnyddiol yr ased fel bod y grant yn cyfateb i'r tâl dibrisio (h.y. y gost berthnasol).

- *Grantiau eraill gan y llywodraeth*

  Yn ogystal â'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, bydd TrC yn cael grantiau gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer prosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd y grantiau hyn yn cael eu trin yr un fath â grantiau Llywodraeth Cymru.

*Prosiectau eraill gyda Llywodraeth Cymru*
Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu TrC i gyflawni gwaith/gwasanaethau eraill sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Ein polisi yw cydnabod y refeniw hwn dros amser wrth i feini prawf perthnasol IFRS 15 gael eu bodloni, yn benodol bod y contractau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion a ddarperir ar yr un pryd wrth iddynt gael eu cyflawni a bydd yn cydnabod unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau hyd yma.

Bydd swm y refeniw a gydnabyddir dros amser yn cael ei fesur gan y cynnydd a wneir tuag at lwyr fodloni'r rhwymedigaeth perfformio (cwmpas y gwaith a nodir yn y prosiect). Mae TrC wedi dewis seilio mesur y refeniw ar ddull mewnbwn ar sail y costau a ysgwyddir.

*Incwm cymhorthdal masnachfraint*
Mae incwm cymhorthdal masnachfraint yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru o dan y cytundeb grant OLR (o 7 Chwefror 2021 ymlaen) i sybsideiddio colled weithredol y cwmni (ar ôl refeniw teithio a refeniw arall), yn ogystal ag ariannu gwariant asedau cyfalaf penodol.

Caiff hwn ei ryddhau i'r datganiad incwm sy'n cyd-fynd â'r gwariant perthnasol (neu ddibrisiant asedau mewn perthynas â chyllid cyfalaf).

*Refeniw teithwyr*
Mae incwm teithwyr yn cynrychioli symiau y cytunwyd arnynt fel y'u priodolir i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gan systemau dyrannu incwm y Rail Settlement Plan Limited ("RSP"), yn bennaf mewn perthynas â derbynebion teithwyr. Mae'r RSP yn gweinyddu'r system dyrannu incwm yn niwydiant rheilffyrdd y DU ac yn dyrannu refeniw i weithredwyr yn bennaf ar sail modelau defnydd llwybrau y cytunwyd arnynt. Priodolir incwm yn bennaf ar fodelau o agweddau penodol ar batrymau teithio teithwyr ac, i raddau llai, o ddyraniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer llifoedd refeniw penodol. Gall y gyfran a briodolir o incwm tocyn tymor gynnwys rhywfaint o amcangyfrif – er enghraifft, caiff refeniw ei ohirio o fewn credydwyr a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm dros flwyddyn y tocyn tymor perthnasol.

Caiff refeniw ei ohirio pan fydd teithwyr yn prynu tocynnau ar gyfer teithio yn ystod cyfnodau ariannol neu docynnau tymor yn y dyfodol. Bydd hwn wedyn yn cael ei ryddhau yn yr un cyfnod ariannol â hyd y daith neu'r tocyn tymor.

*Refeniw arall*
Mae refeniw arall yn cynnwys gwasanaethau ymgynghori trafnidiaeth a ddarperir i drydydd partïon, incwm rhent, ffioedd mynediad i orsafoedd, ad-daliadau, gwerthiant tanwydd ac incwm cynnal a chadw. Mae hefyd yn cynnwys incwm arlwyo trenau, sy'n cynnwys gwerthiannau arian parod a chardiau i gwsmeriaid sy'n teithio ar drenau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

*Costau contract*
Caiff y costau a ysgwyddwyd wrth gyflawni contractau trydydd parti eu nodi fel ased, ar yr amod bod y costau'n ymwneud yn uniongyrchol â chontract neu gontract disgwyliedig, fod y costau'n creu neu'n gwella adnoddau a ddefnyddir i fodloni rhwymedigaethau perfformiad yn y dyfodol; a bod disgwyl i'r costau gael eu hadennill. Cofnodir costau cyffredinol a gweinyddol, neu gostau sy'n ymwneud â rhwymedigaethau perfformiad sydd wedi'u bodloni yn y contract, fel costau pan maent yn digwydd. Caiff ased contract ei amorteiddio ar sail systemig sy'n cyd-fynd â throsglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r ased yn berthnasol iddynt i'r cwsmer.

Nid yw TrC yn cydnabod costau cynyddrannol wrth gael contract gan fod cyfnod amorteiddio'r ased y byddai fel arall wedi'i gydnabod yn flwyddyn neu lai.

## Offerynnau ariannol

Mae offerynnau ariannol yn drefniadau contractiol sy'n arwain at ased ariannol un endid ac offeryn atebolrwydd ariannol neu ecwiti endid arall. Maen nhw'n cael eu cydnabod yn gyntaf pan fydd Grŵp yn dod yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn.

*Asedau Ariannol*
Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i un o dri phrif gategori yn ôl y model busnes ar gyfer rheoli'r ased ariannol a nodweddion llif arian cytundebol yr ased ariannol:

- Mae asedau ariannol ar gost amorteiddio yn asedau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol, sy'n cael eu dal i gasglu llifoedd arian cytundebol, lle mae'r llifoedd arian hynny'n cynrychioli prif daliadau a'r llog yn unig. Caiff asedau ariannol ar gost amorteiddio eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol (os yw'n dwyn llog) neu ar sail gwerth enwol ac maent yn agored i amhariad. Caiff enillion a cholledion eu cydnabod mewn elw neu golled pan fydd yr ased yn cael ei ddatgydnabod, ei addasu neu fod yn destun amhariad.
- Mae asedau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled (FVTPL) yn cynnwys asedau ariannol sy'n cael eu dal ar gyfer masnachu, asedau ariannol sydd wedi'u dynodi ar sail cydnabyddiaeth gychwynnol am werth teg drwy elw neu golled, neu asedau ariannol y mae'n rhaid eu mesur yn ôl gwerth teg. Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu os cawsant eu caffael at ddibenion gwerthu neu ailbrynu yn y tymor agos. Mae deilliadau hefyd yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n cael eu dal ar gyfer masnachu oni bai eu bod wedi'u dynodi'n offerynnau rhagfantoli effeithiol. Mae asedau ariannol ar werth teg drwy elw neu golled yn cael eu cario yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg, gyda newidiadau net mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm o fewn costau cyllid. Mae costau trafodion sy'n deillio o gydnabyddiaeth gychwynnol yn cael eu gosod fel treuliau yn y datganiad incwm.
- Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall – nid oes gan y Grŵp unrhyw asedau ariannol sy'n cael eu dal am werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall.

*Rhwymedigaethau ariannol*
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol. Mae rhwymedigaethau ariannol y Grŵp yn golygu symiau masnach taladwy sy'n cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, ac unrhyw offerynnau ariannol deilliadol sy'n cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen.

*Deilliadau a gweithgareddau rhagfantoli*
Mae offerynnau ariannol deilliadol yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg. Caiff enillion neu golledion wrth ail-fesur gwerth teg eu cydnabod ar unwaith fel elw a cholled. Fodd bynnag, lle mae deilliadau'n gymwys ar gyfer cyfrifyddu rhagfantoli, mae cydnabod unrhyw enillion neu golledion canlyniadol yn dibynnu ar natur yr eitem sy'n cael ei rhagfantoli (gweler isod).

Mae'r Grŵp yn dynodi deilliadau penodol fel offerynnau rhagfantoli llif arian i gynnal yr amrywioldeb mewn llifoedd arian sy'n gysylltiedig â rhagolygon tebygol iawn o drafodion, sy'n deillio o newidiadau mewn prisiau tanwydd.

Ar ddechrau perthynas rhagfantoli ddynodedig, mae'r Grŵp yn dogfennu'r amcan rheoli risg a'r strategaeth ar gyfer rhagfantoli. Mae'r Grŵp hefyd yn dogfennu'r berthynas economaidd rhwng yr eitem wedi'i rhagfantoli a'r offeryn sy'n rhagfantoli, gan gynnwys a oes disgwyl i'r newidiadau yn llifoedd arian yr eitem wedi'i rhagfantoli a'r offeryn sy'n rhagfantoli wrthbwyso ei gilydd.

Pan ddynodir offeryn ariannol deilliadol i ragfantoli'r amrywioldeb mewn llifoedd arian ased neu rwymedigaeth cydnabyddedig, neu os yw'n drafodiad rhagweld tebygol iawn, cydnabyddir yn uniongyrchol y rhan sy'n cael effaith o unrhyw elw neu golled ar yr offeryn ariannol deilliadol yn y gronfa rhagfantoli. Caiff unrhyw gyfran rhagfantoli aneffeithiol ei chydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Pan fydd y trafodyn rhagweld yn arwain wedyn at gydnabod eitem anariannol (gan gynnwys eitem anariannol sy'n dod yn ymrwymiad cadarn y defnyddir cyfrifyddu rhagfantoli gwerth teg ar ei gyfer), bydd yr enillion neu'r golled gronnol cysylltiedig yn cael eu tynnu o'r gronfa rhagfantoli ac yn cael eu cynnwys yn swm cario cychwynnol yr ased neu'r rhwymedigaeth anariannol.

Ar gyfer pob trafodyn a ragwelir arall sydd wedi'i ragfantoli, bydd yr enillion neu'r golled gronnol cysylltiedig yn cael eu hailddosbarthu i'r datganiad incwm yn ystod yr un cyfnod neu gyfnodau pan fydd y llif arian disgwyliedig wedi'i rhagfantoli yn y dyfodol yn effeithio ar elw neu golled.

Pan fydd yr offeryn rhagfantoli yn cael ei werthu, yn dod i ben, yn cael ei ddiddymu neu'n cael ei weithredu, neu pan fydd yr endid yn dirymu dynodiad y berthynas ragfantoli ond bod disgwyl o hyd i'r trafodyn rhagfantoli a ragwelir ddigwydd, mae'r enillion neu'r golled gronnol ar y pwynt hwnnw yn aros mewn ecwiti ac yn cael ei gydnabod yn unol â'r polisi uchod pan fydd y trafodyn yn digwydd. Os nad oes disgwyl i'r trafodyn rhagfantoli ddigwydd mwyach, cydnabyddir yr enillion neu'r golled gronnol nas gwireddwyd, a gydnabyddir mewn ecwiti, yn y datganiad incwm ar unwaith.

*Asedau ariannol gydag amhariadau o ran credyd*
Ar bob dyddiad adrodd, bydd y Grŵp yn asesu a oes amhariadau o ran credyd yn gysylltiedig â'r asedau ariannol a gariwyd ar gost wedi'i hamorteiddio. Gellir dweud bod 'amhariadau o ran credyd' yn berthnasol i ased ariannol os oes un neu ragor o ddigwyddiadau sy'n cael effaith niweidiol ar y llif arian a ragwelir ar gyfer y dyfodol wedi digwydd. Mae lwfans colled yn cael ei gydnabod am golledion disgwyliedig ar swm sy'n cyfateb i golledion credyd disgwyliedig oes.

## Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau eu cydnabod i ddechrau ar sail cost, sy'n cynnwys pris prynu neu gost adeiladu, yn ogystal ag unrhyw gostau y gellir eu priodoli i gael yr asedau yn y lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn gallu eu gweithredu (e.e. costau gweithwyr y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, cost paratoi a chlirio'r safle, costau danfon a thrin cychwynnol, costau gosod a chydosod a ffioedd proffesiynol).

Mae'r categori Asedau Rhwydwaith y Rheilffyrdd yn cael ei fesur yn ôl ei werth teg – gweler isod. Hefyd, mae asedau seilwaith rheilffyrdd gweithredol eraill nad ydynt yn rhan o rwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael eu hailbrisio. Mesurir categorïau eraill o eiddo, offer a chyfarpar gan ddefnyddio'r gost a oedd yn berthnasol gan dynnu colledion yn sgil amhariadau a dibrisiant sydd wedi cronni.

*Rhwydwaith Rheilffyrdd*
Ar 28 Mawrth 2020, cafodd TrC rai Asedau Rhwydwaith Rheilffyrdd dan y teitl Llinellau Craidd y Cymoedd gan Network Rail. Roedd y caffaeliad hwn yn cynnwys rheilffyrdd Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert.

Mae'r seilwaith rheilffyrdd, y gorsafoedd, y pontydd a'r asedau eraill hyn yn rhan o rwydwaith integredig arbenigol sy'n gwasanaethu ardal ddaearyddol ac felly maent wedi cael eu trin yn gyfwerth â'r canllawiau o dan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM ar gyfer asedau rhwydwaith (a ddefnyddir gan riant TrC, Llywodraeth Cymru, yn ei chyfrifon cyfunol). Rydym o'r farn bod y dull hwn yn rhesymol o dan IFRS gan fod IAS 16 yn llai rhagnodol yn ei brisiad, ac mae'r FREM yn darparu dehongliadau ychwanegol.

Mae asedau eiddo eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd, sy'n eiddo i TrC, ac yn rhan o lwybr sy'n eiddo i Network Rail ac nid yn rhan o Linellau Craidd y Cymoedd, yn cael eu cyflwyno ar wahân mewn tir ac adeiladau (e.e. maes parcio Gorsaf Bow Street).

Cafodd yr ased ei gydnabod yn wreiddiol am gost ond mae wedi cael ei ailbrisio ar ei werth teg eleni i gyd-fynd â pholisïau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Mae gwerth teg rhwydwaith Linellau Craidd y Cymoedd yn seiliedig ar Gostau Amnewid Dibrisiedig (DRC), gan ei fod yn ased arbenigol sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. I gynhyrchu'r prisiad hwn, mae angen defnyddio tybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Caiff y DRC ei gyfrifo drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith Linellau Craidd y Cymoedd yn gyntaf. Mae'r gost amnewid gros wedyn yn cael ei haddasu (neu "ddibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith Linellau Craidd y Cymoedd; y gost amnewid gros addasedig hon yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am dybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfwerth modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond sy'n cael ei adeiladu gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; ac
- adeiladu ar unwaith ar safle maes glas.

Er mwyn cyrraedd prisiad terfynol y DRC, caiff y gwerth amnewid gros ei addasu i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o weddill oes ddefnyddiol yr asedau, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith. Cynhelir prisiad llawn o leiaf bob pum mlynedd, gyda mynegeion mewnbwn yn cael eu defnyddio ar gyfer rhestr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim. Mae angen dyfarniad i bennu natur ased cyfwerth modern a chyflwr cyfredol yr asedau.

Mae prisiad Asedau Cyfatebol Modern yn defnyddio 'cydrannau' y gellir eu hailadrodd, sy'n cael eu cyfuno i ffurfio'r rhwydwaith. Dyma'r cydrannau:

- Gwaith tir
- Strwythurau
- Trydaneiddio, peiriannau a signalau
- Eiddo gweithredol
- Cledrau
- Telegyfathrebiadau

Mae pob gwaith adnewyddu sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd yn cael ei gyfalafu. Mae gwariant dilynol sy'n ychwanegu at wasanaethau neu oes rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei gyfalafu.



Mae gwelliannau ac adnewyddu asedau Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael eu cynnwys fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, nes byddant yn cael eu defnyddio, ac ar yr adeg honno bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo i'r categori Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn DRC.

Cymerir symudiadau mewn gwerth am i fyny i'r gronfa ailbrisio. Pennir symudiadau i lawr mewn gwerth yn erbyn unrhyw gredyd a ddelir yn y gronfa ailbrisio nes bydd y credyd wedi dod i ben ac wedi hynny wedi'i wario yn y Datganiad Incwm.

*Dibrisiant*
Caiff dibrisiant ei godi ar y Datganiad Incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifiedig pob rhan o eitem, offer neu gyfarpar. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio. Mae'r amcangyfrif o'r oes ddefnyddiol ar gyfer asedau a ddelir ar sail cost fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Gosodiadau a ffitiadau | 5-7 mlynedd |
| • Offer a pheiriannau | 5-10 mlynedd |
| • Adeiladau | ≤25 mlynedd |
| • Gwella Eiddo | 2 flynedd |
| • Offer Cyfrifiadurol | 3-5 mlynedd |
| • Cerbydau modur | 3 blynedd |
| • Stoc cerbydau | ≤35 mlynedd |

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol a amcangyfrifir; fel arfer mae'r rhain yn gyfartaleddau pwysedig ar gyfer amrywiaeth o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Mae'r cyfartaleddau pwysedig hyn yn cael eu crynhoi isod:

| | |
|---|---|
| • Gwaith tir | 98 mlynedd |
| • Strwythurau | 60 mlynedd |
| • Signalau a Phŵer | 27 mlynedd |
| • Eiddo Gweithredol | 32 mlynedd |
| • Cledrau | 18 mlynedd |
| • Telegyfathrebiadau | 9 mlynedd |

Mae hwn yn benderfyniad critigol yn seiliedig ar y data sydd ar gael i TrC, ac mae angen dyfarniad gofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu disodli'n aml, fel strwythurau a gwaith tir. Mae rhai cydrannau'n gallu byw'n hir iawn, fodd bynnag, ar gyfer y prisiad hwn, mae oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Bydd dulliau o gyfrifo dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad pob datganiad am y sefyllfa ariannol.

## Cyfuniadau Busnes

Cyfrifir am bob cyfuniad busnes drwy ddefnyddio'r dull caffael. Cyfrifir am gyfuniadau busnes gan ddefnyddio'r dull caffael ar y dyddiad caffael, sef y dyddiad y trosglwyddir y rheolaeth i'r Grŵp.

Mae'r Grŵp yn mesur ewyllys da ar y dyddiad caffael fel gwerth teg y gydnabyddiaeth a drosglwyddwyd; llai swm cydnabyddedig net (gwerth teg yn gyffredinol) yr asedau adnabyddadwy a gaffaelwyd a'r rhwymedigaethau tybiedig. Pan fydd y gormodedd yn negyddol, bydd enillion pryniant bargen yn cael eu cydnabod ar unwaith mewn elw neu golled.

Mae costau sy'n gysylltiedig â'r caffaeliad, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â dyroddi gwarantau dyled neu ecwiti, yn cael eu trin fel costau a ysgwyddir.

## Ewyllys da ac asedau anniriaethol

*Cydnabyddiaeth*
Mae asedau anniriaethol sy'n cael eu caffael gan y Grŵp yn cael eu datgan ar sail cost llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

*Amorteiddiad*
Caiff amorteiddiad ei godi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifiedig asedau anniriaethol. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r dyddiad y maent ar gael i'w defnyddio. Amcangyfrif bod oes ddefnyddiol trwyddedau meddalwedd ac eiddo deallusol yn 5-10 mlynedd.

*Ymchwil a datblygu*
Mae gwariant ar weithgareddau ymchwil yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm fel traul fel y'i hysgwyddir.

## Rhestrau o'r hyn sydd ar gael

Caiff rhestrau o'r hyn sydd ar gael eu prisio ar y gost neu'r gwerth credadwy net, pa un bynnag yw'r isaf. Mae'r gost yn cynnwys y pris prynu a dalwyd am y stocrestr. Mae'r gwerth gwireddadwy net yn seiliedig ar amcangyfrif o'r pris gwerthu, llai'r costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau a'u gwaredu. Gwneir darpariaeth ar gyfer eitemau sydd wedi dod i ben, sy'n symud yn araf neu sy'n ddiffygiol lle bo hynny'n briodol.

## Asedau anariannol ac amhariadau

Caiff symiau cario asedau anariannol y Grŵp eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i benderfynu a oes unrhyw awgrym o amhariadau. Os oes awgrym o hynny, bydd swm adenilladwy'r ased yn cael ei amcangyfrif. Gellir disgrifio swm adenilladwy ased fel ei werth pan mae'n cael ei ddefnyddio neu ei werth teg gan dynnu'r costau i'w werthu, pa un bynnag yw'r mwyaf.

Caiff colled amhariad ei chydnabod os bydd swm cario ased yn fwy na'r swm adenilladwy a amcangyfrifiwyd ar ei gyfer. Bydd colledion amhariadau'n cael eu cydnabod fel elw neu golled.

## Buddion gweithwyr

*Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig*
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau penodol i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol. Caiff rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig eu cydnabod fel cost yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaethau.

*Cynlluniau buddion diffiniedig*
Mae gan y Grŵp ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio:

- Adran TrC o'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau Llinellau Craidd y Cymoedd.
- Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o Gynllun Pensiwn Rheilffyrdd mewn perthynas â staff sy'n trosglwyddo o Keolis Amey o dan drefniadau Gweithredwr y Dewis Olaf.

Cyfrifir rhwymedigaeth net y Grŵp mewn perthynas â phob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd y mae gweithwyr wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol. Caiff y budd hwnnw ei ddiystyru i bennu ei werth presennol, a chaiff gwerth teg asedau unrhyw gynllun (pris y cais) eu didynnu.

Mae'r diffyg a ddatgelir ar gyfer yr RPS yn cynrychioli 60 y cant o'r diffyg llwyr yn yr adran berthnasol o'r RPS, yn unol â chanllawiau'r ymddiriedolwyr sy'n nodi sut mae gwargedion a diffygion y cynllun yn cael eu rhannu rhwng y cyflogwr ac aelodau'r cynllun. Dim ond y diffyg net neu'r gwarged net y mae'n rhaid i'r grŵp ei ariannu dros oes y contract sy'n cael ei gydnabod.

Mae rhwymedigaeth adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn cael ei haddasu drwy addasiad masnachfraint, sy'n adlewyrchu faint o ddiffyg nad yw'r grŵp yn disgwyl ei ariannu dros oes y contract. Mae'r diffyg net, ar ôl addasu ar gyfer cyfran yr aelodau ac addasiad y fasnachfraint, yn cynrychioli gwerth presennol rhwymedigaeth y grŵp ar y dyddiad hwnnw. Mae'r driniaeth hon yn arwain at ased ad-dalu sy'n cynrychioli'r hawl i gael cyllid cymhorthdal Llywodraeth Cymru i ariannu'r rhwymedigaeth yn y gorffennol – mae hyn yn cael ei ddatgelu ar wahân o fewn asedau'r Grŵp.

Mae'r Grŵp yn pennu'r llog net ar yr atebolrwydd/(ased) buddion diffiniedig net ar gyfer y cyfnod drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur yr atebolrwydd buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod blynyddol i'r rhwymedigaeth/(asedau) buddion diffiniedig net. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau sydd â statws credyd sydd o leiaf yn AA ac sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau'r Grŵp ac sydd wedi'u trosi i'r arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo.

Mae'r ailfesuriadau sy'n deillio o gynlluniau buddion diffiniedig yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd, yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio llog) ac effaith y terfyn asedau (os oes rhai, heb gynnwys llog). Mae'r Grŵp yn eu cydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall a'r holl dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau buddion diffiniedig mewn treuliau budd-daliadau gweithwyr mewn elw neu golled.

Gwneir cyfrifiad rhwymedigaethau y buddion diffiniedig gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at fudd i'r Grŵp, mae'r ased cydnabyddedig wedi'i gyfyngu i werth presennol y buddion sydd ar gael ar ffurf unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol ac mae'n ystyried effaith andwyol unrhyw ofynion cyllido sylfaenol.

## Darpariaethau

Caiff darpariaeth ei chydnabod yn y fantolen pan fydd gan y Grŵp rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, y gellir ei fesur yn ddibynadwy, ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth. Pennir y darpariaethau drwy ddiystyru'r llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Caiff darpariaeth dadfeiliadau ei chyfalafu fel rhan o gost yr ased ar ddechrau prydlesi, eiddo pan fydd angen gwariant sylweddol i ddychwelyd yr eiddo i'w gyflwr ar ddechrau'r brydles. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar werth net presennol y llifoedd arian yn y dyfodol a ddisgwylir i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y brydles ac fe'i hadolygir ar ddyddiad pob mantolen. Nid yw'r disgownt wedi'i rwymo drwy'r datganiad incwm tan ddiwedd cyfnod y brydles.

## Trethiant

Mae'r dreth ar yr elw neu'r golled ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys treth gyfredol a threth ohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir yn uniongyrchol mewn ecwiti, ac os felly mae'n cael ei chydnabod mewn ecwiti.

Y dreth bresennol yw'r dreth ddisgwyliedig sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar yr incwm trethadwy neu'r golled ar gyfer y flwyddyn, gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddaeth i rym neu a ddaeth i rym yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen, ac unrhyw addasiad i'r dreth sy'n daladwy mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol.

Darperir treth ohiriedig ar wahaniaethau dros dro rhwng symiau cario asedau a rhwymedigaethau at ddibenion adrodd ariannol a'r symiau a ddefnyddir at ddibenion trethu. Mae swm y dreth ohiriedig a ddarperir yn seiliedig ar y modd y disgwylir i swm cario ymlaen yr asedau a'r rhwymedigaethau gael ei wireddu neu ei setlo, gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddeddfwyd neu a weithredwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Caiff ased treth ohiriedig ei gydnabod dim ond i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol, y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro yn ei erbyn.

## Prydlesi

*Fel prydlesai*
Mae'r Grŵp yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd am brydles ar ddyddiad dechrau'r brydles. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur i ddechrau yn ôl y gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y brydles a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau prydles a wnaed ar neu cyn y dyddiad cychwyn, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a gafwyd ac amcangyfrif o gostau adfer yr ased sylfaenol (e.e. costau dadfeiliad), llai unrhyw gymhellion les a gafwyd.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio wedyn gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad dechrau hyd ddiwedd tymor y brydles. Hefyd, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau o bryd i'w gilydd gan golledion amhariad, os oes rhai, a'i addasu ar gyfer rhai ailfesuriadau o atebolrwydd y brydles.

Mesurir atebolrwydd y brydles i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles nad ydyn nhw'n cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, cyfradd fenthyca gynyddrannol y Grŵp.

Mae taliadau prydles a gynhwysir wrth fesur atebolrwydd y les yn cynnwys y canlynol:

- taliadau sefydlog, gan gynnwys taliadau sefydlog mewnsylweddau;
- taliadau prydles amrywiol sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, a fesurir i ddechrau gan ddefnyddio'r mynegai neu'r gyfradd ar y dyddiad cychwyn; a
- chosbau am derfynu les yn gynnar oni bai fod y Grŵp yn weddol sicr o beidio â therfynu'n gynnar.

Caiff atebolrwydd y brydles ei fesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ailfesur pan fydd newid mewn taliadau les yn y dyfodol yn deillio o newid mewn mynegai neu gyfradd, mae newid yn amcangyfrif y Grŵp o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol neu os oes taliad les sefydlog mewnsylweddau diwygiedig.

Pan ailfesurir atebolrwydd y les fel hyn, gwneir addasiad cyfatebol i swm cario'r ased hawl defnydd, i'r graddau y caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau i ddim, gydag unrhyw addasiad pellach sy'n ofynnol o'r ailfesur yn cael ei gofnodi mewn elw neu golled.

*Prydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel*
Mae'r Grŵp wedi dewis peidio â chydnabod asedau hawl i ddefnyddio ac atebolrwyddau prydlesu ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel a phrydlesi tymor byr. Mae'r Cwmni'n cydnabod taliadau'r brydles sy'n gysylltiedig â'r lesoedd hyn fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

*Fel prydleswr*
Pan fydd y Grŵp yn gweithredu fel prydleswr, bydd yn penderfynu ai prydles cyllid ynteu prydles weithredol yw pob les.

Mae'r Grŵp yn cydnabod taliadau prydles a geir o dan brydlesi gweithredol fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles fel rhan o incwm rhent.

*Les a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes*
Ar gyfer lesoedd a gaffaelir mewn cyfuniad busnes, mae'r Grŵp yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd a gaffaelir ar werth presennol y taliadau prydles sy'n weddill, fel pe bai'r les a gaffaelwyd yn les newydd ar y dyddiad caffael. Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur wrth gaffael ar yr un swm â'r rhwymedigaeth prydlesi, wedi'i addasu i adlewyrchu telerau ffafriol neu anffafriol y brydles o'i gymharu â thelerau'r farchnad.

*Ffioedd mynediad i'r cledrau, y depos a'r gorsafoedd*
Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn wynebu ffioedd mynediad i'r cledrau, gorsafoedd a depos gan Amey (mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd) a Network Rail (mewn perthynas â gweddill y rhwydwaith rheilffyrdd) nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes unrhyw ased wedi'i nodi yn bodoli neu nad oes gan y Grŵp hawl i gaffael yr holl fuddion economaidd yn sylweddol, o ddefnyddio'r asedau drwy gydol y cyfnod defnyddio, neu fod Network Rail/Amey, nid y Grŵp, yn cyfarwyddo sut ac i ba ddiben y mae'r asedau'n cael eu defnyddio.

## Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sydd wedi'u mabwysiadu ond heb gael eu priodoli eto

Mae nifer o IFRS wedi cael eu mabwysiadu ond nid ydynt wedi cael eu priodoli gan y Grŵp yn y datganiadau ariannol cyfunol hyn gan y bydd eu dyddiadau dod i rym yn berthnasol i ddatganiadau ariannol yn y dyfodol. Nid oes disgwyl i'w mabwysiadu gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

## 2 Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid

*Dadgyfuno refeniw*
Yn y tabl canlynol, mae refeniw yn cael ei ddadgyfuno gan linellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr ac amseried cydnabod y refeniw.

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| **Llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr** | | |
| Grant refeniw craidd Llywodraeth Cymru | **41,884** | 28,368 |
| Rhyddhau grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn unol â dibrisiant ac amhariad | **12,078** | 215 |
| Datganiad grant cyfalaf Llywodraeth Cymru o ran y gwariant ar asedau trydydd parti | **2,075** | 1,991 |
| Prosiectau ymgynghoriaeth eraill Llywodraeth Cymru | **4,626** | 2,176 |
| Derbyniadau masnachfraint | **50,340** | - |
| Derbynebion teithwyr | **2,852** | - |
| Incwm arall | **7,799** | 724 |
| **Cyfanswm** | **121,654** | 33,474 |
| **Amser trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau** | | |
| Incwm grant wedi'i gyfrifo o dan IAS 20 | **104,867** | 30,574 |
| Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd ar bwynt penodol | **8,056** | 655 |
| Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd dros amser | **6,542** | 2,222 |
| Incwm rhent y cyfrifwyd amdano dan IFRS 16 | **2,189** | 23 |
| **Cyfanswm** | **121,654** | 33,474 |

Yn ystod y flwyddyn, mae TrC hefyd yn cael arian grant adnoddau yng nghyswllt taliadau grant refeniw ar gyfer gwasanaethau trên, ac arian grant cyfalaf yng nghyswllt taliadau grant cyfalaf ar gyfer gwasanaethau trên. Hyd at 7 Chwefror 2021, cafodd yr arian hwn ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'n darparwr gwasanaethau rheilffyrdd trydydd parti, Keolis Amey Wales Cymru Limited, sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, o dan y cytundeb grant rhwng Gweinidogion Cymru a Keolis Amey Wales Cymru Limited.

Roedd TrC yn gweithredu fel asiant yn unig yn y trefniant hwn, ac o'r herwydd cafodd y taliadau a'r incwm eu dangos fel swm net o fewn Gwariant yn y datganiad incwm cyfunol. O 7 Chwefror 2021 ymlaen, mae'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo i'n his-gwmni, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, ac o'r herwydd, mae'r taliadau a'r incwm ers y dyddiad hwnnw yn cael eu dangos yn gros yn y datganiad incwm cyfunol.

Manylir isod gyfanswm yr arian grant yn ymwneud â'r cytundeb grant hyd at 7 Chwefror 2021, sydd wedi'i ddangos fel swm net yn y gwariant:

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Cyllid grant refeniw Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru | **305,844** | 172,769 |
| Cyllid grant cyfalaf Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru | **32,952** | 13,877 |
| **Cyfanswm** | **338,796** | 186,646 |

*Balansau contract*
Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am agor a chau symiau derbyniadwy, asedau contract a rhwymedigaethau contract o gontractau gyda chwsmeriaid, heb gynnwys incwm grant.

| | Nodyn | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2021 £000 | 2020 £000 | 2021 £000 | 2020 £000 |
| Symiau derbyniadwy | *12* | **32,004** | 2,468 | **28,137** | 2,468 |
| Asedau contract (incwm cronedig) | *12* | **14,468** | 667 | **5,690** | 667 |
| Rhwymedigaethau contract (incwm gohiriedig) | *14* | **(15,447)** | (751) | **(4,515)** | (751) |
| | | **31,025** | 2,384 | **29,312** | 2,384 |

Mae'r asedau contract yn ymwneud â hawliau TrC i gael cydnabyddiaeth am waith sydd wedi'i gwblhau ond heb gael ei filio ar y dyddiad adrodd ar wasanaethau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru (incwm cronedig). Bydd asedau contract yn cael eu trosglwyddo i fod yn symiau derbyniadwy pan fydd yr hawliau'n dod yn ddiamod. Disgwylir y bydd yr holl asedau contract yn cael eu hanfonebu yn ystod 2021/22.

Mae rhwymedigaethau'r contract yn ymwneud â chydnabyddiaeth a gafwyd ymlaen llaw gan gwsmeriaid am y gwasanaethau hyn. Bydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gydnabod fel refeniw pan fydd y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u cyflawni, a disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2021/22.

*Asedau wedi'u cydnabod o gostau i gyflawni contractau*
Mae TrC yn cydnabod y costau a ysgwyddir wrth gyflawni contractau trydydd parti gyda chwsmeriaid fel ased, os yw'n debygol y bydd modd adennill y costau hyn. Ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, swm yr ased hwn oedd £1,202,000 (*2020: £279,000*).

*Pris y trafodyn wedi'i ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad sy'n weddill*
Mae'r cyfnodau disgwyliedig gwreiddiol, sef blwyddyn neu lai, yn berthnasol i bob un o'r rhwymedigaethau perfformiad nad ydyn nhw wedi'u bodloni ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol.

## 3 Tâl yr archwilydd

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Archwilio'r datganiadau ariannol hyn | **80** | 50 |
| Symiau derbyniadwy gan archwilydd y Cwmni o ran gwasanaethau cydymffurfio â threthiant | **5** | 5 |
| Gwasanaethau trethu eraill | **10** | 31 |
| **Cyfanswm** | **95** | 86 |

## 4 Nifer y gweithwyr a chostau

Nifer cyfartalog yr unigolion a gyflogwyd gan y Grŵp (gan gynnwys cyfarwyddwyr) yn ystod y flwyddyn, wedi'i ddadansoddi yn ôl categori, fel a ganlyn:

| | Nifer y gweithwyr | |
|---|---|---|
| | 2021 | 2020 |
| Gwasanaethau canolog a chaffael rheilffyrdd, symud a rheoli contractau | **111** | 105 |
| Gwasanaethau ymgynghori | **21** | 10 |
| Gweithrediadau Rheilffyrdd | **2,794** | 25 |
| **Cyfanswm** | **2,926** | 140 |

Roedd y costau ar y gyflogres gyda'i gilydd ar gyfer yr unigolion hyn fel a ganlyn:

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Cyflog a thâl | **31,521** | 6,486 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **3,124** | 719 |
| Cyfraniadau at gynlluniau cyfraniadau diffiniedig | **927** | 500 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **1,411** | - |
| **Cyfanswm** | **36,983** | 7,705 |

## 5 Taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr drwy'r gyflogres | **171** | 151 |
| Cyfraniadau'r cwmni at gynlluniau pensiwn prynu arian | **10** | 10 |
| **Cyfanswm** | **181** | **161** |

Yn ogystal â'r uchod, talodd TrC £277,000 i Lywodraeth Cymru (*2020: £271,000*) mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfarwyddwyr a secondiwyd o Lywodraeth Cymru.

Mae budd-daliadau ymddeol yn cronni i un cyfarwyddwr o dan gynllun prynu (*2020: un*).

## 6 Incwm a chostau cyllid

*Incwm cyllid*

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Llog gan y banc sydd i'w dderbyn | (10) | - |
| **Cyfanswm costau treth/(credyd)** | **(10)** | - |

Mae llog banc sy'n dderbyniadwy yn TrC yn cael ei ad-dalu'n llawn i Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddefnyddio i leihau gofynion grantiau'r cylch gwaith.

*Costau cyllid*

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Elfen llog ar daliadau rhwymedigaethau prydles | **241** | 7 |
| Datod disgownt ar ddarpariaethau | **22** | - |
| Llog net ar rwymedigaeth cynllun pensiwn â buddion diffiniedig net | **7** | - |
| **Cyfanswm costau cyllid** | **270** | 7 |

## 7 Trethiant

*Cydnabyddiaeth yn y datganiad incwm*
Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am agor a chau symiau derbynadwy, asedau contract a rhwymedigaethau contract o gontractau gyda chwsmeriaid ac eithrio incwm grant.

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| *Costau treth cyfredol* | | |
| Y flwyddyn gyfredol | **14** | 2 |
| Addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol | **-** | (18) |
| Cyfanswm y treuliau treth cyfredol/(credyd) | **14** | (16) |
| *Costau treth wedi'u gohirio* | | |
| Pwynt cychwyn a gwrth-droi gwahaniaethau dros dro | **(527)** | - |
| Cyfanswm costau treth a ohiriwyd | **(527)** | - |
| **Cyfanswm costau treth/(credyd)** | **(513)** | (16) |

*Yn cael ei gydnabod yn yr incwm cynhwysfawr arall*

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Gwarged wrth gefn | **6** | - |
| Cronfa wrth gefn rhagfantoli | **(184)** | - |
| **Cyfanswm costau treth/(credyd)** | **(178)** | - |

Y gyfradd dreth gyfredol yn y DU a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn yw 19% (*2020: 19%*).

*Cysoni'r gyfradd dreth effeithiol*

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn | **348** | 28 |
| Cyfanswm costau treth/(credyd) | **(513)** | (16) |
| Gwarged heb gynnwys treth | **(165)** | 12 |
| Treth yn defnyddio'r gyfradd bresennol ar gyfer treth gorfforaeth yn y DU | **106** | 2 |
| Costau na ellir eu didynnu | **(624)** | - |
| Wedi gor ddarparu mewn blynyddoedd blaenorol | **5** | (18) |
| **Cyfanswm costau treth/(credyd)** | **(513)** | (16) |

## 8 Eiddo, offer a chyfarpar

### *Grŵp*

| | Rhwydwaith rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd arall £000 | Prydlesi eiddo a gwella lesddaliad £000 | Peiriannau ac offer, gosodiadau a ffitiadau £000 | Cerbydau £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | - | 621 | 865 | - | 30,648 | 32,134 |
| Trosglwyddiadau | 5,036 | - | - | - | (5,036) | - |
| Ychwanegiadau | 515,822 | 37 | 1,865 | - | 59,212 | 576,936 |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | 520,858 | 658 | 2,730 | - | 84,824 | 609,070 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 520,858 | 658 | 2,730 | - | 84,824 | 609,070 |
| Ychwanegiadau | 16,398 | 17,993 | 2,510 | 14,315 | 120,665 | 171,881 |
| Trosglwyddiadau rhwng categorïau | 2,135 | - | (2,135) | - | - | - |
| Trosglwyddo asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | 1,738 | 3,600 | - | - | (5,338) | - |
| Ychwanegiadau a gafwyd drwy gyfuniad o fusnesau | - | 1,623 | 9,178 | 117,750 | 77,608 | 206,159 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | (6,316) | (6,316) |
| Ailbrisio | 2,067,142 | - | - | - | - | 2,067,142 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **2,608,271** | **23,874** | **12,283** | **132,065** | **271,443** | **3,047,936** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | - | 232 | 52 | - | - | 284 |
| Tâl dibrisiant | - | 218 | 140 | - | - | 358 |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | - | 450 | 192 | - | - | 642 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | - | 450 | 192 | - | - | 642 |
| Tâl dibrisiant | 11,573 | 832 | 637 | 6,786 | - | 19,828 |
| Trosglwyddiadau | 57 | - | (57) | - | - | - |
| Ailbrisio | (11,630) | - | - | - | - | (11,630) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **-** | **1,282** | **772** | **6,786** | **-** | **8,840** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - | 389 | 813 | - | 30,648 | 31,850 |
| Ar 31 Mawrth a 1 Ebrill 2020 | 520,858 | 208 | 2,538 | - | 84,824 | 608,428 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,608,271** | **22,592** | **11,511** | **125,279** | **271,443** | **3,039,096** |

### *Cwmni*

| | Rhwydwaith rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd arall £000 | Prydlesi eiddo a gwella lesddaliad £000 | Peiriannau ac offer, gosodiadau a ffitiadau £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | - | 621 | 865 | 30,648 | 32,134 |
| Trosglwyddiadau | 5,036 | - | - | (5,036) | - |
| Ychwanegiadau | 515,822 | 37 | 1,865 | 59,212 | 576,936 |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | 520,858 | 658 | 2,730 | 84,824 | 609,070 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 520,858 | 658 | 2,730 | 84,824 | 609,070 |
| Ychwanegiadau | 16,398 | 17,921 | 1,248 | 98,995 | 134,562 |
| Trosglwyddiadau rhwng categorïau | 2,135 | - | (2,135) | - | - |
| Trosglwyddo asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | 1,738 | 3,600 | - | (5,338) | - |
| Ailbrisio | 2,067,142 | - | - | - | 2,067,142 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **2,608,271** | **22,179** | **1,843** | **178,481** | **2,810,774** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | - | 232 | 52 | - | 284 |
| Tâl dibrisiant | - | 218 | 140 | - | 358 |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | - | 450 | 192 | - | 642 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | - | 450 | 192 | - | 642 |
| Tâl dibrisiant | 11,573 | 787 | 239 | - | 12,599 |
| Trosglwyddiadau | 57 | - | (57) | - | - |
| Ailbrisio | (11,630) | - | - | - | (11,630) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **-** | **1,237** | **374** | **-** | **1,611** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - | 389 | 813 | 30,648 | 31,850 |
| Ar 31 Mawrth a 1 Ebrill 2020 | 520,858 | 208 | 2,538 | 84,824 | 608,428 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,608,271** | **20,942** | **1,469** | **178,481** | **2,809,163** |

### *Eiddo, offer a chyfarpar sydd wrthi'n cael eu hadeiladu*

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cynnwys y rhaglen gwaith cyfalaf sy'n cael ei chyflawni gan TrC i gynorthwyo i ddatblygu ac adnewyddu Metro De Cymru, yn ogystal â gwaith datblygu sy'n cael ei wneud ar orsaf reilffordd yn Llanwern, a gwaith dylunio yn nghyfnewidfa bws newydd Caerdydd. Mae perchnogaeth arfaethedig safleoedd Llanwern wedi'i rhannu rhwng TrC a Network Rail. Ar gyfer y prosiectau hyn, nid yw TrC ond yn cyfalafu gwariant ynglŷn â thir y mae'n bwriadu bod yn berchen arno. Mae balans ehangach y grŵp hefyd yn cynnwys costau cyfalaf mewn perthynas â chyflwyno fflyd newydd, adnewyddu fflyd bresennol, y Rhaglen Gwella Gorsafoedd ac offer TG a manwerthu newydd neu wedi'u huwchraddio.

# Nodiadau (parhad)

## *Ailbrisio Llinellau Craidd y Cymoedd*

Mae gwerth teg rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn seiliedig ar Gostau Amnewid Dibrisiedig (DRC), gan ei fod yn ased arbenigol sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Cafodd y gwaith o brisio rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd ei wneud ar 31 Mawrth 2021 gan TrC, gyda chymorth Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TrC.

I gynhyrchu'r prisiad hwn, mae angen defnyddio tybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol (gweler nodyn 1).

Ystyrir mai'r tybiaethau allweddol yn y prisiad yw:

- *Gweddill oes asedau cydrannau'r rhwydwaith* – mae'r prisiad yn addasu'r gost adnewyddu gros i adlewyrchu amcan o lefel y dibrisiant cronedig yn seiliedig ar farn y rheolwyr ynghylch cyflwr cydrannau presennol y rhwydwaith. Defnyddir gwahanol fethodolegau ar gyfer pob cydran gan ddefnyddio'r data sydd ar gael adeg paratoi'r amcangyfrifon. Ar gyfer rhai cydrannau, dim ond ychydig o ddata sydd ar gael i TrC ers ei gaffael, sy'n galw am ddefnyddio barn ac amcangyfrif, ac sy'n arwain at rywfaint o ansicrwydd amcangyfrif. Wrth i TrC gynyddu lefel y data ar y cydrannau, bydd y dybiaeth hon yn cael ei hadolygu a'i haddasu fel y bo'n briodol.
- *Addasu iawndal tir* – cymhwysir cynnydd o 72% ar werth y farchnad tir i adlewyrchu amcangyfrif o gost Gorchmynion Prynu Gorfodol a thaliadau iawndal posibl i dirfeddianwyr cyfagos. Gan nad yw TrC yn prynu parseli mawr o dir, mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu profiad Llywodraeth Cymru ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i brisio rhwydweithiau cefnffyrdd. Cafodd y ffigur o 72% ei ddiwygio ddiwethaf yn 2010 a rhagwelir y bydd yn cael ei adolygu'n fanwl cyn diwedd blwyddyn 2021/22. Gan nad oes unrhyw newidiadau wedi bod mewn deddfwriaeth nac ymarfer ers 2010, mae'r rheolwyr o'r farn bod 72% yn dal yn ffigur priodol i'w ddefnyddio, ond mae rhywfaint o ansicrwydd amcangyfrif.
- *Ffactor risg* – ar ôl caniatáu ar gyfer costau hysbys wrth adeiladu asedau, mae costau anhysbys a lleol o hyd sy'n cael eu cofnodi gan ddefnyddio ffactor risg o 38%, sy'n cael ei bennu gan ddefnyddio asesiad o wahanol gategorïau risg a oedd wedi'u pwysoli ar sail lefel eu cymhwysedd i adeiladu rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd modern. Oherwydd ei natur, mae'r ffactor risg hwn yn ei hanfod yn feirniadol ac felly mae rhywfaint o ansicrwydd amcangyfrif. O ystyried bod y prosiect yn gysyniadol o ran natur ac yn gymhleth iawn, ac nid yw dadansoddiad risg cost ansoddol wedi'i gwblhau eto, mae'r ffactor risg yma'n feirniadol yn y bôn ac felly â rhywfaint o ansicrwydd amcangyfrif.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn tybiaethau ar werth cyffredinol ased y rhwydwaith rheilffyrdd (ac eithrio seilwaith rheilffyrdd arall).

- Mae Sefyllfa 1 yn dangos effaith cynyddu neu leihau gweddill oes asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd modern cyfatebol o 10%.
- Mae Sefyllfa 2 yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (fel arfer 72%) yn cynyddu neu'n gostwng 10%; h.y. addasiad iawndal o 62% neu 82% yn y drefn honno.
- Mae Sefyllfa 3 yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiadau DRC cyffredinol, 38% ar hyn o bryd, gyda chynnydd neu ostyngiad o 10%, gan ddangos ffactorau risg o 48% a 28% i bob pwrpas.

| Math | Cost Amnewid wedi'i dadbrisio (-) | Cost Amnewid wedi'i dadbrisio | Cost Amnewid wedi'i dadbrisio (+) |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Gwerth sylfaenol | - | 2,598 | - |
| Sefyllfa 1 | (189) | - | 189 |
| Sefyllfa 2 | (41) | - | 41 |
| Sefyllfa 3 | (137) | | 137 |



## *Prydles asedau hawl i ddefnyddio*

Ar 31 Mawrth 2021, mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prydles asedau hawl i ddefnyddio a gydnabyddir o dan IFRS 16 fel a ganlyn:

| | Tir ac adeiladau £000 | Cerbydau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Grŵp | 13,009 | 106,537 | **119,546** |
| Cwmni | 13,009 | - | **13,009** |

## *Cysoni â'r datganiad grŵp o lifoedd arian*

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau diriaethol (nodyn 8) | **171,881** | 576,936 |
| Grant arian mân ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd | **-** | (469,800) |
| Symudiad mewn credydwyr cyfalaf | **(7,670)** | (33,649) |
| Cydnabod cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel rhan o gaffael Llinellau Craidd y Cymoedd | **-** | (342) |
| Cydnabod darpariaeth dadfeiliadau | **(2,660)** | - |
| Prydles asedau hawl i ddefnyddio a gyfalafwyd | **(13,381)** | (34) |
| **Taliadau i gaffael asedau cyfalaf fesul datganiad llif arian** | **148,170** | 73,111 |

## 9 Asedau anniriaethol

*Grŵp*

| | Trwyddedau Meddalwedd ac Eiddo Deallusol £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost**<br>Balans ar 1 Ebrill 2019<br>Ychwanegiadau | -<br>- | -<br>2,173 | **-**<br>**2,173** |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | - | 2,173 | **2,173** |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | - | 2,173 | **2,173** |
| Ychwanegiadau | 10,000 | 1,809 | **11,809** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 10,000 | 3,982 | **13,982** |
| **Amorteiddiad ac amhariad**<br>Balans ar 1 Ebrill 2019 | - | - | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | - | - | - |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | - | - | - |
| Amorteiddiad am y flwyddyn | 282 | - | **282** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 282 | - | **282** |
| **Gwerth llyfr net**<br>Ar 1 Ebrill 2019 | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth a 1 Ebrill 2020 | - | 2,173 | **2,173** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 9,718 | 3,982 | **13,700** |

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys prynu data allanol a datblygiad mewnol sy'n ymwneud â modelau data trafnidiaeth Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â datblygu modelau meddalwedd a data sy'n ymwneud â phrosiectau diwygio bysiau, ac amrediad o drwyddedau eiddo deallusol yn ymwneud â rheilffyrdd a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus arall. Mae'r cydbwysedd grŵp ehangach hefyd yn cynnwys trwyddedau ar gyfer mynediad at feddalwedd ac eiddo deallusol arall sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith.

*Cwmni*

| | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost**<br>Balans ar 1 Ebrill 2019<br>Ychwanegiadau | -<br>2,173 | **-**<br>**2,173** |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | 2,173 | **2,173** |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 2,173 | **2,173** |
| Ychwanegiadau | 1,809 | **1,809** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 3,982 | **3,982** |
| **Amorteiddiad ac amhariad**<br>Balans ar 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 | - | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2020 | - | - |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | - | - |
| Amorteiddiad am y flwyddyn | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | - | **-** |
| **Gwerth llyfr net**<br>Ar 1 Ebrill 2019 | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2020 a 1 Ebrill 2020 | 2,173 | **2,173** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | 3,982 | **3,982** |

## 10 Buddsoddiadau

Mae'r Cwmni yn gyfranddaliwr 100% yn y cwmnïau canlynol:

- Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig. Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 26 Mai 2020 gyda buddsoddiad o £1.
- Wales Infrastructure Manager of Last Resort Limited. Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 18 Medi 2019 gyda buddsoddiad o £1. Mae'r cwmni'n segur ar hyn o bryd.

Mae'r Cwmni hefyd yn gyfranddaliwr 51% yn Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig, a gafodd ei ymgorffori ar 15 Rhagfyr 2020 gyda buddsoddiad o £105.

Mae'r holl gwmnïau uchod wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddynt yr un cyfeiriad cofrestredig â Trafnidiaeth Cymru ac mae'r cyfan wedi'u cyfuno yn y set hon o ddatganiadau ariannol.

## 11 Rhestrau o'r hyn sydd ar gael

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Deunyddiau crai a defnyddiau traul | **4,811** | - | **-** | - |
| Nwyddau gorffenedig – stoc adwerthu arlwyo | **15** | 74 | **15** | 74 |
| | **4,826** | 74 | **15** | 74 |

## 12 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | **6,255** | 787 | **2,272** | 787 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus gan gwmnïau rhiant a grwpiau eraill | **214** | 1,681 | **25,866** | 1,681 |
| Asedau contract (incwm cronedig) | **14,017** | 667 | **5,690** | 667 |
| Incwm cronedig – grant refeniw craidd | **-** | 342 | **-** | 342 |
| Cyllid cronedig – grant cyfalaf craidd | **22,449** | 31,898 | **22,449** | 31,898 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **50,667** | 289 | **26,729** | 289 |
| Rhagdaliadau | **5,317** | 266 | **3,806** | 266 |
| Offerynnau ariannol sy'n deillio o hyn (nodyn 19) | **973** | - | **-** | - |
| | **99,892** | 35,930 | **86,812** | 35,930 |

## 13 Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y sefyllfa ariannol | **18,942** | 16,672 | **11,001** | 16,672 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y llifoedd arian | **18,942** | 16,672 | **11,001** | 16,672 |

## 14 Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Symiau masnach taladwy | **32,683** | 2,403 | **16,136** | 2,403 |
| Symiau taladwy eraill drwy fasnach | **2,373** | 431 | **933** | 431 |
| Treuliau wedi'u cronni | **79,894** | 47,562 | **58,685** | 47,562 |
| Incwm gohiriedig – grant refeniw craidd | **12,702** | - | **12,702** | - |
| Incwm gohiriedig – trydydd parti | **15,447** | 751 | **4,515** | 751 |
| Nawdd cymdeithasol a mathau eraill o drethiant | **3,784** | 529 | **449** | 529 |
| Treth ohiriedig (nodyn 16) | **1,815** | - | **-** | - |
| | **148,698** | 51,676 | **93,420** | 51,676 |

## 15 Darpariaethau

| | Grŵp a Chwmni | | |
|---|---|---|---|
| | Hunan-yswiriant Llinellau Craidd y Cymoedd £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
| Balans Agoriadol | - | - | **-** |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 209 | 2,660 | **2,869** |
| Datod disgownt ar ddarpariaethau | - | 22 | **22** |
| Balans terfynol | 209 | 2,682 | **2,891** |

### *Amseru disgwyliedig y llifoedd arian*

| | Grŵp a Chwmni | | |
|---|---|---|---|
| | Hunan-yswiriant Llinellau Craidd y Cymoedd £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
| Llai na blwyddyn | 209 | - | **209** |
| Mwy na phum mlynedd | - | 2,682 | **2,682** |
| Balans terfynol | 209 | 2,682 | **2,891** |

## 16 Treth ohiriedig – Grŵp

Mae'r rhwymedigaeth treth ohiriedig yn cynnwys y balansau isod:

| | £000 Balans ar 1 Ebrill 2020 | £000 Wedi caffael o dan gyfuniad o fusnesau | £000 Symudiad ar incwm cynhwysfawr arall | £000 Symudiad mewn datganiad incwm | £000 Balans ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | - | 13,533 | - | 5,526 | **19,059** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Rhagfantoli tanwydd | - | - | 184 | - | **184** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | - | (11,369) | - | (6,057) | **(17,426)** |
| Rhwymedigaethau pensiwn | - | - | (6) | 4 | **(2)** |
| | - | 2,164 | 178 | (527) | **1,815** |

## 17 Grantiau llywodraeth cyfalaf wedi'u gohirio

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | **610,453** | 33,919 | **610,453** | 33,919 |
| Wedi caffael o dan gyfuniad o fusnesau | **59,838** | - | **-** | - |
| Ychwanegiadau a ddyrannwyd yn erbyn asedau – arian parod | **173,379** | 108,940 | **125,063** | 108,940 |
| Ychwanegiadau – cyllid anariannol ar gyfer caffael Llinellau Craidd y Cymoedd | **-** | 469,800 | **-** | 469,800 |
| Rhyddhau yn unol â dibrisiant/amhariad asedau | **(18,620)** | (215) | **(12,078)** | (215) |
| Rhyddhau – gwariant ar asedau trydydd parti | **(2,075)** | (1,991) | **(2,075)** | (1,991) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **822,975** | 610,453 | **721,363** | 610,453 |

Mae'r llinell ariannu dim arian parod 2019/20 yn ymwneud â chaffael Llinellau Craidd y Cymoedd o £469,800,000. Cynhaliwyd y trafodyn prynu ar gyfer caffael yr asedau hyn drwy fecanwaith dim arian parod i leihau trafodion ariannol diangen rhwng cyrff Llywodraeth Ganolog. Rhoddodd TrC yr hawliau i gyllid a oedd yn deillio o grant Llywodraeth Cymru i Network Rail fel setliad ar gyfer prynu Llinellau Craidd y Cymoedd. Cafodd asedau Llinellau Craidd y Cymoedd eu gwaredu a chafodd eu caffael ar sail dim enillion/colled ar draws y Llywodraeth Ganolog, felly gwnaed llif arian grant dim arian cyfatebol o'r Adran Drafnidiaeth i Lywodraeth Cymru.

## 18 Buddion gweithwyr

### *Polisi pensiynau cyfraniadau diffiniedig*

Dyma gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chynllun cyfraniadau wedi'u diffinio:

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Cyfanswm costau | **927** | 500 | **927** | 500 |

### *Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio*

Mae'r Grŵp yn gweithredu dwy ran o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd (RPS). Mae'r cyntaf o fewn Trafnidiaeth Cymru yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r ail o fewn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o ran staff sy'n trosglwyddo fel rhan o'r broses drosglwyddo OLR. Mae'r datganiadau ar gyfer pob un o'r adrannau hyn wedi'u nodi isod.

Mae'r cyfarwyddwyr yn credu y dylid rhoi ystyriaeth ar wahân i adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o dan IAS 19 "Buddion gweithwyr" gan nad oes gan y cwmni unrhyw hawliau na rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cynllun ar ôl i'r Cytundeb OLR ddod i ben.

Er ei bod yn dal yn agored i newydd-ddyfodiaid a chroniadau yn y dyfodol, mae'r risgiau a achosir gan RPS Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn gyfyngedig oherwydd, o dan y Cytundeb OLR, nid yw'r cwmni'n gyfrifol am unrhyw ddiffyg gweddilliol ar ddiwedd y contract. O'r herwydd, dim ond risg llif arian tymor byr sydd yn y busnes.

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Adran TrC | **424** | 342 | **424** | 342 |
| Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig | **782** | - | **-** | - |
| | **1,206** | 342 | **424** | 342 |

## Adran TrC

### *Symudiad mewn atebolrwyddau/asedau buddion diffiniedig net*

| | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | | Gwerth teg asedau'r cynllun | | Atebolrwydd (ased) buddion diffiniedig net | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 | **2021 £000** | 2020 £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | **2,294** | - | **(1,724)** | - | **570** | - |
| **Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled** | | | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **148** | - | **-** | - | **148** | - |
| Costau gweinyddol | **-** | - | **35** | - | **35** | - |
| Cost gwasanaeth blaenorol | **-** | - | **-** | - | **-** | - |
| Cost llog/(incwm) | **46** | - | **(34)** | - | **12** | - |
| **Wedi'i gynnwys yn OCI** | | | | | | |
| Ailfesur y golled/(enillion): | | | | | | |
| Colled (enillion) actiwaraidd sy'n deillio o | | | | | | |
| - Newidiadau demograffig Rhagdybiaethau | **(73)** | - | **-** | - | **(73)** | - |
| - Newid tybiaethau ariannol | **479** | - | **-** | - | **479** | - |
| - Addasu profiad | **338** | - | **-** | - | **338** | - |
| Elw ar asedau'r cynllun eithrio incwm llog | **-** | - | **(709)** | - | **(709)** | - |
| **Arall** | | | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr | **-** | - | **(65)** | - | **(65)** | - |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr | **-** | - | **(28)** | - | **(28)** | - |
| Rhagdybir cynllun pensiwn wrth gaffael asedau Llinellau Craidd y Cymoedd | **-** | 2,294 | **-** | (1,724) | **-** | 570 |
| Budd-daliadau a dalwyd | **(309)** | - | **309** | - | **-** | - |
| Diffyg y cynllun | **2,923** | 2,294 | **(2,216)** | (1,724) | **707** | 570 |
| Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau/atebolrwyddau | | | | | **(283)** | (228) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | | | | **424** | 342 |

### *Asedau'r cynllun*

| | **2021 £000** | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Asedau twf | **1,984** | 1,552 |
| Bondiau | **217** | 172 |
| Asedau eraill | **15** | - |
| **Cyfanswm** | **2,216** | 1,724 |

### *Rhagdybiaethau actiwaraidd*

Dyma'r prif dybiaethau actiwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi'u mynegi fel cyfartaleddau pwysedig):

| | **2021** | 2020 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth | **2.05%** | 2.15% |
| Chwyddiant prisiau | **3.2%** | 2.5% |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **3.2%** | 2.5% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | **2.8%** | 1.8% |

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actiwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

| | **2021** | 2020 |
|---|---|---|
| Pensiynwyr presennol 65 oed | **20.1** | 21.6 |
| Ymddeol yn y dyfodol ar ôl cyrraedd 65 | **21.4** | 22.9 |

### *Dadansoddiad o sensitifrwydd*

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu (gostyngiad) o 0.25 y cant yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol.

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt | **170** | 124 |
| Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt | **(157)** | (117) |
| Gostwng chwyddiant prisiau | **(156)** | (117) |
| Cynnydd mewn chwyddiant prisiau | **168** | 124 |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **65** | 39 |

Wrth brisio rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth y rhwymedigaethau a adroddwyd ar 31 Mawrth 2021 wedi cynyddu £137,000.

Mae'r materion sensitif uchod wedi'u selio ar ganlyniadau'r cyfrifiadau rhwymedigaeth aelodaeth llawn a gyflawnwyd gan dîm cynghori actiwaraidd Ymddiriedolwr y RPS ar 31 Rhagfyr 2018 i bennu cyfraddau'r cyfraniadau cychwynnol ar gyfer yr adran newydd. Disgwylir cynnal prisiad actiwaraidd llawn cyntaf y cynllun ar 31 Rhagfyr 2020. Er nad yw'r dadansoddiad yn ystyried dosbarthiad llawn y llifoedd arian a ddisgwylir o dan y cynllun, mae'n rhoi brasamcan o sensitifrwydd y tybiaethau a ddangosir.

### *Cyllid*

Mae'r Cwmni'n disgwyl talu £68,000 mewn cyfraniadau cyflogwr i'w gynlluniau buddion diffiniedig yn 2021/22. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 22 mlynedd.

## Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Nid oes ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar gyfer yr adran hon gan mai dim ond ar 7 Chwefror 2021 o dan y Trefniant OLR y sefydlwyd adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.

### *Symudiad mewn rhwymedigaethau/asedau buddion diffiniedig net*

| | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | Gwerth teg asedau'r cynllun | Rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net |
|---|---|---|---|
| | 2021 £000 | 2021 £000 | 2021 £000 |
| Balans a gaffaelwyd fel rhan o'r cyfuniad busnes ar 7 Chwefror 2021 | **845,379** | **(448,500)** | **396,879** |
| **Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled** | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **4,417** | **-** | **4,417** |
| Addasiad masnachfraint i gost gwasanaeth | **(3,191)** | **-** | **(3,191)** |
| Costau gweinyddol | **-** | **74** | **74** |
| Cost gwasanaeth blaenorol | **-** | **-** | **-** |
| Cost llog/(incwm) | **1,225** | **(652)** | **573** |
| Llog ar addasu'r fasnachfraint | **(573)** | **-** | **(573)** |
| **Wedi'i gynnwys yn OCI** | | | |
| **Ailfesur y golled/(enillion):** | | | |
| Colled (enillion) actiwaraidd sy'n deillio o | | | |
| - Newidiadau demograffig Rhagdybiaethau | **(1,641)** | **-** | **(1,641)** |
| - Newid tybiaethau ariannol | **(30,269)** | **-** | **(30,269)** |
| - Addasu profiad | **6,597** | **-** | **6,579** |
| Elw ar asedau'r cynllun eithrio incwm llog | **-** | **2,102** | **2,102** |
| **Arall** | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr | **-** | **(1,323)** | **(1,323)** |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr | **902** | **(902)** | **-** |
| Budd-daliadau a dalwyd | **(2,153)** | **2,153** | **-** |
| Diffyg y cynllun | **820,693** | **(447,048)** | **373,645** |
| Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau/rhwymedigaethau | | | **(149,459)** |
| Addasiad masnachfraint rheilffyrdd | | | **(223,404)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | | **782** |

### *Asedau'r cynllun*

| | 2021 £000 |
|---|---|
| Ecwiti<br>Seilwaith<br>Asedau eraill | 440,614<br>1,703<br>4,731 |
| **Cyfanswm** | **447,048** |

### *Rhagdybiaethau actiwaraidd*

Dyma'r prif dybiaethau actiwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi'u mynegi fel cyfartaleddau pwysedig):

| | 2021 |
|---|---|
| Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth | **2.05%** |
| Chwyddiant prisiau | **2.8%** |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **3.45%** |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | **2.8%** |

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actiwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

| | 2021 |
|---|---|
| Pensiynwyr presennol 65 oed | **20.1** |
| Ymddeol yn y dyfodol ar ôl cyrraedd 65 | **21.4** |

### *Dadansoddiad o sensitifrwydd*

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig gros (cyn addasiadau aelod a masnachfraint) ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu (gostyngiad) o 1 y cant, neu 0.5 y cant yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol lle nodir hynny.

| | 2021 £000 |
|---|---|
| Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt | **222,275** |
| Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt | **(161,688)** |
| Gostwng chwyddiant prisiau | **(158,258)** |
| Cynnydd mewn prisiau | **212,306** |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol (+0.5%) | **34,933** |

Wrth brisio atebolrwyddau'r gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth gros yr atebolrwyddau a adroddwyd cyn addasiadau aelodau a masnachfraint ar 31 Mawrth 2021 wedi cynyddu £31,000.

Mae'r sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd llawn a gynhaliwyd gan dîm cynghori actiwaraidd Ymddiriedolwyr RPS ar 31 Rhagfyr 2019.

### *Cyllid*

Mae'r Cwmni'n disgwyl talu £9,996,000 mewn cyfraniadau cyflogwr i'w gynlluniau buddion diffiniedig yn 2021/22. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 22 mlynedd.

## 19 Offerynnau ariannol

### *Gwerthoedd teg offerynnau ariannol*

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng gwerthoedd teg pob dosbarth o asedau ariannol ac atebolrwydd ariannol a'u symiau cario yn y datganiad am y sefyllfa ariannol.

### *Risg credyd*

Nid yw TrC yn wynebu llawer o risg o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, a dderbynnir ymlaen llaw, a gweddill ei weithgarwch yn ymwneud â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Caiff risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Mae swm cario'r symiau derbyniadwy drwy fasnach yn cynrychioli'r credyd mwyaf posibl. Felly, ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, roedd y risg credyd mwyaf fel a ganlyn:

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Grŵp | **6,469** | 2,468 |
| Cwmni | **28,137** | 2,468 |

Nid oedd unrhyw symiau derbyniadwy heb gael eu talu ar y dyddiad yr oeddynt yn ddyledus ar ddim un o'r dyddiadau adrodd.

Oherwydd natur y symiau derbyniadwy, ni ystyrir bod angen darparu ar gyfer colledion credyd disgwyliedig.

### *Risg hylifedd*

Mae TrC yn monitro ei gyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ei atebolrwyddau pan fyddan nhw'n ddyledus.

### *Risg o ran pris tanwydd*

Ymrwymwyd i arbed pris tanwydd gyda'r bwriad o leihau'r amrywiadau mewn prisiau sydd i'w priodoli i ffynonellau tanwydd. Mae'r risg sy'n cael ei rhagfantoli yn newid prisiau tanwydd a'r offerynnau rhagfantoli sy'n cael eu defnyddio yn danwydd a gyfnewidir.

| | 2021<br>£000<br>Incwm Cynhwysfawr Arall | 2020<br>£000<br>Symiau derbyniadwy |
|---|---|---|
| Newidiadau mewn gwerth marchnad rhagfantoli llif arian | **973** | 973 |

Mae aneffeithlonrwydd rhagfantoli llif arian y deilliadau pris ynni a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm yn £dim *(2020: £dim).*

## 20 Prydlesi

### 20 (a) Prydlesi fel prydleswr

### *Prydlesi gweithredu*

Mae gan TrC brydles i Amey Infrastructure Wales Limited o ran asedau Llinellau Craidd y Cymoedd. Dechreuodd y brydles hon ar 28 Mawrth 2020. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn brydles weithredol gan fod hyd y brydles gryn dipyn yn llai na bywyd economaidd defnyddiol yr asedau.

Bydd y les yn dod i ben ym mis Chwefror 2028 (yn dilyn newid y cyfnod fel rhan o drawsnewid Gweithredwr y Dewis Olaf). Yn ystod y flwyddyn, cafodd £2,189,000 ei gydnabod fel incwm rhent gan y Cwmni, i gyd mewn perthynas â'r brydles hon.

Mae gan y Grŵp hefyd brydlesi gyda nifer o gwmnïau mewn perthynas â chonsesiynau gorsafoedd. Mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd £23,000 ei gydnabod fel incwm rhent o ran y prydlesi hyn.

### 20 (b) Prydlesi fel lesddeiliad

Mae gan y Cwmni un les eiddo heb ei ddiogelu ar ei brif swyddfa ym Mhontypridd, a ddechreuodd ym mis Hydref 2020 ac sy'n dod i ben yn 2035.

Mae'r grŵp ehangach hefyd yn dal nifer o lesoedd cerbydau sy'n para chwe blynedd ar gyfartaledd, a gafodd eu trosglwyddo o Keolis Amey Operations ar 7 Chwefror 2021 fel rhan o'r cyfnod trawsnewid Gweithredwr y Dewis Olaf.

Y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer yr asedau hyn yw cyfradd fenthyca'r llywodraeth (1.27% ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn ystod 2020 a 0.91% ar gyfer prydlesi sy'n dechrau neu a ddisodlir yn ystod 2021).

Hefyd, mae gan y Grŵp nifer o brydlesi gwerth isel neu dymor byr o ran offer swyddfa.

### *Asedau hawl i ddefnyddio*

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio sy'n gysylltiedig â phrydles fel eiddo, offer a chyfarpar:

### *Grŵp*

| | Tir ac adeiladau<br>£000 | Cerbydau<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 149 | - | **149** |
| Ychwanegiadau at asedau hawl i ddefnyddio | 13,381 | - | **13,381** |
| Wedi caffael o dan gyfuniad o fusnesau | 6,692 | 104,929 | **111,621** |
| Tâl dibrisiant am y flwyddyn | (450) | (5006) | **(5,456)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 19,772 | 99,923 | **119,695** |

## Cwmni

| | Tir ac adeiladau £000 | Cerbydau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 149 | - | **149** |
| Ychwanegiadau at asedau hawl i ddefnyddio | 13,381 | - | **13,381** |
| Tâl dibrisiant am y flwyddyn | (372) | - | **(372)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 13,158 | - | **13,158** |

## Symiau a gydnabyddir mewn elw neu golled

Mae'r symiau canlynol wedi cael eu cydnabod mewn elw neu golled y mae'r Grŵp yn brydlesai ar eu cyfer:

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Elfen llog ar daliadau atebolrwyddau prydles | **241** | 7 |
| Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesi tymor byr (ac eithrio prydlesi tymor byr asedau gwerth isel) | **98** | 14 |
| Treuliau sy'n ymwneud â phrydlesi asedau gwerth isel | **25** | 7 |
| | **364** | 28 |

Ar 31 Mawrth 2021, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr a gwerth isel gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £176,000 (*2020: £4,000*) ac mae ganddo gytundebau i brydlesu gyda'r prydlesi sydd heb ddechrau eto, sef cyfanswm o £58,521,000 (*2020: £18,113,000*) ac mae £49,479,000 ohono'n ymwneud â phrydlesi cerbydau rholio yn y dyfodol a £9,043,000 yn ymwneud â cherbydau. Ar 31 Mawrth 2020, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr a gwerth isel gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £39,000 (*2020: £4,000*) a heb gytundebau (*2020: dim cytundebau*) i brydlesu gyda'r prydlesi heb ddechrau eto.

## Rhwymedigaethau prydles

| | Grŵp | | Cwmni | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021 £000 | 2020 £000 | 2021 £000 | 2020 £000 |
| Cyfran gyfredol rhwymedigaethau'r brydles | **32,409** | 125 | **-** | 125 |
| Cyfran anghyfredol o rhwymedigaethau'r brydles | **87,741** | - | **13,451** | - |
| | **120,150** | 125 | **13,451** | 125 |

## 21 Ymrwymiadau cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ymrwymodd y Grŵp i gontractau i brynu eiddo, offer a chyfarpar am £334,270,000 (*2020: £151,000,000*). Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ymrwymodd y Cwmni i gontractau i brynu eiddo, offer a chyfarpar am £233,786,000 (*2020: £151,000,000*). Disgwylir y bydd yr ymrwymiadau hyn yn cael eu setlo yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 22 Partïon cysylltiedig

### Manylion partïon cysylltiedig y mae TrC wedi delio â nhw

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd TrC incwm grant refeniw gan Lywodraeth Cymru, sef £410,977,000 (*2020: £199,589,000*), a oedd yn cynnwys grant pasio-trwodd o dan Gytundeb Grant y Gwasanaethau Trên, sef £356,050,000 (*2020: £172,769,000*). Yn ogystal â hyn, derbyniodd TrC arian grant cyfalaf o £222,589,000 (*2020: £80,919,000*), a oedd yn cynnwys arian pasio-trwodd o dan Gytundeb Grant y Gwasanaethau Trên, sef £88,078,000 (*2020: £13,877,000*). Cafodd TrC grant heb fod yn arian parod hefyd ynghylch caffael Llinellau Craidd y Cymoedd o £469,800,000 (gweler nodyn 15: Mae credydwr o Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn yr incwm gohiriedig sy'n ymwneud â chostau grant adnoddau a gafwyd ond cyllid nad yw wedi'i dderbyn eto ar 31 Mawrth 2021 o £12,702,000 (*2020: dyledwr o £342,000*) a dyledwr am gostau grant cyfalaf a gafwyd ond cyllid heb ei dderbyn eto o £22,449,000 (*2020: £31,898,000*).

Yn ogystal, roedd TrC yn cydnabod incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ymgynghori nad oedden nhw'n cael eu hariannu gan grant, a'r swm ar gyfer hynny oedd £4,550,000 (*2020: £2,176,000*). Ar 31 Mawrth 2021, roedd TrC yn ddyledus o £214,000 (*2020: £1,681,000*) gan Lywodraeth Cymru am y gwasanaethau ymgynghori hyn a ddarparwyd, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn yr adran dyledwyr masnach. Mae gan TrC hefyd incwm cronedig ar gyfer gwasanaethau prosiect a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru ond nad ydyn nhw wedi cael eu hanfonebu eto, a'r swm hwnnw yw £4,468,000 (*2020: £635,000*).

Mae TrC wedi gwneud pryniadau gan Lywodraeth Cymru, a'r cyfanswm ar gyfer hynny oedd £434,000 (*2020: £500,000*) am wasanaethau yr ail-godir amdanyn nhw (costau archwilio mewnol a chostau secondai yn bennaf) ac mae'r balans sy'n daladwy ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol yn £dim i Lywodraeth Cymru (*2020: £472,000*).

Ym mis Chwefror 2021, fe wnaeth y rhiant-gwmni ymgorffori is-gwmni newydd, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig, sydd â chyfranddaliwr budd lleiafrifol, ac o'r herwydd, mae angen datgeliadau partïon cysylltiedig ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol ag FRS 101. Yn ystod y cyfnod o fis Chwefror 2021 ymlaen, nid oes masnach wedi bod rhwng y ddau gwmni, ac mae dyledwr yn ddyledus gan Wasanaethau Arloesi Cyfyngedig TrC i TrC ar 31 Mawrth 2021, sef £7,200,000.

### Trafodion gyda'r prif bersonél rheoli

Tybir bod y prif bersonél rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr statudol y Cwmni (y dangosir eu taliadau cydnabyddiaeth yn nodyn 4) ac aelodau eraill o'r tîm gweithredol. Dyma'r taliadau gwneud iawn a roddwyd i'r prif bersonél rheoli:

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau'r prif reolwyr yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol | **1,250** | 1,074 |
| Cyfraniadau'r cwmni at gynlluniau pensiwn prynu arian | **85** | 75 |
| Taliadau i drydydd partïon yng nghyswllt secondeion | **277** | 354 |
| | **1,612** | 1,503 |

## 23 Caffael busnes

### *Caffaeliadau yn y cyfnod cyfredol*

Ar 7 Chwefror 2021, prynodd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig fusnes anghorfforedig Keolis Amey Operations Limited. Talodd Keolis Amey £1,466,000 i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig fel cydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad, gan gynrychioli'r rhwymedigaethau net ar y dyddiad trosglwyddo. Prif weithgarwch y busnes yw gweithredu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr ar rwydwaith Cymru a'r Gororau. Yn y ddau fis hyd at 31 Mawrth 2021 cyfrannodd y busnes refeniw o £55,955,000 ac elw net o £1,070,000 i'r refeniw a'r elw net am y flwyddyn.

Deilliodd y cyfuniad busnes hwn o'r ffaith bod trefniadau Gweithredwr y Dewis Olaf ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau wedi dod â'r fasnachfraint i berchnogaeth gyhoeddus. Pe bai'r pryniant wedi digwydd ar 1 Ebrill 2021, byddai'r trosiant wedi bod yn amcangyfrif o £437,006,000, gan gynnwys £285,000,000 o daliadau cymhorthdal rheilffyrdd gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddai gwarged wrth gefn y grŵp wedi bod yn ddim (heblaw am wahaniaethau amseru ansylweddol mewn perthynas ag IFRS 16 a symudiadau treth ohiriedig). Wrth bennu'r symiau hyn, mae'r rheolwyr wedi tybio y byddai'r addasiadau gwerth teg a gododd ar y dyddiad caffael yr un fath pe bai'r caffaeliad wedi digwydd ar 1 Ebrill 2020.

### *Effaith caffael*

Cafodd y caffaeliad yr effaith ganlynol ar asedau a rhwymedigaethau'r Cwmni.

| | Gwerthoedd cydnabyddedig wrth gaffael £000 |
|---|---|
| **Asedau net y caffaelwr ar y dyddiad caffael:** | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 33,493 |
| Cydnabod asedau hawl i ddefnyddio prydlesau cerbydau o dan IFRS 16 | 111,621 |
| Stociau | 4,651 |
| Dyledwyr masnach a dyledwyr eraill | 23,552 |
| Arian parod | 150 |
| Masnach a chredydwyr eraill | (61,148) |
| Cydnabod rhwymedigaeth prydlesau cerbydau o dan IFRS 16 | (111,621) |
| Rhwymedigaethau treth wedi'u gohirio | (2,164) |
| Asedau a rhwymedigaethau net adnabyddadwy | **(1,466)** |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol sy'n ymwneud â chyfuniad o fusnes | **(1,466)** |
| **Ewyllys da wrth gaffael** | - |

Mae'r cofnodion cyfrifyddu ar gyfer y caffaeliad yn rhai dros dro tra'n aros i falansau eiddo, offer a chyfarpar gael eu cwblhau'n derfynol. Bydd yr ymarfer hwn yn dod i ben yn ystod y cyfnod mesur 12 mis ar ôl y dyddiad caffael.

## 24 Prif riant-gwmni a rhiant-gwmni grŵp mwy

Mae TrC yn is-gorff sy'n dod o dan ofal Gweinidogion Cymru, a ystyrir hefyd yn brif riant-endid. Mae canlyniadau TrC wedi'u cynnwys yng nghyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru, sydd ar gael o'r cyfeiriad cofrestredig, sef Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu o'r wefan yn https://llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru?_ga=2.9122419.711397952.1559500811-1399405925.1551128102

